Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi - Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017-18

HC 1175

# Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi – Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2017-18

Cyflwynwyd i Dŷ’r Cyffredin yn unol ag Adran 7 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchmynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin ar 28 Mehefin 2018.

HC 1175

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2018**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau fersiwn 3.0 y Drwydded Llywodraeth Agored, ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y rhai sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn:
communications@noms.gsi.gov.uk

ISBN 978-1-5286-0561-8
CCS0618901828 06/18

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan yr APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

Adroddiad Perfformiad ........ 3

**Trosolwg** ........ **5**

Pwrpas, Gweledigaeth a Gwerthoedd ........ 5

Rhagair gan y Prif Swyddog Gweithredol ........ 6

Strwythur ein gwasanaethau ........ 8

**Crynodeb o'r Perfformiad** ........ **10**

Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned ........ 13

Rheoli Troseddwyr Dan Glo (Carchardai Cyhoeddus a Phreifat) ........ 17

Meysydd Blaenoriaeth Eraill ........ 24

HMPPS yng Nghymru ........ 29

Gwasanaethau Corfforaethol a blaenoriaethau craidd eraill ........ 31

Gwasanaethau Ariannol a Pherfformiad ........ 36

Perfformiad Gweithredol ........ 40

Cydraddoldeb ........ 44

Ein Pobl ........ 45

Adroddiad Cynaliadwyedd ........ 48

Adroddiad Atebolrwydd ........ 53

**Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol** ........ **55**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr ........ 55

Datganiad Llywodraethu ........ 61

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ........ 77

**Adroddiad Taliadau a Staff** ........ **78**

**Atebolrwydd Seneddol** ........ **95**

**Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin** ........ **97**

Datganiadau Ariannol ........ 102

**Datganiadau Ariannol** ........ **104**

**Nodiadau'r Cyfrifon** ........ **109**

# Adroddiad Perfformiad

# Trosolwg

## Pwrpas, Gweledigaeth a Gwerthoedd

### *Atal dioddefwyr drwy newid bywydau*

Darparwn wasanaethau effeithiol a thrugarog ar gyfer Carchardai, Gwasanaethau Prawf a Sefydliadau'r Ifanc i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed a helpu pobl a gafwyd yn euog o droseddau i newid er mwyn gallu cyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas.

#### Ein Gwerthoedd

**Pwrpas –** Gweithredwn ddedfrydau a gorchmynion y llysoedd. Rydym yn atal dioddefwyr drwy newid bywydau.

**Dynoliaeth –** Credwn fod bywydau'n gallu newid er gwell. Gweithiwn i annog gobaith ac i roi cyfle i bobl adsefydlu. Rydym yn trin pawb yn barchus a gweddus.

**Bod yn agored** – Rydym yn deg. Gwyddom fod penderfyniadau clir a chyfiawn yn gwneud gwahaniaeth i'n gwaith. Rydym yn agored am yr hyn a wnawn ac yn ceisio dysgu ac arloesi i wneud yn well.

**Gyda'n gilydd –** Gwerthfawrogwn amrywiaeth. Gweithiwn ar draws y gwasanaethau prawf, carchardai a sefydliadau'r ifanc, a gyda'n partneriaid a'n darparwyr, i wneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau.

## Rhagair gan y Prif Swyddog Gweithredol

Rwyf yn falch o gyflwyno Adroddiad Blynyddol cyntaf Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) a lansiwyd fel Asiantaeth ar 1 Ebrill 2017.



Mae gan HMPPS ddyletswydd i weithredu dedfrydau a gorchmynion y llysoedd; amddiffyn y cyhoedd; ac adsefydlu troseddwyr. Rwyf yn falch o arwain Asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus mor bwysig ac yn ymfalchïo'n arbennig yn ein staff ymroddedig a phroffesiynol sy'n gweithio'n ddiflino bob dydd i gadw ein cymunedau'n ddiogel ac atal dioddefwyr drwy helpu'r rhai a gafwyd yn euog gan y llysoedd i 'weddnewid eu bywydau'.

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn fwy heriol nag erioed i'r carchardai a'r gwasanaeth prawf oherwydd bu'n rhaid i ni weithredu agenda o newid mawr i leihau costau ac ehangu goruchwyliaeth yn y gymuned i bawb a ryddheir o ddedfryd dan glo. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i gwrdd â'n prif gyfrifoldebau – sef darparu dedfrydau'r llys yn effeithiol; cadw carcharorion sydd dan glo yn ddiogel; a gwneud peth cynnydd ar aildroseddu, yn enwedig i rai gyda dedfrydau cymunedol neu ddedfrydau o dros 12 mis dan glo. Ond cawsom rai problemau gweithredol sylweddol hefyd, yn enwedig o ran diogelwch ac amodau byw yn y carchardai ynghyd ag ansawdd yr oruchwyliaeth gymunedol i lawer o'n troseddwyr risg isel neu ganolig.

Er y lleihad amlwg yng nghyfradd y marwolaethau hunan-fwriad mewn carchardai (2017 oedd y chweched gyfradd isaf mewn 25 mlynedd), sydd i'w groesawu, mae'r lefel sylfaenol o hunan-niwed yn parhau i fod yn bryder mawr ac mae trais yn erbyn carcharorion a staff wedi cynyddu. Rhan allweddol o'n hymateb i'r problemau hyn yw cyflwyno'r model Rheoli Troseddwyr Dan Glo (OMiC) sy'n cynyddu lefelau staffio ar unedau preswyl ac yn rhoi swyddog 'gweithiwr allweddol' i bob carcharor. Gwaetha'r modd, gohiriwyd cynnydd gyda gweithredu'r model OMiC oherwydd y twf siarp ac annisgwyl yn y boblogaeth garchardai dros haf 2017 ond mae'r trefniadau bellach mewn llaw unwaith eto gan ddechrau gwneud gwahaniaeth dros y 12 mis nesaf.

Yn yr un modd, mae'r cynnydd yn nifer y carcharorion wedi effeithio ar ein gallu i wella amodau byw a bu'n rhaid i ni gynnal mwy o lety 'mewn defnydd' nag yr oeddem wedi'i ddisgwyl. Fodd bynnag, oherwydd bod nifer y carcharorion i lawr yn 2018, mae cynnydd bellach i'w weld yn digwydd gan gyflymu wrth i fwy o lefydd ddod ar gael drwy raglen Trawsnewid Ystad Carchardai'r llywodraeth.

Yn y gymuned rydym wedi cymryd y camau angenrheidiol i addasu ein contractau â Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol mewn ymateb i bryderon am wasanaethau ac yn parhau i weithio gyda nhw i wella ansawdd y ddarpariaeth, rhywbeth sy'n flaenoriaeth ar gyfer 2018-19.

Er y pwysau gweithredol sylweddol, llwyddodd yr Asiantaeth i reoli ei hadnoddau'n effeithiol a chryfhau ei gweithdrefnau mewnol i ennill sgôr archwilio gwell ar

lywodraethu, rheoli risg a mesurau rheoli mewnol, oedd yn dipyn o gamp. Hefyd yn werth sôn amdano yw llwyddiant y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn i ennill Gwobr Rhagoriaeth gan y Sefydliad Ansawdd Prydeinig gyda staff carchardai arbenigol hefyd wedi teithio i Ynysoedd Prydeinig y Wyryf i gefnogi'r ymdrechion dyngarol yno'n dilyn effaith drychinebus Corwynt Irma ym mis Medi 2017.

Bydd yr Asiantaeth yn parhau i wynebu heriau yn 2018-19 ond mae ganddi staff hynod ymroddgar a gwydn. Mae'r llywodraeth wedi cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer gwaith rheng flaen ac yn buddsoddi yn yr ystad i wella gorlenwi ac amodau byw mewn carchardai. Mae gennym gynllun clir a chydlynol yn ei le i ddatrys pwysau gweithredol, gwella safonau a sicrhau canlyniadau gwell i'r cyhoedd.

Mae'r gwaith a wnaethom yn 2017-18 yn dystiolaeth amlwg o'r cynnydd a wnaed ac rwy'n ffyddiog y bydd pethau'n mynd o nerth i nerth dros y 12 mis nesaf.

**Michael Spurr**

Prif Swyddog Gweithredol
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

# Strwythur ein gwasanaethau

Darparwn wasanaethau effeithiol beunyddiol i redeg ein carchardai a'n gwasanaeth prawf drwy:

- 102 o Garchardai Sector Cyhoeddus (gweithredol)
- 14 o Garchardai Preifat
- 7 rhanbarth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)
- 5 Safle / Sefydliad Troseddwyr Ifanc ar gyfer pobl ifanc (rhan o'r 102 o garchardai) (1 preifat)
- 1 Canolfan Cadw Mewnfudwyr
- 3 Canolfan Hyfforddi Ddiogel (2 preifat)

Adroddwn ar ein perfformiad mewn pedwar maes:

**Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned**

- mae NPS y sector cyhoeddus yn cynghori dedfrydwyr ac yn gweithio gyda throseddwyr risg uchel yn y gymuned ac yn y carchar
- Mae 21 o Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) (sector preifat) yn darparu gwasanaethau prawf i droseddwyr risg isel a chanolig a gwasanaethau ailsefydlu 'Drwy'r Gât' i droseddwyr cyn eu rhyddhau o'r carchar
- Darparwn wasanaethau dibynadwy ac effeithiol gan gyflenwyr preifat i fonitro cyrffyw electronig troseddwyr a diffynyddion

**Rheoli Troseddwyr dan Glo**

- Gweithiwn i ddarparu dedfrydau a gorchmynion dan glo'r llysoedd a thrwy sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat, gan helpu pobl yn ein gofal i newid. (Mae hyn yn cynnwys lleihau trais, hunan-niwed a marwolaethau hunan-fwriad mewn carchardai.)
- darperir cyfleoedd addysg a gwaith i droseddwyr i leihau cyfraddau aildroseddu yn dilyn eu rhyddhau
- darparwn wasanaeth hebrwng carcharorion diogel a di-risg gan gyflenwyr preifat

**HMPPS yng Nghymru**

- gweithiwn yn agos â Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau cyfiawnder a ganlyn yng Nghymru: rheoli troseddwyr dan glo (drwy garchardai cyhoeddus a phreifat) y gwasanaeth prawf (drwy'r NPS, cwmnïau CRC a Monitro Electronig)

**Meysydd Blaenoriaeth Eraill**

- rheolwn droseddwyr benywaidd sydd dan glo drwy ystad garchardai ddynodedig ar gyfer merched a darparwn wasanaethau prawf yn y gymuned i droseddwyr benywaidd

- gweithiwn i gyflawni rolau a darparu dedfrydau o garchar gan y llysoedd a roddwyd i bobl ifanc dan 18 oed, ynghyd â gwasanaethau plentyn-ganolog i'w helpu i bontio'n llwyddiannus i'r gymuned ac i fod yn oedolion
- cefnogwn y Swyddfa Gartref i symud Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor (FNO) drwy ddarparu llefydd carchar dynodedig i'r troseddwyr hyn

Gweithiwn gyda'r partneriaid / Cyrff Hyd Braich canlynol i ddarparu ein gwasanaethau:

- **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi** – corff annibynnol sy'n arolygu canolfannau cadw, adrodd ar amodau a sut y caiff carcharorion eu trin a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i droseddwyr dan glo a'r cyhoedd
- **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** – adrodd ar ba mor effeithiol yw'r gwaith a wneir gyda throseddwyr i leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd
- **Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau Dan Glo** – cynghori gweinidogion ar sut i leihau nifer y marwolaethau yn y carchardai
- **Bwrdd Monitro Annibynnol** – monitro pob carchar yn rheolaidd i gadarnhau bod eu triniaeth o garcharorion yn deg, cyfiawn a thrugarog
- **Canolfannau Cadw Mewnfudwyr (IRC)** – rydym yn cael ein comisiynu gan y Swyddfa Gartref i redeg IRC
- **Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO)** – ymchwilio i farwolaethau dan glo a chwynion gan garcharorion, plant mewn cartrefi / canolfannau hyfforddi diogel, mewnfudwyr dan glo a rhai dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf
- **Y Bwrdd Parôl** – penderfynu a yw'n ddiogel rhyddhau carcharorion gyda dedfrydau perthnasol
- **Corff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai** – gwneud argymhellion i'r llywodraeth ar gyflogau rheolwyr a staff gweithredol
- **Y Cyngor Dedfrydu** – cyhoeddi canllawiau ar ddedfrydu a gwerthuso effaith y canllawiau ar arferion dedfrydu
- **Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB)** – monitro'r system cyfiawnder ieuenctid, rhoi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ac adnabod a hyrwyddo arferion da
- **Arsyllwyr Lleyg** – monitro triniaeth y rhai a gludir mewn faniau hebrwng (a rhai yng nghyfleusterau dan glo'r llysoedd sy'n cael eu rhedeg gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM)

# Crynodeb o'r Perfformiad

Gwelodd 2017-18 yr Asiantaeth yn dechrau gosod sylfeini cryf i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i gyflwyno mwy fyth o welliannau yn y blynyddoedd nesaf.

Mae'r boblogaeth garchardai wedi dyblu bron ers 1993 a'r disgwyl yw y bydd yn tyfu i 88,000 erbyn 2021-22. Yn Rhagfyr 2017 roeddem yn rheoli dros 152,000 o droseddwyr ar oruchwyliaeth cyn-ac ôl-ryddhau a thros 118,000 o droseddwyr ar orchmynion llys. Mae gennym tua 46,500 o staff ar draws yr Asiantaeth.

Mae sicrhau'r nifer iawn o staff o'r ansawdd iawn yn hanfodol i sefydlu gwasanaeth llwyddiannus, rhywbeth a fu'n flaenoriaeth uchel i ni. Derbyniwyd £100 miliwn ychwanegol i recriwtio 2,500 o swyddogion carchar erbyn Rhagfyr 2018. Llwyddodd y gwasanaeth i gwrdd â'r targed hwnnw, cyn pryd, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a byddwn yn parhau ein hymgyrch recriwtio gyda ffocws ar y safleoedd y mae'n anoddach recriwtio iddynt.

Rydym hefyd wedi recriwtio 1,000 o swyddogion cymorth prawf a swyddogion prawf dan hyfforddiant newydd. Bwriadwn recriwtio 500 o swyddogion prawf dan hyfforddiant a 300 o swyddogion cymorth prawf eraill yn 2018-19 i ateb y galw disgwyliedig a llenwi'r bylchau wrth i staff ymddeol neu symud ymlaen. Mae'r meini prawf ar gyfer ymuno â'r cynllun hyfforddiant prawf wedi ehangu gan sicrhau ein bod yn denu ystod eang o ymgeiswyr.

Erys rhai heriau o ran cadw staff, yn enwedig staff newydd mewn carchardai, ac felly rydym yn treialu cynllun newydd ar gyfer hyfforddi swyddogion carchar. Bydd y cyfnod hyfforddi i recriwtiaid yn hirach gyda mwy o amser yn cael ei dreulio mewn sefydliad i sicrhau eu bod yn fwy parod pan fyddant yn dechrau gweithio mewn carchar.

Mae'r staff newydd yn hanfodol i lwyddiant ein model Rheoli Troseddwyr Dan Glo (OMiC) a dreialwyd y llynedd ac sydd bellach yn cael ei weithredu ar draws yr ystad.

Mae OMiC yn golygu y gallwn roi sesiwn un-i-un wythnosol gyda swyddog carchar band tri, a elwir yn weithiwr allweddol, i bob dyn sy'n oedolyn yn yr ystad. Eu rôl yw arwain, mentora a chefnogi unigolyn drwy eu dedfryd.

Bydd staff prawf yn gweithio yn y carchardai ar secondiad am nifer o flynyddoedd, fel rhan o'r tîm rheoli troseddwyr. Bydd hyn yn cynorthwyo mwy gyda llwythi achosion anoddach ac yn golygu y gellir cydgysylltu dedfrydau'n well.

Un o'n prosiectau carchar mwyaf yn 2017-18 oedd agor carchar newydd Y Berwyn yng Ngogledd Cymru, sy'n darparu 2,106 o welyau. Llwyddodd y carchar i agor ar amser ac i'w gyllideb.

Rydym hefyd wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno carchardai di-fwg sy'n golygu y gall staff a throseddwyr bellach fyw a gweithio'n rhydd o'r niwed a ddaw o fwg ail-law.

Yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), daeth y rhaglen Effeithiol, Effeithlon a Rhagorol (E3) i ben. Crëwyd E3 i ddylunio a gweithredu model gweithredol ar sail arferion gorau'r 35 o Ymddiriedolaethau Prawf sydd bellach yn rhan o’r NPS.

Gyda’r gwaith hwn ar ben, mae’r NPS bellach yn canolbwyntio ar sut y bwriadwn iddo edrych erbyn 2020. Rydym wedi dechrau gweithredu system TG prawf newydd, fydd yn parhau yn 2018-19. Bydd ffocws hefyd ar sicrhau bod y cwmnïau CRC mewn sefyllfa i gynnig yr ymyriadau cywir. Mae diwygio’r contractau CRC i adlewyrchu’r cydbwysedd rhwng costau sefydlog ac amrywiol yn well, wedi bod yn gam cyntaf i gyflawni hyn.

Rydym hefyd yn defnyddio technoleg yn fwy effeithiol i roi gwybod i ddedfrydwyr pa ymyriadau sydd ar gael iddynt ond mae angen gwneud mwy i sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer rhai a ddedfrydir i orchymyn cymunedol. Yn ei dro bydd hyn yn rhoi mwy o hyder i’r farnwriaeth yn ein hymyriadau.

Er y gallwn ymfalchïo mewn rhai o'n llwyddiannau eleni, gwyddom fod yn rhaid i ni barhau i wneud gwelliannau pellach yn y dyfodol.

Er y gwelsom lai o farwolaethau hunan-fwriad; mae ymosodiadau a hunan-niwed yn parhau i gynyddu. Rydym yn cydnabod bod cyffuriau hefyd yn rhy gyffredin ar draws yr ystad, yn enwedig yn y carchardai Categori B a C. Mae dyfodiad sylweddau seicoactif wedi gwaethygu’r broblem gyffuriau ac yn achosi mwy o drais yn y carchardai.

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) wedi cyflwyno’r broses Hysbysu Brys gan dynnu sylw at broblemau yn CEM Nottingham. Roedd rhai canlyniadau arolygu eraill hefyd yn is na’r safonau y ceisiwn eu cyrraedd, gan gynnwys yn CEM Lerpwl. Mae’r ffocws penodol hwn gan HMIP wedi ein helpu i dargedu adnoddau at garchardai sydd angen cymorth ychwanegol arnynt. Ond rhaid cofio hefyd y cawsom adroddiadau calonogol gan HMIP, gan gynnwys yn CEM Feltham ac yn ehangach ar draws ystad o gyfleusterau sefydliadau’r ifanc.

Fel y gallwn gefnogi orau ein staff gweithredol i leihau aildroseddu, rydym wedi gwneud nifer o newidiadau i’n strwythurau. Rydym wedi creu cyfarwyddwyr grŵp carchardai sy’n cadw trosolwg ar grŵp llawer llai o lywodraethwyr nag o'r blaen. Rydym wedi sefydlu’r swydd Cyfarwyddwr Gwella Carchardai i arwain ein strategaeth gyffuriau newydd ac i ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach y gwaith diogelwch carchardai. Rydym wedi adnabod y deg carchar yn y wlad fydd yn gweld dull cydgysylltiedig o ddarparu arweinyddiaeth a diwylliant.

Gwelsom gynnydd sylweddol yn y boblogaeth garchardai yn 2017-18 ac er i ni gymryd camau i sicrhau ein bod yn rheoli effaith hyn, fe gyflwynodd y sefyllfa gryn heriau. O ganlyniad bu’n rhaid i ni benderfynu cadw dau garchar a ddylai gau ar agor, sef CEM Hindley a CEM Rochester. Hefyd oherwydd y cynnydd, ni fu’n bosib cau rhai mannau i wneud gwaith cynnal a chadw a bydd yr oedi’n effeithio ar y flwyddyn i ddod.

Rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar wasanaethau’r cwmnïau CRC, lle nad oedd y perfformiad cystal ag y byddem wedi dymuno iddo fod. Er y byddwn yn parhau i weithio

gyda’r cwmnïau CRC i wella eu gwasanaethau, yn enwedig cysondeb y gwaith gorfodi, bydd yn parhau i fod yn her yn y flwyddyn i ddod.

O ganlyniad i’r newidiadau mawr yn y ffordd y caiff y system barôl ei rhedeg, yn dilyn dyfarniadau’r llys yn achos Worboys, rydym wedi gwahanu gwaith y grŵp carcharu mwy diogel a’r grŵp amddiffyn y cyhoedd. Daw ein Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd bellach o dan ein cyfarwyddiaeth prawf fel y gallwn ganolbwyntio ar un o’n prif flaenoriaethau, sef adolygiadau o droseddau pellach difrifol. Bydd y tîm Carcharu Mwy Diogel yn dod o dan y Cyfarwyddwr Gwella Carchardai.

Drwy’r gyfarwyddiaeth Diogelwch, Trefn a Gwrthderfysgaeth, treuliwyd y flwyddyn ddiwethaf yn gosod y sylfeini er mwyn gallu ymdrin â’r ochr fodern newydd i droseddu, gan gynnwys drôns, troseddu cyfundrefnol difrifol a ffonau symudol.

Buddsoddwyd £3 miliwn mewn uned wybodaeth genedlaethol a £3 miliwn arall mewn uned troseddu cyfundrefnol difrifol genedlaethol, sy’n cynnwys timau rhanbarthol. Bydd yr unedau hyn yn cefnogi ar lefel genedlaethol ond hefyd yn anfon adnoddau ychwanegol i sefydliadau neu ranbarthau prawf lle mae risg uchel o droseddu cyfundrefnol difrifol. Buddsoddwyd £8.2 miliwn mewn gwaith chwilio a dadansoddi carchardai ar lefel leol.

Ar ôl dechrau gwneud newidiadau sylweddol, rhaid i ni eleni ganolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn fel bod staff yn gwbl gymwys i helpu’r rhai yn ein gofal i newid eu bywydau.

# Rheoli Troseddwyr yn y Gymuned

Yng Nghynllun Busnes 2017-18 HMPPS, fe wnaethom ymrwymo i ddarparu gwasanaeth prawf mwy effeithlon oedd yn integreiddio gwasanaethau cymunedol a rhai dan glo'n well ond yn parhau i roi cyngor effeithiol i'r llysoedd, rheoli troseddwyr yn ddiogel yn y gymuned a darparu gwasanaeth i ddioddefwyr. Darperir hyn drwy'r NPS a'r cwmnïau CRC. Un o'r prif ddulliau o reoli troseddwyr yn y gymuned yw drwy Fonitro Electronig (EM).

**Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**
Rheolir y troseddwyr gyda'r risg fwyaf gan y NPS. Mae'n wasanaeth cyhoeddus hollbwysig ac mae'n hanfodol i ni sicrhau y darperir y gwasanaeth yn effeithiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwrdd ag ymrwymiadau yn ein Cynllun Busnes, yn bennaf drwy gwblhau rhaglen o newid sylweddol sydd wedi safoni a gwneud prosesau craidd y NPS yn fwy effeithlon. Ceisiodd y Rhaglen Newid E3 adnabod arferion gorau o Gymru a Lloegr a gwreiddio'r arferion hynny ym mhob maes busnes. O ganlyniad i'r gwaith hwn, darparwn bellach fwy o adroddiadau i'r llysoedd ar ddiwrnod y cais (gan gefnogi gwaith ein partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol i ddarparu cyfiawnder diymdroi).

Rydym wedi ymrwymo i integreiddio ein gwasanaethau â gwasanaethau'r carchardai'n well. Treuliwyd y flwyddyn ddiwethaf yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr yn y carchardai i helpu i ddylunio model OMiC newydd a byddwn eleni'n dechrau ar y broses o'i weithredu'n llawn. Bydd hyn yn sicrhau bod troseddwyr a ryddheir ar drwydded yn pontio'n fwy effeithiol a bod sgiliau rheoli risg a chynllunio dedfrydu swyddogion prawf wedi eu gwreiddio mewn carchardai.

I wella mwy ar ein gwasanaeth i'r llysoedd, rydym wedi datblygu offeryn Cynigion Clyfar (Smart Proposals) newydd sy'n sicrhau bod gan ein holl awduron adroddiadau llys fynediad at y rhestr lawn o ymyriadau addas gan y NPS a'r cwmnïau CRC. Bydd yr offeryn yn sicrhau y darparwn argymhellion dedfrydu cyson ym mhob llys.

Darparwn hefyd wasanaeth i ddioddefwyr troseddau treisgar neu rywiol difrifol sy'n rhoi gwybodaeth iddynt am y cynnydd y mae'r troseddwr yn ei wneud gyda'i ddedfryd ac unrhyw gerrig milltir pwysig, fel adolygiad gan y Bwrdd Parôl. Rydym wedi datblygu ein gwasanaeth fel bo'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr yn gweithio'n well: mae gan Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr bellach fynediad at wybodaeth fwy cynhwysfawr i gefnogi'r cymorth a roddwn i ddioddefwyr.

Rydym wedi parhau i recriwtio mwy o swyddogion prawf proffesiynol i'r NPS fel y gallwn ddatblygu mwy ar y gwasanaethau a ddarparwn. Yn 2017-18, recriwtiwyd bron i 1,000 o swyddogion prawf dan hyfforddiant a swyddogion gwasanaeth prawf.

**Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol**
Yn 2017-18, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o fframwaith perfformiad y cwmnïau CRC i ddileu dyblygu ac osgoi'r potensial o gymhellion gwrthnysig.

Derbyniwyd nad oedd costau sefydlog y cwmnïau'n ddigon i sicrhau y darperir gwasanaethau o'r ansawdd angenrheidiol, fel y mae'r contract yn ei nodi. Ym Mehefin 2017 fe wnaethom newid y contract i amrywio'r dull o dalu i adlewyrchu lefel costau sefydlog y cwmnïau CRC yn fwy cywir. Gobeithiwn y bydd y newid hwn yn golygu y gall y cwmnïau weithredu'n fwy effeithiol.

Cafwyd gwelliant cyffredinol mewn perfformiad lefel gwasanaeth ar draws y cwmnïau yn 2017-18. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ond, gyda mwy o bwysau o ganlyniad i'r metrigau talu yn ôl y canlyniadau, bydd y pwysau ariannol ar y cwmnïau CRC yn parhau i gyflwyno risgiau y bydd angen eu rheoli yn y dyfodol.

Mae ein timau rheoli contractau'n rheoli'r gwaith o sicrhau cydymffurfio â chontractau. Lle nad yw darparwr yn perfformio'n foddhaol, gallwn gyflwyno 'Cynllun Gwella' gorfodol yn nodi pa gamau sydd angen eu cymryd, cymhwyso 'Credyd Gwasanaeth' i'n digolledu am ein colledion neu, yn y pen draw, terfynu'r contract am dorri ei delerau. Hyd yma cyflwynwyd 67 'Cynllun Gwella'; o'r rhain mae 38 wedi eu cwblhau a'u tynnu allan o'r contract a 29 yn parhau i fod yn eu lle.

Yn Ebrill 2017 cychwynasom Raglen Gwelliannau System Gyfan. Rhedodd gyfnod un y rhaglen tan fis Rhagfyr 2017. Yn ystod yr amser hwn, rydym wedi cadarnhau bod dyrannu achosion yn gweithio fel y dylai, wedi gloywi canllawiau arferion gorau ac wedi casglu a dadansoddi data ar weithlu'r cwmnïau CRC i ddeall ein sylfaen costau sefydlog yn well.

Mae cyfnod dau'r rhaglen bellach ar waith gyda 10 o ffrydiau gwaith yn gweithio i wella meysydd fel: sut y rhannwch wybodaeth am risg yn fwy effeithiol; casglu a defnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn well; ac adnabod a lledaenu arferion da.

Yn Awst 2017 cyflwynwyd y Tasglu Cyrffyw Cadw yn y Cartref i ymateb i bryderon am y twf yn y boblogaeth garchardai. Rydym wedi gweithio gyda'r cwmnïau CRC i wella ansawdd a phrydlondeb eu hymateb i geisiadau gan garchardai am Adroddiadau Amgylchiadau'r Cartref; mae cynnydd da wedi'i wneud. Gwnaed hyn yn ystod cynnydd sylweddol mewn llwyth gwaith. Ymgorfforwyd dysgu mewn Cyfarwyddyd Prawf diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.

**Monitro Electronig (EM)**

Un o'r dulliau a ddefnyddir i reoli troseddwyr yn y gymuned yw EM. Yn 2016-17 roedd 63,400 o hysbysiadau EM newydd. (Cyhoeddir ffigur 2017-18 yn nogfen Crynhoad Blynyddol HMPPS 2017-18 ar 26 Gorffennaf 2018). Ar ddiwrnod arferol mae tua 11,000 o unigolion yn cael eu monitro'n electronig.

Yn 2017-18 adroddodd y darparwr EM eu bod wedi cyflawni dros 280,000 o ymweliadau â chartrefi'r drwgweithredwyr i osod cyfarpar, sicrhau trefniadau monitro priodol a datgomisiynu'r cyfarpar ar ddiwedd y gorchymyn. Mae hyn ar ben y cysylltiadau dros y ffôn ag unigolion i annog cydymffurfio a darparu cymorth.

Yn ystod y flwyddyn gwnaed gwelliannau i gywirdeb, cyflymder a natur y wybodaeth a roddir i randdeiliaid i sicrhau bod gorchmynion yn cael eu gorfodi'n effeithiol a diymdroi. Mae gwaith ar y cyd â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLlTEM) wedi sicrhau y nodir ac y rheolir unrhyw wendidau yn y cyswllt rhwng y ddwy asiantaeth.

Mae gwaith hefyd wedi parhau ar y genhedlaeth nesaf o EM. Mae ein Rhaglen EM yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth cenedlaethol newydd fel y gallwn fonitro troseddwyr yn fwy effeithiol ac arloesol i gefnogi proses ehangach o ddiwygio'r system gyfiawnder. Bydd y gwasanaeth newydd yn parhau i fonitro a gorfodi amodau cyrffyw ond hefyd yn darparu technoleg monitro lleoliad newydd fel rhan o gynllun peilot GPS gan y MoJ.

Daeth cynllun peilot GPS y MoJ, i brofi sut y gallai argaeledd a'r defnydd o dagiau GPS effeithio ar ymddygiad troseddwyr a gwneuthurwyr penderfyniadau, i ben ar amser ar 31 Mawrth 2018. Yn ystod y peilot cafodd dros 600 o dagiau eu gorfodi gan ddangos galw clir am dagiau GPS fel offeryn monitro lleoliad i ddrwgweithredwr ar fechnïaeth, ar gyrffyw cadw yn y cartref ac allan ar drwydded. Dangosodd y peilot hefyd fod galw am dag sy'n gallu monitro lleoliad a chyrffyw ar yr un pryd, oherwydd roedd y ddau ofyniad yn berthnasol i tua hanner y tagiau a orfodwyd.

Mae tîm y rhaglen yn gweithio gyda'n cyflenwyr i gytuno ar gynllun gan ddisgwyl y bydd y gwasanaeth EM newydd yn ei le erbyn 2019. Dyfarnwyd y contract i ddarparu'r gwasanaethau caledwedd ar gyfer EM i G4S ym Mehefin 2017 a'i lofnodi yn Nhachwedd 2017, yn dilyn cystadleuaeth gaffael wedi'i negodi ac yn unol â rheoliadau Caffael Cyhoeddus yr UE. Mae trefniadau ar waith i ymgorffori integreiddio G4S fel y darparwr caledwedd EM.

**Amddiffyn y Cyhoedd yn y Gymuned**
Rydym hefyd yn chwarae rôl hanfodol o amddiffyn y cyhoedd drwy ein gwaith mewn nifer o feysydd eraill.

Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (CJA 2003) yn darparu ar gyfer sefydlu Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaeth (MAPPA) ym mhob un o'r 42 ardal cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Yr Awdurdod Cyfrifol yw'r brif asiantaeth ar gyfer MAPPA. Sef yr Heddlu, y gwasanaeth Carchardai a'r NPS ym mhob ardal. Mae gan yr Awdurdod Cyfrifol ddyletswydd i sicrhau bod y risgiau a gyflwynir gan droseddwyr treisgar a rhywiol penodedig yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol.

Dyfeisiwyd y trefniadau MAPPA hyn i amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr troseddau blaenorol, rhag niwed difrifol gan droseddwyr rhywiol a threisgar. Maent hefyd yn sicrhau bod yr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a chyrff eraill sy'n delio â throseddwyr yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd i ddelio â'r troseddwyr hyn.

Yn Hydref 2017 cyhoeddasom Adroddiadau Blynyddol MAPPA ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn unol â Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Maent i'w cael yn:
https://mappa.justice.gov.uk/connect.ti/MAPPA/view?objectId=11230928

Mae ein System Asesu Troseddwyr (OASys) yn offeryn allweddol a ddefnyddir i asesu risg ac anghenion troseddwyr a chreu cynlluniau i weithio gyda nhw a rheoli eu risg.

Yn 2017-18 rydym wedi:

- trawsnewid y llwyfan a ddefnyddir i letya OASys i ddarparu HMPPS gyda dull mwy ystwyth o ddiweddaru a gwneud newidiadau i'r gronfa ddata yn y dyfodol
- creu dulliau i adnabod troseddwyr gydag anawsterau dysgu posib yn well, gan sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad pellach

Yn y NPS cynhaliwn brofion polygraff gorfodol a ddaeth yn offeryn gwerthfawr i reoli troseddwyr rhyw sy'n cyflwyno risg uchel. Erbyn diwedd Ebrill 2018 roedd bron i 3,000 o brofion wedi eu cynnal ar 1,586 o droseddwyr rhyw risg uchel yn y gymuned ers dechrau'r profion yn Awst 2014. Rydym yn parhau i ddatblygu ein dulliau rheoli risg ar gyfer troseddwyr rhyw gan obeithio erbyn yr hydref y gallwn ddiweddaru ein hofferyn darogan risg o ddigwydd gyda mesur mwy effeithlon a manwl.

Rydym wedi cadw ein hachrediad ar gyfer Horizon (rhaglen i ddynion gydag euogfarnau rhywiol) a hefyd wedi ennill achrediad ar gyfer Horizon y We (rhaglen newydd i droseddwyr rhywiol ar y We'n unig). Rydym wedi cynorthwyo i ddatgyflwyno “hen” raglenni i ddynion ag euogfarnau rhywiol yn y gymuned gan wreiddio dulliau newydd ar gyfer y grŵp hwn. Rydym hefyd wedi cynorthwyo i wreiddio Kaizen (rhaglen i ddynion ag euogfarnau rhywiol, treisgar neu am drais rhwng partneriaid rhywiol) yn y carchar.

Mae gwaith wedi dechrau ar weithredu mwy rhyng-asiantaethol rhwng HMPPS a gwasanaeth Gorfodi Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn dilyn gweithredu Atodlen 10 o Ddeddf Mewnfudo 2016. Bydd hyn yn amddiffyn y cyhoedd yn well drwy sicrhau y rhoddir rhagofalon priodol yn eu lle gan yr asiantaethau sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr sy'n wladolion tramor na ellir eu halltudio'n syth.

***Cynnydd Carcharorion gyda Dedfrydau Amhenodedig (ISP)***

Rydym yn goruchwylio ystod o fesurau, drwy'r cynllun gweithredu Carcharu er Amddiffyn y Cyhoedd (IPP) a weithredir ar y cyd rhwng HMPPS a'r Bwrdd Parôl, i helpu Carcharorion gyda Dedfrydau Amhenodedig, ac yn enwedig carcharorion IPP, i ddeall eu risg a gwella eu siawns o gael eu rhyddhau'n llwyddiannus a pharhaol i'r gymuned. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- adolygiadau achos canolog
- rhoi mwy o ffocws ar ymgysylltu gyda, a chefnogi, breichiau gweithredol yr Asiantaeth, yn garchardai a phrawf.

***Cleifion Dan Gyfyngiadau***

Rydym yn parhau i reoli cleifion dan gyfyngiadau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 drwy awdurdod dirprwyedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Is-adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) yn cyflawni asesiadau risg, mewn cydweithrediad â chlinigwyr cyfrifol a goruchwylwyr cymdeithasol, i oleuo penderfyniadau hollbwysig a sensitif am absenoldeb cymunedol, rhyddhau ac adalw cleifion, wedi a heb eu hebrwng.

Yn 2017-18 mae'r MHCS wedi:

- delio ag ôl-waith o benderfyniadau gwaith achos
- cyfrannu at yr adolygiad annibynnol o'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- parhau i weithio'n agos â'r HMPPS a chydweithwyr yn y GIG i geisio gwneud y broses o drosglwyddo carcharorion i ysbytai diogel yn gynt a mwy effeithlon
- parhau i ddarparu ei raglen welliannau

***Adalw a Pharôl***

Rydym yn parhau i redeg system effeithlon o ddiddymu trwyddedau lle mae angen gwneud hynny i amddiffyn y cyhoedd. Rydym wedi briffio'r carchardai a'r gwasanaeth prawf yng Nghymru a Lloegr ac wedi cynhyrchu canllawiau i sicrhau bod troseddwyr ond yn cael eu galw'n ôl lle bo angen gwneud hynny i amddiffyn y cyhoedd a'u bod yn aros yn y carchar dim ond am gyn hired ag y bo angen i amddiffyn y cyhoedd.

- Yn 2017, arhosodd nifer yr achosion o adalw i'r carchar yn eithaf tebyg i 2016 gyda dim ond cynnydd bach iawn o tua 1.6%. Mae'r cynnydd bach hwn i'w briodoli'n bennaf i achosion adalw o dan y Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr (ORA) a gynyddodd o tua 13% o 7,818 i 8,825. Roedd nifer yr achosion o adalw troseddwyr a ddedfrydwyd i 12 mis neu fwy 5% i lawr, o 13,741 yn 2016 i 13,089 yn 2017. Roedd tua 43% o'r holl achosion adalw yn 2017 yn ymwneud â throseddu pellach.
- Aeth nifer yr achosion o adalw merched-droseddwyr i fyny o 20% yn 2017 o'i gymharu â 2016. Mae'r nifer yma wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers 2015. Mae merched yn fwy tebygol o dderbyn dedfrydau tymor byr gan gynyddu faint o ferched-droseddwyr sydd wedi eu galw'n ôl ers gweithredu deddf ORA yn 2015.
- Aeth nifer yr achosion o adalw troseddwyr IPP i fyny o 25 yn 2017 o'i gymharu â 2016. Eglurir y cynnydd yn bennaf gan y nifer gynyddol o droseddwyr IPP a ryddheir gan y Bwrdd Parôl ac a reolir yn y gymuned yn y blynyddoedd diwethaf.
- Rydym yn parhau i weithio'n agos â'r Bwrdd Parôl a chefnogi ei waith er mwyn lleihau ei ôl-waith.

## Rheoli Troseddwyr Dan Glo (Carchardai Cyhoeddus a Phreifat)

Yn y carchar, ein rôl yw sicrhau bod carchardai – p'un ai y rheolir hwynt gan y sector cyhoeddus neu breifat – yn darparu gorchmynion dan glo'r llysoedd. Gweithiwn i ddarparu amgylchedd diogel, di-risg a gweddus – sy'n hanfodol i greu diwylliant cefnogol sy'n hyrwyddo adsefydlu ac yn cymell a galluogi carcharorion i newid eu bywydau er gwell. Mae lleihad sylweddol wedi bod mewn marwolaethau hunan-fwriad, gyda 69 o farwolaethau hunan-fwriad yn 2017-18 o'i gymharu â 115 y flwyddyn gynt. Mae'r lefel hanesyddol isel o garcharorion yn dianc hefyd yn parhau.

Rydym yn parhau i weithredu’r model OMiC – gan gyflwyno rôl newydd o weithiwr allweddol a gwella’r ffordd y rheolwn achosion i gynorthwyo unigolion tuag at adsefydlu. Gwelsom gynnydd sylweddol mewn staffio gyda lefelau uchel o recriwtio dros y cyfnod.

Mae 2017-18 wedi parhau i fod yn gyfnod heriol gyda thrafferthion gweithredol parhaus. Mae ymosodiadau wedi cynyddu i 29,485 (cynnydd o 13%) yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017. Aeth ymosodiadau difrifol i fyny o 10% dros yr un cyfnod, i 3,856. Aeth ymosodiadau ar staff i fyny o 23% i 8,429.

Cafwyd rhai arolygiadau pwysig gan HMIP dros y cyfnod hwn, gan gynnwys yn CEM Lerpwl a Wormwood Scrubs, a gwelsom hefyd y defnydd cyntaf yn cael ei wneud o’r broses Hysbysu Brys yn CEM Nottingham.

Yn Ionawr 2018 cafodd Carillion plc ei ddiddymu. Cafodd ei is-gwmni, Carillion (AMBS) Limited, oedd yn gyfrifol am gontractau rheoli cyfleusterau ar gyfer 52 o garchardai yn ne Lloegr, hefyd ei ddiddymu. I sicrhau parhad y gwasanaeth, trefnwyd bod Carillion (AMBS) Limited yn parhau i ddarparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau am sbel tra bod y MoJ yn rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith. Ym mis Chwefror, daeth un o gwmnïau’r llywodraeth, Gov Facility Services Limited, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i’r 52 o garchardai. Llwyddwyd i drosglwyddo cyfrifoldebau'n effeithiol a tharfu cyn lleied â phosib ar wasanaethau yn y carchardai hyn.

Mae tîm Rheoli Gwasanaethau Cenedlaethol cryfach gan HMPPS bellach yn rheoli darpariaeth lefel gwasanaeth y cytundeb rhwng y MoJ / HMPPS a Gov Facility Services Limited ochr yn ochr â'r contractau sy’n parhau gyda chwmni Amey Community Care Ltd a Mitie Care a Custody Ltd. Y nod yw gwella perfformiad a sicrhau bod gwasanaethau rheoli a chynnal cyfleusterau’r carchardai’n cwrdd â’r safonau disgwyliedig, gan gynnwys diogelwch ac ymatebolrwydd.

**Diogelwch a Gwedduster**
Mae lleihau trais, hunan-niwed a marwolaethau hunan-fwriad yn bwysig i bob carchar. Mae pob marwolaeth dan glo’n drasiedi a gweithiwn yn galed i ddysgu gwersi bob tro.

Mae carchardai’n cadw nifer anghymesur o bobl sy’n cyflwyno risg uchel o hunanladdiad a hunan-niwed, rhywbeth sy’n gallu gwaethygu yn y carchar oherwydd teimlo’n ddiobaith ac ynysig ac o ganlyniad i golli perthnasoedd cefnogol.

Mae tîm diogelwch canolog yn ei le i gynnig arweiniad, cyngor ac i rannu arferion gorau ymhlith llywodraethwyr a staff. Mae timau diogelwch rhanbarthol, sy’n atebol i 17 cyfarwyddwr grŵp carchar ac wedi’u cydgysylltu gan dîm Diogelwch HMPPS / MoJ, yn gweithio’n uniongyrchol â’r carchardai.

Yn 2017-18 cynhaliwyd ystod eang o weithgareddau diogelwch gan gynnwys:

- Buddsoddi gwariant ychwanegol fydd yn trosi’n werth £100 miliwn o staff ychwanegol i wella diogelwch, drwy weithredu’r model OMiC newydd a gwneud gwelliannau i waith chwilio a chasglu gwybodaeth.

- Cychwyn darparu gweithwyr allweddol mewn 20 o garchardai sy'n golygu y bydd gan fwy o garcharorion gymorth dynodedig wedi'i deilwrio gan swyddog.
- Datblygu gwaith rheoli achosion gwell, gan gynnwys system rheoli achosion – y Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd – i reoli carcharorion treisgar.
- Sicrhau cynnydd net o 3,086 o swyddogion carchar FTE rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2018. Bydd recriwtio parhaus yn parhau i sicrhau bod lefelau staffio digonol er mwyn gallu cyflwyno'r gwaith OMiC yn llwyddiannus.
- Cyflwyno mentoriaid a chynghorwyr recriwtio mewn carchardai a darparu pecyn cadw staff i bob llywodraethwr yn ogystal â thargedu ymgyrchoedd recriwtio at y carchardai hynny sydd fwyaf angen recriwtio arnynt.
- Sefydlu Tasglu Cyffuriau fydd yn gweithio i gefnogi'r holl garchardai, ond gyda mwy o gymorth i rai sy'n wynebu'r her fwyaf. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid iechyd, gan fabwysiadu'r tair elfen bwysig yn strategaeth gyffuriau'r llywodraeth ond eu cymhwyso i garchardai. Yr elfennau hyn yw cyfyngu ar gyflenwi, lleihau'r galw a hybu adferiad iechyd.
- Ymgorffori'r Ymyriad Pum Munud (FMI) a'r hyfforddiant Camera Fideo Arwisg (BWVC) o fewn cwricwlwm craidd yr hyfforddiant i swyddogion newydd a'r hyfforddiant i weithwyr allweddol. Mae'r dull FMI yn annog swyddogion carchar i adnabod bod sgyrsiau bob dydd gyda throseddwyr yn gyfle posib i'w hadsefydlu.
- Diwygio'r hyfforddiant rhagarweiniol ar hunan-laddiad a lleihau hunan-niwed, gyda thargedau wedi'u cytuno â phob llywodraethwr. Ers dechrau Ebrill 2017, mae dros 14,300 o staff newydd a phresennol ar draws yr ystad wedi cwblhau o leiaf un o'r chwe modiwl hyfforddiant.
- Gweithio ar fframwaith diogelwch carchardai newydd gyda ffocws ar gael y pethau sylfaenol yn iawn, drwy wella amodau ffisegol, cwrdd ag anghenion carcharorion, parhau i ddatblygu partneriaethau ystyrlon a sicrhau bod prosesau gweithdrefnol gyfiawn yn eu lle. Cefnogir y fframwaith Diogelwch Carchardai drwy barhau i flaenoriaethu recriwtio, cadw a datblygu ein staff gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn 2018-19.
- Parhau i weithio gyda darparwyr gwasanaethau teuluol i helpu carcharorion i gryfhau eu cysylltiadau â'u teuluoedd a phartneriaid, fel un ffordd o atal aildroseddu a lleihau'r siawns bod troseddu'n pontio o un genhedlaeth i'r llall.
- Penodi Dirprwy Gyfarwyddwr gweithredol profiadol ar gyfer Diogelwch Carchardai a fu'n cadw trosolwg ar y gwaith o gyflwyno fframwaith newydd gyda ffocws cryfach ar gangiau, dyledion, diwylliant adsefydlu a phrosesau rheoli risg ar gyfer carcharorion agored i niwed a threisgar.
- Darparu taflenni hunan-gymorth i garcharorion ar wahanol bynciau – a'u hymgorffori mewn llwyfannau digidol lle mae gan garchardai TG yn y celloedd.

Cyhoeddir ystadegau ar ddiogelwch yn y carchar yn chwarterol yn:
http://www.gov.uk/government/collections/safety-in-custody-statistics

**Diogelwch, Trefn a Gwrthderfysgaeth**

Mae cyfarwyddiaeth Ddiogelwch, Trefn a Gwrthderfysgaeth (SOCT) yn ei lle gennym i gefnogi ein cenhadaeth o atal dioddefwyr drwy newid bywydau. Gwnawn hyn drwy greu'r amodau ar gyfer sylfaen gadarn, sefydlog a diogel i adeiladu cyfundrefnau, perthnasoedd ac adsefydlu gweddus i bawb arni.

Rydym wedi cyflawni ystod eang o weithgareddau diogelwch yn 2017-18 i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf cymhleth. Er enghraifft:

- ymestyn y contract ar gyfer ein trefniadau profion cyffuriau presennol i barhau i gefnogi carchardai. Byddwn yn ystyried sut y byddwn yn profi am gyffuriau yn y dyfodol fel rhan o Dasglu Cyffuriau HMPPS.
- Darparu'r genhedlaeth nesaf o atebion technolegol i ateb bygythiadau allweddol mewn pum carchar yn 2017-18, a pharhau i weithio ar draws llywodraeth ac yn rhyngwladol i greu'r atebion diweddaraf.
- Codi ymwybyddiaeth o droseddu yn y carchar gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy ddiwrnod dysgu cenedlaethol hynod lwyddiannus ar droseddu yn y carchar i gydweithwyr ar draws y System Cyfiawnder Troseddol.
- Cafwyd nifer o erlyniadau llwyddiannus mewn achosion ymosod o dan Adran 24 Deddf yn erbyn y Person 1861 drwy weithio'n well mewn partneriaeth â'r CPS.
- Datblygu offeryn asesu categoreiddio diwygiedig, gan gynnwys ateb digidol i gael gafael ar ystod ehangach o wybodaeth gan wahanol asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Bydd cyflwyno'r offeryn yn genedlaethol yn dibynnu ar ganlyniadau cynllun peilot cyfnodol a dadansoddiad o'r effaith yn ystod gwanwyn a haf 2018.
- Treialu a chychwyn cyflwyno technoleg newydd er mwyn gallu cwestiynu unrhyw ddyfeisiau symudol a atafaelir yn lleol. Yn y pen draw bydd ar gael mewn tua 30 o garchardai. Ar y cyd â hyn, rydym wedi adolygu ac wrthi'n diweddaru Cyfarwyddyd y Gwasanaeth Carchardai sy'n trafod atafaelu ac archwilio ffonau symudol, i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r model newydd hwn.
- Diwygio'r model gweithredu ar gyfer yr uned Risg Diogelwch. Mae'r uned wedi datblygu offeryn asesu agored i niwed sydd wedi helpu nifer o garchardai i adnabod ac asesu eu risgiau diogelwch ffisegol a gweithdrefnol. Rydym wedi ehangu'r cymorth hwn i'r NPS i sicrhau bod yr ystad HMPPS gyfan yn cael ei hasesu, ac wedi datblygu fframwaith i adnabod a blaenoriaethu risgiau diogelwch yn y dyfodol fel bo'r sefydliad yn wydn i fygythiadau newydd.
- Dylunio model gweithredu a strategaeth newydd i gydgysylltu gwaith pump o unedau arbenigol newydd fydd yn tanseilio a tharfu ar droseddwyr cyfundrefnol sy'n troseddu yn y carchar ac ar drwydded. Mae'r timau hyn yn eu lle ar draws Cymru a Lloegr bellach.
- Creu strategaeth lygredd gynhwysfawr newydd i gwmpasu amcanion Amddiffyn, Atal, Erlid a Pharatoi a dylunio model gweithredu newydd ar ôl casglu tystiolaeth ac arfarnu'r model presennol.

- Sefydlu'r Uned Ymchwiliadau Digidol gyda staff arbenigol yn canolbwyntio ar y gwaith cyfreithlon o ecsbloetio data cyfathrebu ffonau symudol, ymchwil rhyngrwyd a chryfhau ein partneriaeth â Crimestoppers.
- Gweithredu'r Uned Eithafiaeth Ar y Cyd newydd a datblygu strategaeth newydd i ddelio ag eithafiaeth mewn carchardai. Mae'n cynnwys creu rhwydwaith o arbenigwyr gwrthderfysgaeth, yr hyfforddiant diweddaraf i 13,000 o staff carchardai ar herio eithafiaeth, fetio caplaniaid carchardai'n fwy manwl a phrosesau gwell i dynnu llenyddiaeth eithafol allan o garchardai.
- Gweithredu cynhyrchion tactegol cyson ar gyfer carchardai a phrawf, i oleuo rheolaeth effeithiol o fygythiadau allweddol yn y gymuned ac yn y carchardai, drwy adnabod gweithgareddau troseddol a gyflawnir gan unigolion a rhwydweithiau.
- Cyflwyno asesiadau tactegol lleol i sefydliadau fel bod staff lleol yn gallu adnabod bygythiadau penodol i'w carchardai'n well. Yn ei dro mae hyn yn bwydo i'r asesiadau gwybodaeth rhanbarthol er mwyn gallu dyrannu adnoddau'n effeithiol, drwy'r prosesau tasglu rhanbarthol sydd yn eu lle ar draws pob ardal, mewn partneriaeth ag asiantaethau partner allweddol.
- Parhau i esblygu'r fframwaith tasglu cenedlaethol. Mae'r fframwaith yn cyfeirio'r broses o ddyrannu adnoddau ar gyfer bygythiadau gweithredol a strategol sylweddol gan oleuo ymateb yr Asiantaeth i nifer o broblemau, gan gynnwys sylweddau seicoactif a rhwydweithiau sy'n cyflenwi eitemau anghyfreithlon drwy drôns.
- Recriwtio staff i'r timau rhanbarthol a chenedlaethol yn yr Uned Wybodaeth Genedlaethol, cefnogi'r gwaith o ddarparu prosesau a chynhyrchion newydd ar draws Cymru a Lloegr i gefnogi gweithgareddau gweithredol a datblygu polisi.

**Capasiti mewn Carchardai**
Rhaid i ni sicrhau bod gennym ddigon o lefydd i ddal pobl a ddedfrydir i garchar a bod ein hystad wedi'i threfnu mewn ffordd sy'n cyfateb i nodweddion y boblogaeth. Roedd ail hanner 2017 yn arbennig o heriol gyda chynnydd sylweddol ac annisgwyl yn y boblogaeth, ochr yn ochr â cholli llety oherwydd digwyddiadau. Cafodd y sefyllfa ei rheoli'n effeithiol drwy ddefnyddio llety segur, fel yn CEM Bedford; drwy orlenwi, fel cam wrth gefn, yn y sector cyhoeddus a phreifat; a thrwy ohirio rhai prosiectau cynnal a chadw. Er bod y galw wedi lleihau hyd yma yn 2018, mae'r duedd sylfaenol yn parhau i fod yn un o gynnydd.

Yn 2017-18, drwy'r Rhaglen Trawsnewid yr Ystad Garchardai (PETP), cafodd y pethau isod eu cyflawni. Mae hyn yn gam mawr ymlaen tuag at ddarparu hyd at 10,000 o lefydd carchar gweddus i wella adsefydlu a chreu amgylchedd diogel a di-risg i staff a throseddwyr fel ei gilydd:

- yn Hydref 2017 cyhoeddwyd gweledigaeth y rhaglen PETP o symleiddio trefniadaeth yr ystad garchardai'n raddol erbyn 2021 yn dair prif swyddogaeth: derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu. Mae cynllunio tuag at gyflawni'r weledigaeth hon,

gyda chyfnod o newid graddol rhwng nawr a 2021, eisoes yn digwydd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.

- mae modelau gweithredu ar gyfer y tri math craidd o garchar (derbyn, hyfforddi ac ailsefydlu) wedi eu datblygu, eu cyhoeddi ac yn cael eu mabwysiadu gan garchardai
- daeth CEM Durham yn garchar derbyn a daeth CEM Holme House yn garchar hyfforddi fel rhan o symleiddio’r ystad yn unol â’r weledigaeth
- dechreuwyd ar broses sylweddol o ehangu cyfleusterau fideo mewn carchardai drwy gyflwyno canolfannau fideo-gynadledda (VCC) fel rhan o’r agenda diwygio carchardai ehangach. Mae canolfannau VCC newydd eisoes ar waith yn CEM Durham a CEM Wandsworth gan gysylltu’r carchardai i’r llysoedd
- cafwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y cyn-garchar a chyn-YOI yn Glen Parva, CEM Wellingborough a thir wrth ymyl CEM Full Sutton. Dyfarnwyd cytundebau partneriaid prosiect ar gyfer y gwaith dylunio manwl yn Glen Parva a Wellingbrough.
- dechreuwyd weithio ar floc llety newydd yn CEM Stocken, i greu 206 o lefydd carchar gweddus ac addas
- dechreuwyd ar y broses o werthu cyn-safle CEM Holloway. Disgwylir ei gwblhau dros yr haf
- dechreuwyd ailwampio’r Verne (IRC) yn garchar dynion, gan ddisgwyl iddo agor nes ymlaen eleni

**Gwaith mewn Carchardai ac Addysg**
Mae helpu carcharorion i wella eu dysgu a’u sgiliau er mwyn gallu dod o hyd i waith, a chadw’r gwaith hwnnw, ar ôl gadael y carchar, yn hanfodol i leihau aildroseddu.

Mae nifer y carcharorion sy’n gweithio ar unrhyw adeg mewn diwydiannau carchardai (swyddi carchar a ddarperir gan gyflogwyr preifat, anghenion cyflenwi mewnol HMPPS neu adrannau eraill y llywodraeth) wedi cynyddu. Awgryma’r data fod cynnydd o 25% wedi bod yn nifer y carcharorion a fu’n gweithio bob dydd mewn carchardai cyhoeddus rhwng 2010-11 a 2016-17.

Dengys y data ein bod wedi symud o 7,500 yn gweithio pob dydd ar gyfartaledd mewn Diwydiannau Carchardai Cyhoeddus, i tua 9,400. Mae hyn yn cyfateb i tua 14% o’r boblogaeth. Dylid hefyd nodi bod llawer mwy'n cyfrannu at weithgareddau a hyfforddiant drwy weithio mewn ceginau carchardai neu gyflawni hyfforddiant galwedigaethol wedi’i ddarparu gan addysg carchardai, na chyfrifir hwynt yn y ffigurau hyn.

Os cynhwysir carchardai preifat, mae’r nifer yn cynyddu i 11,200 o garcharorion ar gyfartaledd sy’n gweithio’n ddyddiol mewn diwydiannau carchardai. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- gwneud drysau celloedd, dillad gwelyau a dillad i’r farchnad HMPPS fewnol
- gwasanaethau tŷ golchi

- gweithio i fusnesau masnachol yn cynhyrchu nwyddau, cefnogi cadwyn gyflenwi neu’n cynnal busnes yn y carchar
- gwneud gwaith i adrannau eraill y llywodraeth fel cynhyrchu rhwydi *camouflage* i’r Weinyddiaeth Amddiffyn

Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gyflogaeth ac Addysg y MoJ, rydym wedi lansio Rhwydwaith Dyfodol Newydd (NFN) i ddisodli ONE3ONE Solutions, gyda ffocws newydd ar gryfhau ein cysylltiadau â chyflogwyr a chysylltu gwaith a wneir yn y carchar i gyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau ar draws Cymru a Lloegr. Bydd y NFN:

- yn targedu cyflogwyr mawr a bach i hyrwyddo manteision cyflogi cyn-garcharorion ar ôl eu rhyddhau
- yn cryfhau partneriaethau rhwng cyflogwyr a charchardai, gan gysylltu’r gwaith a wneir gan garcharorion dan glo i swyddi ar ôl eu rhyddhau
- yn ôl-fwydo negeseuon gan gyflogwyr am ba hyfforddiant y bydd ei angen ar garcharorion

Yn 2017-18 rhoesom gymorth ac ymyriadau ôl-arolwg yn eu lle i sicrhau bod gan lywodraethwyr, a’u darparwyr addysg, gynlluniau gwella perfformiad effeithiol yn y carchardai hynny sy’n destun Hysbysu Brys a / neu sy’n derbyn dyfarniad anfoddhaol, neu angen gwella, gan Ofsted.

Drwy weithio mewn partneriaeth â’r Sefydliad Addysg a Hyfforddiant, rydym wedi creu cwrs i lywodraethwyr ac uwch-arweinwyr i’w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd o reoli’r gwaith o ddarparu addysg mewn carchardai.

# Meysydd Blaenoriaeth Eraill

**Merched-Droseddwyr – Merched yn y Gymuned**
Yn 2017-18 rydym wedi parhau i ennill dealltwriaeth well o gymhlethdod anghenion merched a sut y gallai hyn gyfrannu at eu troseddu a'u hadsefydlu. Gwyddom fod merched yn fwy tebygol na dynion o gwblhau eu gorchymyn cymunedol (75% o'i gymharu â 71%) a bod y gyfradd aildroseddu gan ferched yn is nag ar gyfer dynion (22.9% o'i gymharu â 29.7%).

Mae tystiolaeth hefyd fod gweithio gyda merched mewn ffordd rywedd-benodol sy'n deall trawma yn fwy tebygol o roi canlyniadau da na'u rheoli mewn ffordd rhywedd-niwtral.

Rheolir y rhan fwyaf o ferched-droseddwyr gan y cwmnïau CRC ac mae'r niferoedd wedi aros yn weddol gyson; gyda thua 26,000 o ferched, ar gyfartaledd, dan oruchwyliaeth yn y gymuned ar unrhyw adeg. Mae'r NPS wedi gweithio â'r cwmnïau CRC i ystyried sut i wella'r ddarpariaeth i ferched drwy orchmynion cymunedol a thrwyddedau. I gefnogi'r gwaith hwn mae'r NPS:

- yn cwrdd yn rheolaidd ag arweinwyr strategol ar ferched-droseddwyr ym mhob cwmni CRC (yn unol ag argymhellion HMIP) i adnabod a rhannu arferion gorau
- wedi datblygu Fforwm CRC / Awdurdod i ddatblygu gweithio'n gydweithredol
- wedi cyhoeddi cylchlythyr i rannu gwybodaeth ac arferion da
- wedi gweithio i sicrhau bod yr holl wasanaethau merched wedi eu cynnwys ar y cerdyn prisiau fel bod gymaint o opsiynau â phosib ar gael i ferched

I gyrchu at ein nod o leihau faint o ferched sy'n cael dedfrydau byr o garchar mewn achosion priodol, rydym wedi cyflawni adolygiad o adroddiadau cyn-dedfrydu (PSR) ar ferched. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i awduron i wella rhai pethau'n syth a byddwn yn datblygu offeryn asesu rhywedd-benodol a thempled adroddiad rhywedd-benodol i wella ansawdd yr adroddiadau PSR ar ferched.

Rydym wedi dechrau cyflwyno'r Offeryn Cynigion Effeithiol (yr offeryn SMART yn flaenorol) i helpu awduron PSR i gynnig dedfrydau cymunedol cadarn a phwrpasol i'r unigolyn sy'n cwrdd ag anghenion a risgiau penodol merched. Ar sail data cynnar ar ddefnyddio'r Offeryn hwn, rydym wedi gallu gweld i ba raddau y mae opsiynau penodol yn cael eu cynnig ac, yn y tymor hir, gallwn dargedu unrhyw gamau cywiro sydd angen eu cymryd ac adnabod unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth.

Fel bod gan ddedfrydwyr fwy o hyder mewn gorchmynion cymunedol i ferched, rydym:

- wedi sicrhau y caiff materion perthnasol i ferched eu cynnwys wrth gyfathrebu'n rheolaidd â dedfrydwyr am y gwasanaethau a ddarperir gan y NPS a'r cwmnïau CRC
- wedi ystyried adborth o gyfweliadau â barnwyr ac ynadon wrth ddatblygu offeryn i gefnogi awduron PSR pan fyddant yn paratoi adroddiadau PSR ar ferched.

Bydd y fersiwn derfynol yn gofyn yn benodol i awduron adroddiadau wneud cysylltiadau gwell rhwng profiad merch o gam-drin neu drawma, a'i throseddu

- wedi datblygu cynigion i ehangu ar yr ystad hosteli prawf (AP) ar gyfer merched
- wedi rhannu ein gwerthusiadau, sy'n dangos canlyniadau addawol, o ddulliau system-gyfan o reoli merched yn y gymuned
- wedi cyhoeddi canllawiau seiliedig ar dystiolaeth i staff sy'n gyfrifol am reoli merched-droseddwyr yn y gymuned
- wedi ehangu'r defnydd a wneir o lety'r Gwasanaeth Cymorth Llety Mechnïaeth i'w ddefnyddio i ddarparu llety i ferched (a dynion) sydd angen eu goruchwylio ar ôl eu rhyddhau
- wedi adolygu'r Rhaglen Ymwybyddiaeth o Ferched i Staff (WASP)
- wedi hyfforddi nifer o hyfforddwyr y NPS mewn dulliau deall trawma – ac yn ystyried sut y gallwn ei gyflwyno orau ar draws y NPS a'r cwmnïau CRC i hyrwyddo ymgysylltu effeithiol â merched-droseddwyr

Mae'r gwaith o ddatblygu cofrestr broffesiynol a fframwaith rheoleiddio'n parhau ac yn waith cymhleth oherwydd mae'n effeithio ar draws HMPPS a'r cwmnïau CRC. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar adolygu a sicrhau y cydymffurfir â pholisïau'n ymwneud ag awdurdod i ymarfer ac allgau. Rydym hefyd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu i sicrhau bod y gwaith yn cynnwys mewnbwn a throsolwg gan raglen Brawf y MOJ a Diwygio Gweithlu HMPPS.

**Merched-Droseddwyr – Merched Dan Glo**

Yn 2017-18 mae'r Ystad Ferched wedi parhau i ddatblygu a chadw ffocws clir ar anghenion penodol a neilltuol merched-droseddwyr yn y carchar a'r gymuned, a hefyd ar wella'r trefniadau fel bod merched yn y carchar yn gallu aros mewn cysylltiad yn well â'u plant i gefnogi adsefydlu a gofal teuluol hirdymor mwy effeithiol.

Prif ffocws y gwaith a wnaed yn 2017-18 oedd diogelwch. Ym mis Mawrth 2017 cyhoeddodd y Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau Dan Glo (IAP) adroddiad yn ymchwilio i farwolaethau hunan-fwriad 12 o ferched yn y carchar yn 2016. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) fwletin yn seiliedig ar adolygu 19 o'i ymchwiliadau i farwolaethau merched dan glo rhwng 2013 a 2016.

Roedd adroddiad yr IAP yn cynnwys cyfres o argymhellion seiliedig ar garchar a chymuned i atal hunanladdiad a hunan-niwed a chadw merched yn ddiogel. Yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl, yn enwedig creu amgylchedd mwy rhywedd-benodol gyda mwy o ddealltwriaeth o drawma mewn carchardai merched, roedd yr argymhellion hefyd yn canolbwyntio ar drosglwyddo gwybodaeth am ferched mewn perygl yn well, hyrwyddo mwy o gyswllt teuluol a mewnbwn gan deuluoedd, lle'r oedd yn briodol a diogel gwneud hynny, a pharatoi merched ar gyfer eu rhyddhau.

Roedd bwletin y PPO yn nodi gwersi o dan y themâu o adnabod, monitro a gweithredu ar risg; rôl iechyd meddwl; bwlio; y broses Asesu, Gofal yn y Carchardai a Gwaith Tîm;

ac ymateb mewn argyfwng. Cynhaliwyd cyfarfodydd â Chadeirydd yr IPA a'r Dirprwy PPO i ddiweddaru ar y cynnydd da sydd wedi'i wneud gyda'r argymhellion hyn.

Rydym wedi sefydlu Uwch-Gyfarfod Diogelwch chwemisol a fynychir gan uwch-gynrychiolwyr o'r Asiantaeth, y MoJ, NHS England (NHSE), Public Health England (PHE), yr IPA, y PPO a'r sectorau academaidd a gwirfoddol. Cynhaliwyd dau uwch-gyfarfod yn 2017-18 lle cafodd materion allweddol eu trafod a chyngor arbenigol ei roi ar fynd i'r afael â nhw.

Mae NHSE wedi cynnal cyfres o uwch-gyfarfodydd rhanbarthol sy'n dod â llywodraethwyr, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd carchardai at ei gilydd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi canolbwyntio ar wella cyfathrebu a gwasanaethau. Mae'r Asiantaeth, ynghyd â phartïon perthnasol eraill, wedi gweithio gyda Thîm Iechyd a Chyfiawnder PHE i greu cyfres o safonau rhywedd-benodol seiliedig ar dystiolaeth i wella iechyd a lles merched yn y carchar. Cyhoeddwyd y safonau ym mis Mawrth 2018.

Mae cydweithio wedi creu ymateb traws-ystad a chynlluniedig i roi'r gorau i ysmygu. Fel grŵp, llwyddodd yr Ystad Ferched i ddod yn ddi-fwg ym mis Medi 2017.

Mae gwaith da wedi'i wneud gyda'r meysydd gwaith allweddol a gafodd eu hadnabod yn 2016-17. Mae Deall Trawma'n Well wedi'i brif-ffrydio a'r rhan fwyaf o'r staff wedi eu hyfforddi; gyda merched yn darparu'r ymyriad Gwella o Drawma mewn nifer gynyddol o sefydliadau. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid i adnabod gwasanaethau a chymorth gwell i ferched yn ein gofal a gawsant eu fictimeiddio'n blant ac oedolion. Bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig yn 2018-19.

**Troseddwyr sy'n Wladolion Tramor**
Mae troseddwyr sy'n Wladolion Tramor (FNO) yn cyfrif am 11% o'r boblogaeth garchardai. Bydd llawer yn cael eu hanfon o'r DU ar ddiwedd eu dedfryd. Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am anfon FNO o'r wlad.

Cefnogwn y gwaith hwn drwy ddarparu llefydd carchar dynodedig i droseddwyr FNO yn y ddau garchar pwrpasol ar gyfer troseddwyr FNO ac mewn carchardai hyb lle mae staff mewnfudo ar gael i weithio'n agos â chydweithwyr gwasanaeth carchardai. Rydym wedi cytuno i ddarparu trydydd carchar i droseddwyr FNO'n unig yn 2019.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio'n agos â'r MoJ, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad a'r Adran Datblygu Rhyngwladol i gefnogi'r gwaith ehangach o ddychwelyd troseddwyr i'w gwledydd eu hunain.

Y prif offeryn ar gyfer anfon troseddwyr FNO o'r wlad yw'r Cynllun Dychwelyd yn Gynnar (ERS) a fu'n gyfrifol am anfon 2,077 o'r wlad yn 2017-18. Cefnogwyd y broses ymhellach drwy drosglwyddo 108 o droseddwyr FNO i garchardai yn eu gwledydd eu hunain o dan drefniadau trosglwyddo carcharorion. Mae'r trefniadau hyn yn ategu cynllun yr ERS drwy drosglwyddo carcharorion mwy hirdymor a fyddai fel arall yn aros yn y DU am gryn amser.

**Cyfiawnder Ieuenctid**
Ar 1 Medi 2017, cafodd y cyfrifoldeb o reoli'r Ystad Pobl Ifanc o ddydd i ddydd ei drosglwyddo o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) i HMPPS. Ym mis Medi 2017 sefydlwyd Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (YCS) i ddarparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus; i gadw trosolwg ar, a monitro gwasanaethau gan y sector preifat ac awdurdodau lleol; ac i leoli plant yn briodol.

Ein hymrwymiad i bobl ifanc yn ein gofal yw y rhoddwn y cyfle gorau iddynt newid eu bywydau drwy ddarparu amgylchedd diogel, gweddus a di-risg gyda ffocws ar addysg a datblygiad personol sy'n eu grymuso i newid eu bywydau er gwell.

Gweithiwn gyda rhanddeiliaid cyfiawnder ieuenctid i helpu pobl ifanc i fyw bywydau cadarnhaol a di-drosedd. Ein huchelgais yw darparu lle diogel i bobl ifanc gael byw, ac i staff gael gweithio, sy'n rhydd o drais a niwed fel bod pawb yn gallu ffynnu mewn amgylchedd cadarnhaol. Ein blaenoriaethau cynnar oedd sefydlogi'r sefydliad a'i integreiddio o fewn HMPPS. Mae'r strwythur rheoli bellach yn ei le a'r gwaith o recriwtio i swyddi yn y Pencadlys, ac i rolau gweithredol, ar y gweill.

Ers sefydlu'r YCS, rydym wedi cyflawni'r canlynol:

- wedi sicrhau y gwrandewir ar blant a bod darparwyr yn cael eu dal i gyfrif, drwy weithredu fframwaith ar gyfer monitro perfformiad a chynlluniau rheoli contractau trylwyr
- wedi rhoi sicrwydd bod gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu darparu drwy sefydlu strwythurau llywodraethu ac adrodd tryloyw i gadw trosolwg ar ein gwaith monitro
- wedi cymryd camau i dargedu lefelau trais a hunan-niwed drwy gyflwyno strategaeth rheoli ymddygiad a rhaglen o brosiectau seilwaith, gan gynnwys yr Uned Cymorth Mwy yn HMYOI Feltham.
- wedi datblygu trefniadau i greu amgylcheddau therapiwtig i blant a phobl ifanc gael byw ynddynt drwy weithio mewn partneriaeth â NHSE i symud y prosiect SECURE STAIRS yn ei flaen (prosiect i ddatblygu a gweithredu fframwaith o ofal integredig ar gyfer yr Ystad Ddiogel ar gyfer Plant a Phobl Ifanc)
- wedi ymgysylltu â llywodraethwyr a darparwyr addysg i oleuo cynlluniau fydd yn gwella'r ddarpariaeth bresennol a llywio darpariaeth y dyfodol
- wedi ymateb yn brydlon a phendant i argymhellion arolwg ar gyfer y safleoedd a weithredwn, gan godi'r sgoriau a dderbyniwn gan arolygwyr annibynnol yn gyson
- wedi datblygu cynllun gweithredu cydraddoldeb i roi sylw i argymhellion Adroddiad Lammy
- wedi cyflwyno ystod ehangach o sgiliau arbenigol ar gyfer staff, gan gynnwys swydd-ddisgrifiadau newydd, timau datrys anghydfod, ymyriadau seicolegol a gradd sylfaen mewn Cyfiawnder Ieuenctid
- wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y MoJ i ddatblygu'r strategaeth Ysgolion Diogel

- wedi gweithredu ar argymhellion y Bwrdd Gwella Carcharu'r Ifanc

## HMPPS yng Nghymru

Sefydlwyd y gyfarwyddiaeth HMPPS yng Nghymru yn 2014-15 oherwydd y gwahaniaethau nodedig a oedd yn codi yn sgil datganoli: yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol; mae'n gyfreithiol ofynnol darparu pob gwasanaeth cyhoeddus yn ddwyieithog, yn Gymraeg a Saesneg; ac mae rhai gwasanaethau'n cael eu hariannu'n wahanol i rai Lloegr.

Nid yw cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli, ond mae cyflawni ein hamcanion cyffredinol o amddiffyn y cyhoedd, lleihau aildroseddu a gyrru gwelliannau mewnol ar draws ein carchardai ac yn y gymuned yn dibynnu'n gryf ar gael perthynas weithio agos â'n partneriaid yng Nghymru, p'un ai'n ddatganoledig neu beidio.

Penodwyd Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS yng Nghymru fel yr uwch-bwynt cyswllt ar gyfer y MoJ yng Nghymru gyda chyfrifoldeb am gydgysylltu gwaith a pherthynas yr adran â Llywodraeth Cymru. Mae gweithio gyda'n gilydd fel hyn wedi cyflwyno cyfleoedd i adnabod a manteisio ar y ffordd wahanol y darperir gwasanaethau yng Nghymru. Er enghraifft, rydym wedi cytuno â gweinidogion i gydweithredu ar lasbrint strategol i dywys ein ffordd o gydweithio. Y man cychwyn yw canolbwyntio ar ferched a phobl ifanc gyda golwg ar ehangu'r dull i ddynion sy'n oedolion wrth wneud cynnydd gyda'r meysydd hyn. Rydym wedi sefydlu dau grŵp allweddol i gynorthwyo gyda'r gwaith:

- daw'r grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru â chydweithwyr gweithredol a pholisi at ei gilydd o Lywodraeth Cymru, y MoJ a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), gan gydweithio i ddarparu'r system gyfiawnder orau bosib i Gymru
- sefydlwyd y grŵp Gweithredu Cyfiawnder yng Nghymru i wella ac integreiddio'r cydweithio rhwng asiantaethau cyfiawnder gweithredol y wlad, gan ddod ag uwch-arweinwyr o HMPPS, GLITEM, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r CPS yng Nghymru at ei gilydd

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd y 'Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol ar gyfer pobl mewn perygl o droseddu yng Nghymru 2018-23', wedi'i ddatblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a HMPPS yng Nghymru ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Mae'n disgrifio sut y bydd sefydliadau yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd i roi cymorth i unrhyw droseddwr sydd ei angen arnynt – ar yr amser iawn, yn y lle iawn ac yn y ffordd iawn – i sicrhau'r canlyniadau gorau nid yn unig i droseddwyr ond i rai sydd mewn perygl o droseddu, a hefyd i'w teuluoedd a'n cymunedau.

Rydym wedi penderfynu gweithredu'r model Rheoli Troseddwyr yn llawn, gan gyflwyno'r model gweithwyr allweddol a'r model rheoli achosion ar yr un pryd ar draws ein holl garchardai. Sefydlwyd strwythur llywodraethu yng Nghymru i sicrhau y rhoddir ymateb traws-gyfarwyddiaeth i'r broses weithredu.

Rydym wedi ymrwymo i wella diogelwch yn ein carchardai. Rydym wedi buddsoddi adnoddau pellach yn ein carchardai lleol i wella'r broses o brofi am gyffuriau. Drwy

weithio'n agos â'n cydweithwyr yn yr heddlu, rydym wedi gweithredu fframwaith adrodd Troseddau yn y Carchar a chyflwyno rôl un pwynt cyswllt ym mhob carchar. Mae CEM Caerdydd yn treialu'r Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd (CSIP) – dull amlasiantaethol o reoli trais mewn ffordd ragweithiol.

Mae peilot Cyd-Reoli Troseddwyr Peryglus a Difrifol Cymru (WISDOM), sy'n ceisio lleihau aildroseddu a'r risg o achosi niwed difrifol drwy ddull amlasiantaethol, bellach ar waith ar draws pum safle peilot a gydleolir, gan ddewis cohortau ar sail proffiliau troseddu'r safleoedd peilot. Mae llawlyfr gweithredol WISDOM wedi'i gadarnhau gan sicrhau dull cyson ar draws Cymru, yn cynnwys gyda defnyddio monitro GPS i gynorthwyo gyda rheoli troseddwyr. Mae gwerthusiad ffurfiol a manwl o WISDOM yn cael ei wneud gan Brifysgol Nottingham.

Dyfeisiwyd y Llwybr Cymru Gyfan ar gyfer Carcharorion sy'n Gyn-filwyr – Cefnogi Cyn-filwyr i Bontio (SToMP) ar y cyd gan bartneriaid cyfiawnder troseddol a thrydydd sector, cyn ei weithredu yn Hydref 2017. Mae'n sicrhau proses traws-Gymru gyson o adnabod a chefnogi'r holl gyn-filwyr sydd mewn carchardai yng Nghymru. Mae SToMP wedi dylunio a chynhyrchu cyfeiriadur traws-Gymru o wasanaethau cymorth i gyn-filwyr ac wedi sicrhau cyllid:

- i gomisiynu ymchwil yn canolbwyntio ar gyn-filwyr a chreu perthnasoedd iach
- i greu rôl swyddog pontio SToMP wedi'i chysylltu i Ganolfan Hyfforddiant Cywiro Milwrol Colchester
- i gynnal cyfres o ddiwrnodau cymunedol ar draws carchardai Cymru i adnabod cyn-filwyr a'u hannog, ynghyd â'u teuluoedd, i fanteisio ar gymorth perthnasol

# Gwasanaethau Corfforaethol a blaenoriaethau craidd eraill

**Rheoli Contractau**

Mae cryn dipyn o wariant HMPPS yn wariant ar gontractau. Yn 2017-18 gwnaed llawer iawn o waith yn ceisio gwella ein prosesau rheoli contractau a datblygu galluoedd y timau. Roedd hyn yn cynnwys:

- parhau â’r rhaglen Trawsnewid Rheoli Contractau (TCM) yn canolbwyntio ar wella’r ffordd y rheolwn ein contractau. Llwyddodd y rhaglen hon i wneud cryn gynnydd, gyda’r timau rheoli contractau’n canolbwyntio ar feysydd gwaith penodol i fonitro gwasanaethau a dadansoddi data’n well a rheoli contractau ar sail persbectif risg. Dim ond dau faes sydd wedi gwella yw cynlluniau rheoli contractau a rheoli ac adrodd risg, i sicrhau bod prosesau’n glir ac yn cael eu dilyn yn iawn, ac i sicrhau cysondeb ym mhob agwedd ar reoli’r 21 contract.
- dechreuodd y gwaith o roi ffocws cryf ar hyfforddiant a datblygu'n hwyr yn 2017 i wella sgiliau, gyda strategaeth hyfforddiant a datblygu i'w lansio yn 2018
- defnyddio ein gwasanaeth adnoddau darparu prosiectau'n effeithiol, fel ein bod wedi gallu sefydlu rhaglenni gwaith newydd i gyflawni ein blaenoriaethau newid. Mae’r rhain yn cynnwys ail-dendro’r contract manwerthu carchardai, ail-dendro’r contract gwisg unffurf, adolygu’r strategaeth gyffuriau, diwygio carcharu’r ifanc, gweithredu argymhellion Adolygiad Lammy ac ail-leoli ein pencadlys.

Un o’n prif gyfrifoldebau rheoli contractau yw rhoi mwy o sylw i ansawdd gwasanaethau’r cwmnïau CRC a chyflawni adolygiadau manwl o feysydd ymarfer penodol, fel y nodwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithgareddau Cydymffurfio Mwy Manwl (BCA) a gyflwynwyd yn ychwanegol at fonitro cydymffurfio o ddydd i ddydd. Mae ffocws y gwaith BCA ar feysydd allweddol yn genedlaethol lle mae angen monitro mwy manwl (er enghraifft: gwaith di-dâl, cyswllt troseddwyr ac arferion gorfodi)
- cyflwyno dangosfwrdd perfformiad CRC newydd sy’n bwrw golwg lefel system dros waith a pherfformiad ein contractau â’r cwmnïau CRC, gydag adroddiadau misol i Fwrdd Darparu’r Cwmnïau CRC. Mae’r dangosfwrdd wedi cefnogi symud at ddull rheoli contractau ‘seiliedig ar risg’ gyda ffocws ar wneud defnydd gwell o ddata a gwybodaeth reoli i droi’r sylw a roddir i reoli contractau at feysydd perfformiad ac ymarfer penodol
- adolygu’r maes ‘risg’ sylweddol cyntaf, sef arferion gorfodi’r cwmnïau CRC (a ddechreuodd yn Rhagfyr 2017). Cafodd yr adolygiad cenedlaethol hwn ei ysgogi gan ddata rheoli contractau, ynghyd â phryderon a godwyd gan y Farnwriaeth ac adolygiadau HMIP, i wella perfformiad gorfodi’r cwmnïau CRC a sicrhau mwy o gysondeb. Mae’r adolygiad yn adrodd i’r Uwch Farnwr Llywyddol bob chwech wythnos gan drafod gwaith lleol gan y cwmnïau a gwaith ar y cyd â’r llysoedd a’r NPS. Mae’r adolygiad yn parhau yn 2018 pryd y disgwylir i’r data misol ddechrau adlewyrchu’r gwelliannau a wnaed yn lleol.

- adolygu'r prosesau cydymffurfio â chontractau i wella effeithlonrwydd. Bydd y prosesau newydd yn lleihau faint o archwiliadau lefel gwasanaeth safonol a gyflawnir lle mae perfformiad yn aros yn uchel am gyfnod, gan ryddhau amser rheolwyr contractau i gyflawni adolygiadau mwy manwl o ansawdd gwasanaethau ac ymrwymiadau contract ehangach

***Grantiau***

Rydym hefyd yn rhoi grantiau i nifer o brosiectau sy'n cyfrannu at ein nodau cyffredinol a blaenoriaethau penodol. Yn 2017-18 dyfarnwyd grantiau i nifer o gyrff gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i gefnogi ein nodau strategol, profi syniadau newydd ac arloesol a datblygu capasiti mewn sefydliadau. Mae'r prosiectau'n cynnwys:

- Samariaid – rhoi cymorth pwysig i garcharorion gyda risg o hunan-niwed ac sy'n ystyried hunanladdiad, a chefnogi gwaith carcharu mwy diogel mewn carchardai
- Cyngor ar Bopeth – rhoi cyngor a chymorth i rai sy'n honni eu bod wedi dioddef camweinyddu cyfiawnder
- Radio yn y Carchar – ffynhonnell wybodaeth bwysig i droseddwyr am y pethau sy'n effeithio arnynt
- Ymddiriedolaeth Koestler – yn annog diddordebau artistig a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o gelfyddyd troseddwyr
- Y Gymdeithas Ymwelwyr Carchardai Genedlaethol – yn cefnogi ymwelwyr carchardai i roi gwasanaeth hanfodol i droseddwyr sydd heb gefnogaeth allanol
- Carcharorion Dramor – sefydliad sy'n helpu i ailsefydlu troseddwyr sy'n dychwelyd i'r DU ar ôl treulio cyfnod dan glo dramor

***Sicrwydd ynghylch y gwasanaethau a ddarparwn***

Yn Ebrill 2017 fe wnaethom greu swyddogaeth sicrwydd mewnol newydd i roi sicrwydd o ansawdd y gwasanaethau carchar a phrawf gan bob darparwr. Mae'r swyddogaeth newydd wedi cwblhau nifer o weithgareddau sicrwydd yn 2017-18:

- gwaith sicrwydd mewn carchardai ar draws Cymru a Lloegr, gan ganolbwyntio ar y blaenoriaethau busnes pwysig o ddiogelwch ac atal risg
- cefnogi mesurau i wella diogelwch a lleihau trais, marwolaethau hunan-fwriad a hunan-niwed. Rydym wedi datblygu archwiliad newydd i asesu cynnydd, gan gynnwys gweithredu argymhellion y PPO ynghylch marwolaethau dan glo
- cwblhau bron i 100 o archwiliadau diogelwch mewnol a datblygu archwiliad diogelwch gwell i'w gyflwyno yn 2018-19 er mwyn cynnal a gwella safonau diogelwch mewn carchardai
- datblygu dull newydd o roi sicrwydd a rheoli risg, gyda ffocws ar ddiogelu plant a phobl ifanc, i'w gyflwyno yn 2018-19

***Iechyd a Gofal Cymdeithasol***

Rydym wedi parhau i gryfhau ac ehangu ein partneriaethau â'n partneriaid iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi cyhoeddi Cytundeb Partneriaeth Cenedlaethol newydd ar

gyfer Gofal Iechyd mewn Carchardai yn Lloegr 2018-2021. Yn y cytundeb newydd, mae'r bartneriaeth deiran wreiddiol rhwng HMPPS, PHE a NHSE wedi cael partneriaid newydd, sef y MoJ a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC). Mae hyn yn nodi sefydlu cydweithrediad a chydgysylltu cryfach fyth rhwng pawb sy'n gallu effeithio ar bolisi, comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn carchardai cyhoeddus a phreifat yn Lloegr.

Gyda'n gilydd rydym wedi adnewyddu a chrisialu ein hymrwymiad i: wella iechyd a lles pobl yn y carchar, a lleihau anghydraddoldeb iechyd; lleihau aildroseddu a chefnogi adsefydlu drwy roi sylw i'r ffactorau iechyd sy'n dylanwadu ar droseddu; a chefnogi mynediad at, a pharhad, y gofal a roddir drwy'r ystad garchardai, cyn carcharu ac ar ôl rhyddhau yn y gymuned. Rydym wedi cydweithio i ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel ar draws yr ystad garchardai, a lle cafwyd problemau fel yn CEM Lerpwl, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i ymateb yn effeithiol.

Mae iechyd meddwl carcharorion, yn enwedig, wedi bod yn destun craffu cyhoeddus a Seneddol. Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) adroddiad ar iechyd meddwl mewn carchardai ac, yn Hydref 2017, cafodd Prif Swyddog Gweithredol HMPPS ac Ysgrifennydd Parhaol y MoJ eu galw gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth. Rydym wedi parhau i gydweithredu'n agos â NHSE a DHSC i gefnogi datblygu cynlluniau'r GIG i ateb y pryderon gwirioneddol am iechyd meddwl rhai pobl a anfonir i'r carchar, a byddwn yn parhau'r ymdrechion hyn ar draws ein gwasanaethau carchar a chymunedol gan ddisgwyl y bydd pobl yn gallu cael gafael ar y gofal iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn.

Rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod dynion a merched yn y carchar yn gallu cael gafael ar ofal a chymorth os oes eu hangen arnynt. Gwelsom gynnydd yn nifer yr asesiadau gofal cymdeithasol a wneir yn y carchar gyda'r dynion a'r merched gydag anghenion cymwys yn cael eu cefnogi gyda'r cyfarpar priodol neu drwy dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth, gan gyfrannu'n sylweddol at fyw'n annibynnol ac adsefydlu i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn y system.

Mae dull profi cysyniad wedi'i ddatblygu ar sut y gall pobl yn y carchar gael mynediad at y Prosiect Gwirionedd. Mae'r Prosiect Gwirioneddol yn rhan o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ac yn gadael i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol rannu eu profiadau mewn amgylchedd cefnogol a chyfrinachol. Mae ein tîm Cam-drin Plant Hanesyddol hefyd wedi cydlynu, neu gyfrannu mewnbwn at ddatganiadau tystion mewn ymateb i 15 o geisiadau ffurfiol am wybodaeth gan yr Ymchwiliad Annibynnol.

**Digidol a Thechnoleg**

Yn 2017-18 daeth ein Tîm Digidol a Thechnoleg yn rhan o gyfarwyddiaeth Technoleg a Digidol Cyfiawnder ar y cyd, yn unol â newidiadau o dan fodel arweinyddiaeth 'drwy wneud' y MoJ. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi parhau i aros yn atebol am ddarparu gwasanaethau digidol a thechnoleg ac wedi helpu i symud portffolio o newidiadau amrywiol ymlaen ar ran yr Asiantaeth.

Mae trefniadau mwy modern, hyblyg, ymatebol ac, yn y pen draw, rhatach wedi disodli'r hen gontractau TG ar gyfer carchardai a'r pencadlys ac yn cael eu cyfuno a'u rheoli fel rhan o fodel gwasanaeth traws-adrannol a mwy cydgysylltiedig.

Mae ein rhaglenni craidd wedi eu moderneiddio a'u symud i'r Cwmwl, gan leihau costau, gwella mynediad at ddata a chodi'r rhaglenni i safon lle gall yr Asiantaeth gymryd meddiant ohonynt a chyflwyno cylchoedd newid technegol cynt i wella gwasanaethau a chefnogi diwygiadau.

Drwy fod yn gallu hunan-reoli ein rhaglenni craidd, gallwn hefyd yn awr drin a thrafod a rhyddhau ein data i wella'r gwasanaethau i'n pobl yn sylfaenol drwy eu hailddylunio ar sail eu hanghenion. Drwy ddefnyddio'r gallu a grëwyd yn Stiwdio Ddigidol yr Asiantaeth, mae'r tîm wedi gallu gweithio gyda chydweithwyr yn y busnes i ddatblygu a chyflwyno cynhyrchion newydd, fel y rhai sydd eu hangen ar y model Rheoli Troseddwyr, yn gynt ac am gost is. Mae'r dull hwn hefyd wedi cyfrannu at wneud ein rhaglenni presennol weithio'n well, er enghraifft system rheoli achosion y NPS (Delius) sydd wedi gwella profiad y defnyddiwr ac arbed amser ac ymdrechion staff.

Yn yr ystad garchardai, mae defnydd troseddwyr o gyfrifiaduron sylfaenol a ffonau yn-y-gell yn cael ei dreialu mewn dau garchar - CEM Wayland a CEM Berwyn. Y pwrpas yw bod carcharorion yn gallu rheoli rhai o'u tasgau beunyddiol, gwaith a fyddai fel arfer yn cael ei reoli gan swyddogion ar bapur. Mae awtomeiddio prosesau yn y carchar yn golygu bod staff yn gallu symud o dasgau gweinyddol i dasgau diogelwch ac adsefydlu. Mae'r prosesau papur presennol yn rhwystredigaeth fawr i droseddwyr a swyddogion oherwydd mae ceisiadau papur yn aml yn mynd ar goll, yn cymryd amser ac mae cofnodi gwybodaeth â llaw yn agored i wallau.

Gall cael gafael ar ffôn yn y carchar fod yn anodd. Dim ond ar gyfnodau cyswllt carcharorion y gall y rhan fwyaf ffonio allan. Mae hyn yn aml yn creu tensiwn gan ysgogi digwyddiadau fel ffraeo, bwlio, ymosodiadau a smyglo ffonau symudol anghyfreithlon i mewn i garchardai. Mae cyflwyno ffonau yn-y-gell mewn carchardai preifat wedi gwella pethau'n sylweddol o ran diogelwch, llai o ymosodiadau a bwlio a llai o hunan-niwed. Mae'r peilot yn dal i redeg yn y ddau garchar a bydd y manteision yn cael eu monitro.

Mae gwaith hefyd ar y gweill gyda nifer o garchardai eraill yn yr ystad HMPPS i gyflwyno cyfleusterau technegol gwell gan gynnwys ffonau yn-y-gell a chyfrifiaduron ar yr adain fel bod carcharorion yn gallu rheoli eu tasgau beunyddiol eu hunain.

**Adnoddau Dynol**

Mae sicrhau'r nifer iawn o staff o'r ansawdd iawn yn hanfodol i sefydlu gwasanaeth llwyddiannus, rhywbeth a fu'n flaenoriaeth uchel i ni.

Derbyniwyd £100 miliwn ychwanegol i recriwtio 2,500 o swyddogion carchar erbyn Rhagfyr 2018. Llwyddodd y gwasanaeth i gwrdd â'r targed hwnnw, cyn pryd, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a byddwn yn parhau ein hymgyrch recriwtio gyda ffocws ar y safleoedd y mae'n anoddach recriwtio iddynt.

Un o'n heriau mwyaf eleni oedd delio gyda'r nifer fwyaf erioed o geisiadau am swyddi swyddogion carchar yn 2017-18. Rydym wedi ehangu nifer y canolfannau asesu o 4 i 15. Hefyd, i gwrdd â'r galw i hyfforddi swyddogion carchar newydd, rydym wedi ehangu ein capasiti hyfforddiant yn sylweddol ar draws Cymru a Lloegr, i fyny o 1,900 lle i 5,300 lle mewn 44 o leoliadau.

Rydym wedi sefydlu contract gyda menter gymdeithasol, *Unlocked Graduates*, i recriwtio a datblygu cohort o rai o'r graddedigion gorau yn y wlad i'r swyddi hyn. Ym Medi 2017 croesawyd ein cohort cyntaf o 52 swyddog carchar graddedig i'r rhaglen. Mae llwyddiant yr ymgyrch recriwtio wedi golygu bod HMPPS wedi gofyn i *Unlocked* recriwtio 115 o raddedigion fel rhan o ail gohort i ddechrau ym mis Medi 2018.

Rydym wedi datblygu rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer ein holl uwch-arweinwyr gweithredol o'r enw'r Rhaglen Uwch-Arweinwyr Gydag Awdurdod, sydd i'w chyflwyno i bob llywodraethwr carchar cyfrifol ac uwch-reolwyr y NPS dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd y rhaglen yn sicrhau bod yr holl uwch-arweinwyr ar draws y busnes yn rhoi sylw i bethau fel ysbrydoli arweinyddiaeth, ymgysylltu a grymuso staff a sut i ddarparu newid ar gyfer y dyfodol.

Un o'r prif feysydd ffocws i ni dros y cyfnod adrodd yw sicrhau bod llai o staff yn sâl a rhoi mwy o bwyslais ar les staff. Yn 2017-18, lansiwyd Strategaeth Les Staff HMPPS gan gefnogi a hyfforddi dros 200 o bencampwyr lles lleol fydd yn hyrwyddo iechyd a lles staff ar draws ein gweithlu.

Mae cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd i lawr o 10.1 diwrnod yn 2016-17 i 9.2 diwrnod yn 2017-18.

Fel rhan o'r cymorth i greu Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc HMPPS ac o dan drefniadau newid rhyng-weinidogol, mae 69 o staff wedi eu trosglwyddo i HMPPS o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae gwaith i sefydlu'r swyddogaeth newydd yn parhau gydag Adnoddau Dynol yn cefnogi'r newid a gwreiddio'r broses.

Mae'r berthynas â'n hundebau llafur yn hanfodol i helpu i greu amgylchedd gwaith diogel, gweddus a di-risg. Eleni rydym wedi gweithio'n galed i gadw ein perthynas â'n staff yn sefydlog drwy ymgysylltu'n gadarnhaol a hyn wedi cynnwys deialog rheolaidd a rheoli ein rhanddeiliaid.

Ar ôl trychineb tân Tŵr Grenfell, roedd angen i'r tîm Diogelwch Tân Cenedlaethol sicrhau gweinidogion bod yr ystad garchardai'n ddiogel. Edrychodd y tîm o'r newydd ar yr holl safonau a chanllawiau technegol, gan gynnwys y defnydd o gladin, i sicrhau bod ein hadeiladau a'u deiliaid yn ddiogel. Yn dilyn yr adolygiad cafwyd bod yr holl ofynion diogelwch yn cael eu bodloni ar draws yr ystad.

# Gwasanaethau Ariannol a Pherfformiad

Yn y flwyddyn ariannol bresennol, symudodd swyddogaeth gyllid HMPPS at fodel arweinyddiaeth ‘drwy wneud’ er mwyn cyfuno arbenigeddau’n un tîm unedig ar draws y MoJ. Wrth wreiddio’r model newydd hwn, rydym wedi parhau i reoli ein hadnoddau ar draws y flwyddyn a thorri ein côt yn ôl y brethyn.

Mae cyllid wedi’i wreiddio yn ein penderfyniadau gyda’n partneriaid busnes cyllid yn gweithio ochr yn ochr â’n cydweithwyr gweithredol yn y gwasanaethau carchardai, prawf, carcharu'r ifanc a’n rhaglenni newid Mae’r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid wedi aros yn aelod o Fwrdd yr Asiantaeth a’r Pwyllgor Rheoli Gweithredol.

Rydym wedi sefydlu Canolfannau Rhagoriaeth i gefnogi’r broses o gynhyrchu cyfrifon ariannol a rheoli mewn ffordd effeithiol a phroffesiynol. Mae’r swyddogaeth lywodraethu’n cynorthwyo'r grwpiau gweithredol i ddehongli a chydymffurfio â gweithdrefnau a pholisïau cyllid.


**Alldro ariannol**
Mae datganiadau ariannol HMPPS yn cynnwys costau Gwasanaethau Corfforaethol ac Ystadau'r MoJ, gyda’r cyllidebau yn nwylo'r MoJ. Mae’r alldro isod yn cynnwys alldro yn erbyn cyllidebau’r MoJ sy’n bennaf yn cynnwys taliadau ystadau (darpariaeth ar gyfer ychwanegiadau, dibrisio, amhariad a dadfeilio). Mae alldro cyllideb y MoJ yn cael ei adrodd yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y MoJ.

**Alldro adnoddau**
Mae cyllideb adnoddau HMPPS, sef £3,765m, yn cynnwys £21m o gyd-wasanaethau digidol ac Adnoddau Dynol a drosglwyddwyd i’r MoJ. Mae HMPPS wedi rheoli ein gwariant yn ofalus i adrodd alldro adnoddau o £3,709m yn erbyn cyllideb gyfatebol o £3,744m. Mae’r tanwariant o 1% wedi’i briodoli i oedi gyda recriwtio a setlo contractau â'r cwmnïau CRC, ond wedi’i wrthbwyso gan fwy o wariant ar y contract rheoli cyfleusterau a’r costau recriwtio cynyddraddol oedd eu hangen i ddarparu’r rhaglen garlam Hyfforddiant Lefel Mynediad i Swyddogion Carchar (POELT).

**Alldro Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**
Mae cyllideb AME HMPPS yn cynnwys costau pensiwn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a symudiadau darpariaeth sy’n gynhenid gyfnewidiol. Roedd yr alldro AME yn 2017-18 yn £84m yn erbyn cyllideb o £130m. Mae hyn wedi’i briodoli i wrthdroi amhariadau ar gyfer eiddo, planhigion a chyfarpar a chynnydd yng ngwerth asedau pensiwn y LGPS.

**Alldro cyfalaf**
Roedd y gyllideb gyfalaf wreiddiol a ddirprwywyd i ni ar ddechrau 2017-18 yn £199m. Cafodd y gyllideb ei diwygio i lawr o £133m i £66m drwy gytundeb â’r MoJ, i gyd-fynd â blaenoriaethau adrannol ac i adlewyrchu’r oedi disgwyliedig gyda phrosiectau newid yn HMPPS. O ganlyniad, llwyddodd y prosiectau i wneud mwy o gynnydd na’r disgwyl a thrwy gytundeb canol blwyddyn â’r MoJ cawsom ein hawdurdodi i fynd dros y gyllideb ddiwygiedig hon gan arwain at alldro o £84m.

**Lle y gwariwyd ein harian yn 2017-18**
Aeth y rhan fwyaf o'n gwariant gweithredol o £4.6 biliwn ar ddarparu ein gwasanaethau carchardai a phrawf rheng flaen, gyda lefel uchel o gostau sefydlog neu led-sefydlog. Mae'r siart isod yn dangos ar beth y caiff ein cyllidebau eu gwario ar hyn o bryd. Costau staffio yw'r gwariant mwyaf gan gyfrif am 42% o gyfanswm y gwariant gweithredol.




**Sut y cawn ein hariannu**
Rydym yn cael ein hariannu'n bennaf gan gyllid gan y MoJ fel rhiant-gorff. Yn 2017-18 llwyddwyd hefyd i gynhyrchu £255m o incwm gweithredol, wele isod.

Rydym yn chwilio'n gyson am gyfleoedd i ehangu ar refeniw'r Diwydiant Carchardai Cyhoeddus o ffynonellau allanol.

Mae ein contract allanol mwyaf gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn a gynhyrchodd dros £3m o incwm yn 2017-18. Drwy'r gwaith hwn gallwn ddarparu gweithgareddau ystyrlon i garcharorion, gwella eu sgiliau cyflogaeth a thrwy hynny eu cynorthwyo i adsefydlu a lleihau eu risg o aildroseddu ar ôl dod allan.

Mae'r contract manwerthu'n rhoi cyfle wythnosol i droseddwyr brynu eu bwyd, deunyddiau hobi ac eitemau eraill gyda'u harian eu hunain. Mae'n gontract hunan-ariannu lle defnyddir pryniannau'r troseddwyr, a'r elw a wneir arnynt, i wrthbwyso costau'r contract. Caiff gweithdai pecynnu rhanbarthol eu rhedeg gan y darparwr gwasanaeth ond eu staffio'n bennaf gan droseddwyr. Mae'n cynnig gweithgaredd ystyrlon a phwrpasol sy'n rhoi cyfle i droseddwyr ddatblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo ar ôl dod allan gan felly wella eu cyfleoedd cyflogaeth a lleihau eu siawns o aildroseddu.

Mae Sefydliad Cyd-ariannu HMPPS (CFO) yn derbyn dyraniad ariannol gan yr Undeb Ewropeaidd drwy Awdurdod Rheoli Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Adran Gwaith a Phensiynau) i ddarparu gwasanaethau ailsefydlu i droseddwyr rhwng 2015-2020. Defnyddir yr arian i helpu troseddwyr anodd eu cyrraedd, yn y carchar a'r gymuned, i wella eu cyflogadwyedd gan roi cyfle iddynt gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd. Mae CFO HMPPS yn cefnogi amcanion polisi'n ymwneud ag ailsefydlu, cyflogi ac addysgu troseddwyr.

Rydym hefyd yn adennill costau gan bartneriaid cyllido fel a ganlyn:

- darparu llefydd carcharu'r ifanc (YJB a'r MoJ) hyd nes y trosglwyddodd y cyfrifoldeb i HMPPS ym mis Medi 2017
- darparu gwasanaethau carchar i garcharorion sy'n wladolion tramor, gan redeg canolfannau cadw mewnfudwyr a gweithgareddau gwrth-derfysgaeth (Swyddfa Gartref)
- darparu gwasanaethau gofal iechyd (NHS England, y sector preifat a Llywodraeth Cymru).

**Rheolaeth ariannol**

Mae'r MoJ yn derbyn awdurdod i achosi gwariant drwy'r broses amcangyfrifon cyflenwi. Cyhoeddir yr amcangyfrif ddwywaith pob blwyddyn ariannol. Cyhoeddir y prif amcangyfrif ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a'r amcangyfrif atodol tuag at ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Mae'r amcangyfrif atodol yn rhoi cyfle i'r MoJ adlewyrchu newidiadau yn y cyllidebau mewnol ac unrhyw symudiadau ariannol rhwng adrannau eraill y llywodraeth.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, caiff cyllidebau eu dirprwyo gan Ysgrifennydd Parhaol y MoJ, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, i Brif Swyddog Gweithredol HMPSS a allai yna benderfynu is-ddirprwyo i ddalwyr cyllideb eraill yng nghyfarwyddiaethau HMPPS. Mae'n ofynnol i ddalwyr cyllideb gwrdd ag amodau eu llythyrau dirprwyo a gofynion Fframwaith Rheolaeth Ariannol y MoJ.

Mae Cyllid HMPPS yn cyhoeddi adroddiadau ar gyllideb a gwariant i bwrpas monitro'r cyllidebau a thrafod ag uwch-ddalwyr cyllideb. Ar ôl adolygu'r rhagolygon canol blwyddyn yn dra manwl, sicrhawyd bod HMPPS yn cyflwyno rhagolygon dibynadwy a chadarn, bod unrhyw ansicrwydd yn cael ei reoli a bod opsiynau i wneud arbedion pellach yn cael eu hystyried i leihau'r rhagolygon. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r holl gyfarwyddwyr gweithredol i brofi cywirdeb y rhagolygon tybiannol a sicrhau bod y rhagolygon i gyd wedi'u cefnogi'n gadarn.

O dan y cynllun 'trwydded i weithredu' rhaid i ddalwyr cyllideb fod wedi cwblhau hyfforddiant i barhau fel daliwr cyllideb. Mae'r hyfforddiant wedi parhau i gael ei ddarparu i uwch-reolwyr ar draws HMPPS gyda'r rhan fwyaf o'r sesiynau wedi dod i ben. Mae carchardai'n cwblhau'r Datganiad ar Reolaeth Ariannol Fewnol yn cadarnhau bod y mesurau a'r archwiliadau rheoli priodol yn eu lle.

Yn 2017-18 cafodd adroddiad gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) ar reoli cyllideb yn HMPPS ei gwblhau a phrif farn ei rhoi am y fframwaith llywodraethu, rheoli a chadw rheolaeth ar risg.

# Perfformiad Gweithredol

## Perfformiad Gweithredol HMPPS 2017-18

| Mesur | *Ebrill 2015 - Mawrth 2016** | *Ebrill 2005 - Mawrth 2006* |
|---|---|---|
| Cyfradd aildroseddu blwyddyn (a brofwyd), ar gyfer troseddwyr (oedolion) a ryddhawyd o'r carchar neu a ddechreuodd orchymyn llys[1] | 37.2% | 41.5% |

* Dalier sylw: cafwyd newid mewn ffynhonnell ddata yng nghanol 2015-16 a dylai defnyddwyr fod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigur hwn i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

| Mesur | *Canlyniad 2017-18* | *Canlyniad 2016-17* |
|---|---|---|
| ***Amddiffyn y Cyhoedd*** | | |
| Nifer yr achosion dianc Categori A | 0 | 0 |
| Nifer yn dianc o garchardai a cherbydau hebrwng carcharorion | 4 | 7 |
| Y gyfradd ddianc o garchardai a cherbydau hebrwng carcharorion fel cyfran o'r boblogaeth garchardai gyfartalog | 0.005% | 0.008% |
| Nifer yn dianc o gerbydau hebrwng contractwyr | 9 | 8 |
| Cyfradd yr achosion dianc o gerbydau hebrwng contractwyr fel cyfran o'r carcharorion a symudir | 1 mewn 67,123 o symudiadau carcharorion | 1 mewn 81,981 o symudiadau carcharorion |
| ***Diogelwch*** | | |
| Marwolaethau hunan-fwriad am bob 1,000 o garcharorion[2] | 0.8 | 1.3 |
| Ymosodiadau rhwng carcharorion: digwyddiadau am bob 1,000 o garcharorion[3] | 248 (12 mis tan ddiwedd Rhag '17) | 224 (12 mis tan ddiwedd Rhag '16) |
| Ymosodiadau ar staff carchardai: digwyddiadau am bob 1,000 o garcharorion[4] | 98 (12 mis tan ddiwedd Rhag '17) | 80 (12 mis tan ddiwedd Rhag '16) |

1 Ystadegau Aildroseddu a Brofwyd: Ebrill 2016 tan Fehefin 2016, cyhoeddwyd 26 Ebrill 2018 (https://www.gov.uk/government/statistics/proven-reoffending-statistics-april-2016-to-june-2016)

2 Bwletin Chwarterol ar Ystadegau Diogelwch Dan Glo: diweddariad chwarterol hyd at Ragfyr 2017, cyhoeddwyd 26 Ebrill 2018 (https://www.gov.uk/government/statistics/safety-in-custody-quarterly-update-to-december-2017)

3 Fel yr uchod.

4 Fel yr uchod.

| Mesur | *Canlyniad 2017-18* | *Canlyniad 2016-17* |
|---|---|---|
| ***Cyflwyno cosbau a gorchmynion y llysoedd*** | | |
| Canran y carcharorion dan glo mewn llety gorlawn ar draws y system garchardai | 24.2% | 24.5% |
| Cyfradd y camddefnydd o gyffuriau mewn carchardai yn ôl rhai sy'n profi'n bositif mewn profion cyffuriau gorfodol[5] | 10.6% | 9.3% |
| Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol: canran y Gorchmynion Cymunedol a Gorchmynion Dedfrydau Gohiriedig a gwblhawyd[6] | 78.0% (Ebrill tan Ragfyr 2017) | 78.2% |
| Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: canran y Gorchmynion Cymunedol a Gorchmynion Dedfrydau Gohiriedig a gwblhawyd[7] | 73.2% (Ebrill tan Ragfyr 2017) | 71.4% |
| ***Dangosyddion staffio*** | | |
| Salwch staff: diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd pob blwyddyn[8] | | |
| • Ar draws HMPPS | 9.2 | 10.1 |
| • Carchardai Sector Cyhoeddus | 9.1 | 10.0 |
| • Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 10.0 | 11.5 |
| • Gwasanaethau pencadlys a rhanbarthol | 6.4 | 6.0 |
| • Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc | 11.5 | 13.2 |
| Cynrychiolaeth staff BAME ar draws HMPPS | 8.2% (31 Mawrth 2018) | 8.2% (31 Mawrth 2017) |

Mae'r bwletin Ystadegau Aildroseddu a Brofwyd, a gyhoeddwyd ar 26 Ebrill 2018, yn rhoi ystadegau allweddol ar aildroseddu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhoi ffigurau aildroseddu a brofwyd ar gyfer troseddwyr (oedolion ac ifanc) a ryddhawyd o'r carchar, a dderbyniodd euogfarn di-garchar gan y llys, a dderbyniodd rybuddiad neu a

5 Ddim yn cynnwys profion am Sylweddau Seicoactif Newydd a gyhoeddir am y tro cyntaf ar 26 Gorffennaf 2018 yn nogfen Crynhoad Blynyddol HMPPS.

6 Gwybodaeth Reoli Chwarterol ar Berfformiad Cymunedol, diweddariad hyd at Ragfyr 2017, cyhoeddwyd ar 26 Ebrill 2018 (https://www.gov.uk/government/statistics/community-performance-quarterly-mi-update-to-december-2017) a dogfen Chwarterol a Blynyddol ar Berfformiad Cymunedol: 2016-2017, cyhoeddwyd 27 Gorffennaf 2017 (https://www.gov.uk/government/statistics/community-performance-quarterly-and-annual-2016-to-2017). Cyhoeddir y ffigurau alldro perfformiad llawn am 2017-18 ar 26 Gorffennaf 2018.

7 Fel yr uchod.

8 Bwletin Ystadegau Gweithlu HMPPS, Mawrth 2018, cyhoeddwyd 17 Mai 2018 (https://www.gov.uk/government/statistics/her-majestys-prison-and-probation-service-workforce-quarterly-march-2018)

dderbyniodd gerydd neu rybudd rhwng Ebrill a Mehefin 2016. Mae’r bwletin hefyd yn rhoi cyfraddau aildroseddu cyfartalog blynyddol hyd at y flwyddyn ariannol 2015-16. Diffinnir aildrosedd a brofwyd fel trosedd wedi'i chyflawni yn yr ôl-gyfnod o flwyddyn ac sy’n arwain at euogfarn llys, rhybuddiad, cerydd neu rybudd yn ystod y flwyddyn neu o fewn cyfnod aros pellach o chwe mis er mwyn gallu profi’r trosedd yn y llys.

Y prif ystadegyn aildroseddu ar gyfer HMPPS yw’r gyfradd aildroseddu blwyddyn a brofwyd ar gyfer troseddwyr (oedolion) a ryddhawyd o’r carchar neu a ddechreuodd orchymyn llys Am y cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, y gyfradd aildroseddu blwyddyn a brofwyd oedd 37.2%.

Y gyfradd aildroseddu a brofwyd ar gyfer troseddwyr (oedolion) yn dechrau gorchymyn llys (dedfryd gymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig) oedd 33.3%. Y gyfradd aildroseddu a brofwyd ar gyfer troseddwyr (oedolion) a ryddhawyd o’r carchar oedd 47.8%. Mae’r gyfradd ar gyfer rhai a ryddhawyd o ddedfrydau byr wedi bod yn gyson uwch o’i gymharu â rhai a ryddhawyd o ddedfrydau hirach. Roedd cyfradd aildroseddu oedolion gyda dedfrydau o lai na 12 mis yn 63.3% o’i gymharu â 31.0% ar gyfer rhai gyda dedfrydau amhenodedig o 12 mis neu fwy.

Dihangodd un carcharor o’r carchar a thri o gerbydau hebrwng carcharorion yn 2017-18. Mae’r pedwar achos o ddianc hwn i lawr o'i gymharu â 2016-17 pan ddihangodd saith o garcharorion (pedwar o garchar a thri o gerbydau hebrwng carcharorion). Roedd cynnydd yn y gyfradd dianc o gerbydau hebrwng contractwyr o un am bob 81,981 o symudiadau carcharor yn 2016-17 i un am bob 67,123 o symudiadau yn 2017-18. Nid oedd unrhyw achosion dianc Categori A.

Roedd 69 o farwolaethau hunan-fwriad yn y carchar yn y 12 mis hyd at ddiwedd Mawrth 2018 (cyfradd o 0.8 am bob mil o garcharorion) o’i gymharu â 115 yn y 12 mis yn dod i ben ym mis Mawrth 2017 (1.3 am bob mil).

Yn y 12 mis tan fis Rhagfyr 2017 roedd 248 o ymosodiadau rhwng carcharorion am bob 1,000 o garcharorion, i fyny o 224 dros yr un cyfnod yn 2016. Yn y 12 mis tan fis Rhagfyr 2017, roedd 98 o ymosodiadau ar staff am bob mil o garcharorion, i fyny o 80 y flwyddyn cynt.

Y ganran gyfartalog o garcharorion mewn llety gorlawn yn 2017-18 oedd 24.2%, mymryn i lawr o 24.5% yn 2016-17.

Aeth cyfradd y carcharorion a brofodd yn bositif am gyffuriau mewn hapbrofion cyffuriau gorfodol i fyny o 9.3% yn 2016-17 i 10.6% yn 2017-18. Nid yw hyn yn cynnwys profion am sylweddau seicoactif newydd.

Llwyddodd y cwmnïau CRC i gadw eu perfformiad o ran canran y Gorchmynion Cymunedol (CO) a Gorchmynion Dedfrydau Gohiriedig (SSO) a gwblhawyd yn llwyddiannus ar tua 78% rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017. Ar gyfer gorchmynion CO a SSO sy’n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, aeth y gyfradd gwblhau i fyny o 71.4% yn 2016-17 i 73.2% rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017.

Yn 2017-18, collodd staff HMPPS 9.2 diwrnod gwaith ar gyfartalog oherwydd salwch. Mae hyn yn 0.9 diwrnod yn llai o'i gymharu â 2016-17.

Roedd y gyfradd staff o gefndiroedd BAME ar draws HMPPS ar 31 Mawrth 2018 yr un fath a heb newid o'i gymharu â 31 Mawrth 2017.

# Cydraddoldeb

Rydym yn benderfynol o gyflawni ein hymrwymiadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cawsom ddylanwad ar gynnydd Adolygiad Lammy o brofiadau unigolion Du a Lleiafrifol Ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol, a gyhoeddodd ei adroddiad ym mis Medi 2017. Rydym wedi derbyn y 13 argymhellion sy'n hynod berthnasol i waith ein hasiantaeth. Mae ein tîm Cydraddoldeb yn gweithio'n galed i ddarparu'r ymatebion cytunedig.

Bydd argymhellion Adolygiad Lammy a'r deg blaenoriaeth strategol gysylltiedig a gymeradwywyd gan y Bwrdd hefyd yn rhan o strategaeth gydraddoldeb sydd i'w chyhoeddi'n fuan.

Yn 2017-18 rydym wedi:

- sefydlu rhaglen ffurfiol i weithredu argymhellion Adolygiad Lammy a'r blaenoriaethau strategol ehangach. Mae panel craffu a chynghori allanol ar Lammy hefyd wedi'i sefydlu.
- datblygu canllawiau i ategu'r cyfarwyddyd ar reoli a gofalu am droseddwyr trawsrywiol, sy'n gweithredu argymhellion adolygiad 2016 y MoJ yn llawn. Mae bwrdd cynghori trawsrywiol yn parhau i fonitro cynnydd gyda chyflawni'r cyfarwyddyd a chasgliadau'r adolygiad.
- gweithio i barhau i wreiddio dadansoddi cydraddoldeb yn ein busnes craidd
- wedi ennill achrediad i gyfres o raglenni ar gyfer dynion ag anableddau dysgu a heriau

# Ein Pobl

Yn 2017-18 cafodd ystod amrywiol o staff a phartneriaid allanol yn y gwasanaethau prawf, carchardai a phencadlys HMPPS eu hanrhydeddu â gwobrau cenedlaethol:

Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2017

***Dyfarnwyd yr OBE i:***
Gwyneth Morgan, sylfaenydd *Prisoner Penfriends*

***Dyfarnwyd yr MBE i:***
Eric McGraw, Golygydd diweddar *Inside Time*
Joanne Noble, Swyddog Carchar Arbenigol (Gofal Iechyd), CEM Manceinion
Derek Groves, Arbenigwr Addysg Gorfforol Band 4, CEM Hull

***Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i:***
Louisa Harbottle, Ymwelydd Carchar, CEM Frankland
Gillian Vine, Cyn-gadeirydd Cymdeithas Gofal Troseddwyr Buckinghamshire (BACO)

Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2018

***Dyfarnwyd y CBE i:***
Alan Scott, Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (Gogledd)

***Dyfarnwyd yr OBE i:***
Jeannine Hendrick, Llywodraethwr CEM Exeter a Rheolwr y Prosiect Lleihau Trais
Jackie Hewitt-Main, Prif Weithredwr y *Cascade Foundation*

***Dyfarnwyd yr MBE i:***
Ed Gatenby. Pennaeth Preswyl a Gwasanaethau, CEM Durham
Angela Tate, Swyddog Prawf, CEM Ynys Wyth

***Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) i:***
Andrea Manson, Uwch-Gynghorydd Iechyd a Diogelwch, Cyfarwyddiaeth AD HMPPS

Gwobrau Ymddiriedolaeth Butler 2017-18
Roedd enillwyr gwobrau clodwiw Ymddiriedolaeth Butler yn 2017-18 yn cynnwys 10 o unigolion yn gweithio mewn carchardai a phrawf yng Nghymru a Lloegr.

Derbyniodd 15 o bobl eraill glod uchel a chawsant i gyd eu gwahodd i fynychu seremoni ym Mhalas St James wedi'i chyflwyno gan noddwr yr Ymddiriedolaeth, EH y Dywysoges Frenhinol ym mis Mawrth 2018.

Ynghyd â'i gwobr, derbyniodd Eileen Whittaker, cwnselydd gwirfoddol yng Ngharchar Ei Mawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Styal, Wobr Cyflawniad Rhagorol y Dywysoges Frenhinol am wasanaeth eithriadol yn arwain gwasanaethau cwnsela i ferched.

Mae rhestr lawn o'r enillwyr a'r rhai a dderbyniodd glod yn:
[http://www.butlertrust.org.uk/our-winners/](http://www.butlertrust.org.uk/our-winners/)

Gwobrau staff mewnol HMPPS

***Gwobrau Swyddog Carchar y Flwyddyn 2017***
cafodd Swyddog Carchar Iain Foskett, o CEM High Down, enillydd y categori Tegwch, Gwedduster a Pharch ei enwi'n Swyddog Carchar y Flwyddyn gan Brif Weithredwr HMPPS, Michael Spurr. Dywedodd: "Mae Iain yn swyddog carchar gwych sy'n cael ei barchu gan bawb yn High Down am ei broffesiynoldeb, gwydnwch a'i ofal diffuant am garcharorion."

Enillwyr categorïau eraill:

**Newid ac Arloesi**
Kissie Goodwin, CEM/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Isis

**Newid Bywydau**
Bernie Hare, CEM Bullingdon

**Cyflawniad Oes**
Lynne Gaita, CEM Bedford

**Gweithio mewn Partneriaeth**
Paul Handley, CEM Altcourse

**Diogelwch y Cyhoedd**
Mia Penfold, CEM Elmley

**Diogelwch, Atal Risg a Gofal**
Alison Hemming, CEM Stocken

**Cymorth i Staff**
Joanne Stanton, CEM Manceinion

**Tîm y Flwyddyn**
Tîm Uned Wahanu, CEM Wealstun

Gwobrau Prawf 2017
Cafodd Swyddog Prawf Gareth Key o NPS y Gogledd-Ddwyrain, enillydd y categori Newid Bywydau, ei enwi'n Bencampwr Prawf y Flwyddyn gan Brif Weithredwr HMPPS, Michael Spurr. Dywedodd: "Mae Gareth yn sefyll am bopeth sy'n dda am wasanaeth prawf. Mae'n ofalgar a thosturiol ac yn credu'n ddiffuant y gall pobl newid. Mae'n ysbrydoliaeth ac yn fodel rôl gwych i eraill."

Enillwyr categorïau eraill:

**Newid ac Arloesi**
Liam Mason, DLNR CRC

**Tegwch, Gwedduster a Pharch**
Aaron McCabe, HIOW CRC

**Cyflawniad Oes**
Jeanette Kuyateh, NPS y Gogledd-Orllewin

**Gweithio mewn Partneriaeth**
Jenny Webster, NPS SEE

**Diogelwch y Cyhoedd**
Angela Tate, NPS SWSC

**Cymorth i Staff**
Andrew Reynolds, NPS Cymru

**Cefnogi Dioddefwyr**
Kelly-Anne Ford, BeNCH CRC

**Tîm y Flwyddyn**
Tîm Troseddau Rhywiol Rhanbarth Canolbarth Lloegr, NPS Canolbarth Lloegr

# Adroddiad Cynaliadwyedd

Rhagarweiniad
Hwn yw Adroddiad Cynaliadwyedd HMPPS a baratowyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys yn 'Adroddiadau Blynyddol y Sector Cyhoeddus: Adroddiadau Cynaliadwyedd' a gyhoeddwyd yn: <https://www.gov.uk/government/publications/government-financial-reporting-manual-2017-to-2018>

Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r sgôp a'r manylion yn Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth (GGC). GGC yw'r prif sbardun i Ddatblygu Cynaliadwyedd ar draws y llywodraeth ac mae'n cynnwys cyfres o dargedau gwella ar gyfer meysydd fel carbon o ynni, gwastraff, dŵr a bioamrywiaeth.

Cynaliadwyedd
Mae cynaliadwyedd yn ymwneud â meddwl yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol am fater a thalu sylw arbennig i'r canlyniadau hirdymor. Gellir edrych arno fel dull hirdymor ac integredig o wella ansawdd ein bywyd ond, ar yr un pryd, parchu bod angen i ni fyw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol.

Amcanion
Ein rôl yw comisiynu, darparu a rheoleiddio gwasanaethau rheoli troseddwyr yn y gymuned ac yn y carchar, gan sicrhau'r gwerth gorau o ddefnyddio arian cyhoeddus. Gweithiwn i amddiffyn y cyhoedd a lleihau aildroseddu drwy ddarparu gorchmynion a chosbau'r llysoedd a chefnogi adsefydlu drwy helpu troseddwyr i newid eu bywydau er gwell.

Ar yr un pryd, gofalwn ein bod yn ceisio deall a lliniaru ein heffaith ar gynaliadwyedd yng nghyswllt y blaenoriaethau hyn a rhai eraill.

Ein hamcanion cynaliadwyedd yw:

cyflawni Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth (GGC)

- [9]
- gwreiddio cydymffurfio â safonau prynu'r llywodraeth o fewn ein contractau caffael adrannol a chanolog

**Cwmpas**
Cwmpas yr adroddiad hwn yw perfformio yn erbyn Ymrwymiadau Gwyrddio'r Llywodraeth 2016-20.

[9] http://sd.defra.gov.uk/gov/green-government/commitments/

Mae’r adroddiad yn ymdrin â 114 o garchardai cyhoeddus, ein hadeiladau gweinyddol a chyd-wasanaethau, pum carchar preifat (Birmingham, Doncaster, Northumbria, Oakwood a Thameside) a lleoliadau’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS).

**Llywodraethu a dilysu data**
Tîm Gweithredu Cynaliadwyedd Cyfarwyddiaeth Ystadau’r MoJ sy’n gyfrifol am adrodd a rheoli cynaliadwyedd yn yr adran. Caiff y data ei gasglu a’i ddilysu gan Arcadis a Carbon Smart, ein cwmnïau ymgynghori allanol a gyflogir i reoli ein data; mae ansawdd y data'n cael ei sicrhau gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladau ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

Nid yw’r adran yn gallu adrodd ar ddata o leoliadau lle nad yw’r landlord yn cyflwyno data. Data yn y DU yn unig ydyw.

Mae’r ffactorau trosi nwyon tŷ gwydr a ddefnyddir i’w cael yng ngofynion adrodd ar effaith amgylcheddol y llywodraeth i fusnesau.[10]

## Perfformiad GGC

| Gofyniad | Targed y MoJ erbyn 2020 | Perfformiad 2017-18 |
|---|---:|---:|
| Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | 22% | 30% |
| Lleihau gwastraff yn gyffredinol | Mwy na 31% | 25% |
| Lleihau faint o wastraff sy’n mynd i’w dirlenwi | Llai na 10% | 9% |
| Ailgylchu mwy o wastraff | Mwy na 59% | 63% |
| Parhau i leihau'r dŵr a ddefnyddir gan yr ystad | Mwy na 4% | 3% |

**Tabl 1: Cyfraniad HMPPS at berfformiad cyffredinol y MoJ yn 2017-18**

Mae perfformiad yn erbyn GGC wedi’i wreiddio ym mhob contract rheoli cyfleusterau a Rhaglen Trawsnewid yr Ystad Garchardai (PETP).

## Nwyon tŷ gwydr

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr* | | 2009-10 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Dangosyddion anariannol (tunelli o $CO_2$e) | Cyfanswm allyriadau (uniongyrchol) crynswth Sgôp 1 | 166,983 | 172,751 | 164,351 | 158,437 | 146,471 |
| | Cyfanswm allyriadau (anuniongyrchol) crynswth Sgôp 2 | 236,377 | 165,158 | 158,811 | 159,425 | 113,325 |
| | Cyfanswm allyriadau (teithio busnes swyddogol) Sgôp 3 | 6,334 | 22,603 | 25,850 | 21,405 | 25,605 |
| | **Cyfanswm Allyriadau - Sgôp 1, 2 a 3** | **409,694** | **360,512** | **349,012** | **339,267** | **285,401** |
| Defnydd cysylltiedig o ynni (kWh) | Trydan | 371,635,000 | 334,153,020 | 317,399,723 | 386,905,790 | 322,348,228 |
| | Nwy | 891,395,000 | 776,472,182 | 739,733,850 | 760,559,021 | 732,050,504 |
| | Ffynonellau ynni eraill | 117,571,000 | 84,100,292 | 80,431,523 | 41,000,648 | 41,928,766 |
| | **Cyfanswm defnydd o ynni** | **1,380,601,000** | **1,194,725,494** | **1,137,565,096** | **1,188,465,459** | **1,096,327,498** |
| Dangosyddio | Gwariant ar ynni | 68 | 77 | 76 | 76 | 69 |

10 https://www.gov.uk/government/collections/government-conversion-factors-for-company-reporting

| Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr* | | 2009-10 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| n ariannol (£ miliwn) | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 25 | 16 | 17 | 21 | 20 |
| | **Cyfanswm y gwariant ar ynni a theithio busnes** | **93** | **93** | **93** | **97** | **89** |

**Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol a chostau ariannol 2017-18**

Oherwydd argaeledd y wybodaeth, mae’r holl ffigurau ar gyfer dangosyddion anariannol yn y tabl uchod yn cynnwys amcan-ffigur am y cyfnod Ionawr 2018 tan Fawrth 2018.

Rydym wedi cynhyrchu 30% yn llai o allyriadau carbon ers 2009-10. Er bod hyn yn rhannol oherwydd datgarboneiddio’r grid, rydym wedi parhau i gynhyrchu llai o allyriadau carbon drwy’r PETP. Rydym yn parhau i ad-drefnu’r ystad gyda chynlluniau i adeiladu carchardai newydd a chau safleoedd hŷn a llai effeithlon a nifer o swyddfeydd prawf. Mae buddsoddi mewn goleuadau LED yn yr ystad garchardai yn 2016-17 a 2017-18 wedi gwell ein perfformiad ymhellach.

Gyda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), rydym wedi cytuno ar darged newydd mwy ymestynnol i leihau nwyon tŷ gwydr ar gyfer 2019-20. Disgwylir i darged newydd hwn y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) fod yn lleihad o 38% erbyn 2019-20. Bydd yn disodli targed presennol y MoJ (22%) o 2018-19 ymlaen gan adeiladu ar ein llwyddiant blaenorol.

## Gwastraff

| Gwastraff | | | 2009-10 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff peryglus | | 47 | - | - | 62 | - |
| | Gwastraff nad yw’n beryglus | Tirlenwi | 24,830 | 11,961 | 8969 | 3181 | 3,360 |
| | | Sy’n cael ei ailddefnyddio / ailgylchu | 24,735 | 20,500 | 20,688 | 16,353 | 21,897 |
| | | Sy’n cael ei gompostio / treulio anaerobig | - | 1,170 | 1,629 | 1,398 | 1,594 |
| | Sy’n cael ei losgi gydag ynni o wastraff | | 175 | 7503 | 7636 | 11,370 | 10,661 |
| | Sy’n cael ei losgi heb adfer ynni | | - | 162 | 101 | 81 | 22 |
| | **Cyfanswm gwastraff** | | **49,787** | **41,296** | **39,023** | **32,445** | **37,534** |
| Dangosyddion ariannol (£m) | **Cyfanswm costau gwaredu** | | **3.3** | **5.7** | **4.5** | **5.3** | **Ddim ar gael** |
| | **Cyfanswm costau caffael papur** | | **n/k** | **900** | **900** | **925** | **Ddim ar gael** |

**Tabl 3: Gwastraff a chostau ariannol 2017-18**

Oherwydd argaeledd y wybodaeth, mae’r holl ffigurau ar gyfer dangosyddion anariannol yn y tabl uchod yn cynnwys amcan-ffigur am y cyfnod Ionawr 2018 tan Fawrth 2018.

Rydym wedi parhau i leihau faint o wastraff a gynhyrchir o 25% ers 2009-10 ac wedi llwyddo i osgoi anfon 91% o’n gwastraff i gael ei dirlenwi.

Mae HMPPS yn gweithio’n galed i reoli’r unedau rheoli gwastraff (WMU) yn ei garchardai, sy’n cyflogi troseddwyr i ddidol y gwastraff, gwahanu eitemau sy’n addas i’w hailddefnyddio a phrosesu deunyddiau ar gyfer eu hailgylchu. Mae troseddwyr yn llwyddo i ennill cymwysterau rheoli gwastraff achrededig fydd yn eu helpu i ddod o hyd i waith ar ôl dod allan.

Mewn rhai achosion, mae’r unedau hyn wedi eu cysylltu i elusennau a mentrau cymunedol ar y tu allan.

Mae sgiliau bywyd a chymunedol, ynghyd â sgiliau ymarferol y medrant eu trosglwyddo, yn rhan bwysig o’r rhaglen Cyfiawnder Adferol i droseddwyr. Yn 2017-18, ar gyfartaledd roedd 472 o droseddwyr wedi’u cyflogi mewn unedau WMU gan weithio 1,197 awr rhyngddynt ar gyfartaledd.

### Dŵr

| Defnydd o ddŵr | | | 2009-10 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol ($m^3$) | | Ystad gyfan | 8,527,771 | 8,015,221 | 7,811,515 | 7,801,855 | 8,273,287 |
| Dangosyddion ariannol (£m) | Costau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth | | 20 | 22 | 22 | 23 | 23 |

**Tabl 6: Defnydd o ddŵr a chostau ariannol 2017-18**

Oherwydd argaeledd y wybodaeth, mae’r holl ffigurau ar gyfer dangosyddion anariannol yn y tabl uchod yn cynnwys amcan-ffigur am y cyfnod Ionawr 2018 tan Fawrth 2018.

Rydym wedi parhau i fonitro’r defnydd o ddŵr mewn carchardai nad roddir cyfrif amdano er mwyn colli llai o ddŵr mewn hen seilwaith.

### Adolygiadau Allanol

Yn 2016-17, roedd y MoJ yn destun ymchwiliad cynaliadwyedd gan y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol (EAC). Ar y cyfan, canfyddiad yr EAC oedd bod gan y MoJ gryfderau o ran ei threfniadau i hyrwyddo a monitro rhai agweddau ar gynaliadwyedd amgylcheddol, ei bod wedi cwrdd â’i tharged o dan Ymrwymiadau Gwyrddio’r Llywodraeth i leihau allyriadau carbon erbyn 2020 ac yn datblygu dull ffurfiol o leihau allyriadau carbon yn ei hystad bresennol.

Casglodd yr EAC hefyd fod rhai gwendidau gan gynnwys trefniadau llywodraethu a chwrdd â Safonau Prynu’r Llywodraeth ar adeiladu cynaliadwy – mae HMPPS yn cyfrannu at y gwelliannau sydd angen eu gwneud.

| Ymrwymiadau Cynaliadwyedd eraill | |
|---|---|
| **Caffael Cynaliadwy** | Mae gennym dîm caffael mewnol sy’n sicrhau bod cymalau cynaliadwyedd manwl wedi eu gwreiddio yng nghontract TGCh a rheoli cyfleusterau’r MoJ. O dan y contractau newydd, rhaid i gyflenwyr gwrdd â Safonau Prynu’r Llywodraeth. Bydd staff caffael newydd yn derbyn hyfforddiant ar gaffael cynaliadwy. |

| Ymrwymiadau Cynaliadwyedd eraill | |
|---|---|
| **Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd** | Sicrheir bod dyluniadau gwydn i'r hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn prosiectau ôl-osod ac adeiladau newydd, gan gynnwys PETP. Mae cynlluniau parhad busnes cadarn hefyd yn eu lle i reoli pethau a allai ddigwydd pe byddem yn wynebu tywydd eithafol. |
| **Prawfesur Gwledig** | Rydym wedi ymrwymo i brif ffrydio datblygu cynaliadwy wrth lunio polisi. Mae rhestr wirio o brofion effaith penodol bellach yn rhan o'r canllawiau ar asesu effaith polisi, gan roi mwy o sicrwydd y rhoddir sylw dyledus i effeithiau a welir yn aml fel rhai ymylol, fel cynaliadwyedd a phrawfesur gwledig. |
| **Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol** | Mae HMPPS yn parhau i gefnogi Strategaeth a Pholisi cenedlaethol y MoJ ar fioamrywiaeth ar draws ei holl ystad er mwyn gwarchod a rheoli ei safleoedd dynodedig ar draws yr ystad garchardai cyhoeddus a phreifat.<br>Ar y cyd â Phrif Ecolegydd y MoJ, mae HMPPS wedi adolygu Gwobr Bywyd Gwyllt HMPPS yn llwyr ar gyfer 2018 ac mae'r wobr yn awr yn gwobrwyo a chydnabod arferion bioamrywiaeth da a phrosiectau cymunedol ar gyfiawnder adferol.<br>Gyda 95% o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) HMPPS mewn cyflwr o adferiad, mae HMPPS yn ffyddiog y rheolir y safleoedd hyn yn iawn yn y dyfodol ac yn cymryd camau rhagweithiol i godi tri arall o'i SoDdGA i fod mewn cyflwr ffafriol erbyn 2020. |
| **Caffael Bwyd ac Arlwyo** | Cynhyrchir yr holl fwyd a gyflenwir i safonau'r DU neu rai cyfwerth. Caiff bwydlenni eu dylunio i adlewyrchu pa gynnyrch sydd yn ei dymor a'i brynu'n lleol, lle mae'n bosib gwneud hynny, er mwyn lleihau milltiroedd bwyd a helpu i gefnogi cyflenwyr lleol. Mae contract Gwasanaeth Carchardai EM y MoJ am 2017 yn ymrwymo'r contractwr yn benodol i adrodd ar gynnydd ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd sy'n cael eu cysoni â Cherdyn Sgorio Cytbwys Defra (sy'n cynnwys agweddau perthnasol ar Safon Prynu'r Llywodraeth ar gyfer bwyd). |
| **Adeiladu Cynaliadwy** | Yn 2018 fe wnaethom adolygu, gloywi a chyhoeddi ein polisi Adeiladu Cynaliadwy. Mae'n ofynnol i bob adeilad a godir o'r newydd neu sy'n cael ei ailwampio'n sylweddol dderbyn asesiad Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau (BREEAM) i safon 'dda iawn' am waith ailwampio a 'rhagorol' ar gyfer adeiladau newydd. Yn 2017-18 mae pob un o'r chwe charchar newydd posib o dan PETP wedi eu cofrestru ar gyfer BREEAM. |

**Michael Spurr**

Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth

20 Mehefin 2018

# Adroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

**Cefndir statudol**
Ar 1 Ebrill 2017, daeth y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol (NOMS) yn Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), un o asiantaethau gweithredol y MoJ. Cafodd nifer o swyddogaethau blaenorol NOMS eu trosglwyddo i'r MoJ fel y gallai HMPPS ganolbwyntio mwy ar wella perfformiad gweithredol y gwasanaethau carchardai, prawf a charcharu'r ifanc.

**Bwrdd yr Asiantaeth a'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol**
Roedd trefniadau llywodraethu HMPPS am y cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018, fel y cytunwyd iddynt gan yr Ysgrifennydd Parhaol a Bwrdd yr Asiantaeth, yn cynnwys:

- pedwar cyfarfod o Fwrdd Asiantaeth HMPPS yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yr Asiantaeth, gan gynnwys perfformiad, risg a buddsoddiad
- Pwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS sy'n cyfarfod deirgwaith y mis

Cefnogwyd y rhain gan:

- cyfarfod diweddaru wythnosol y Pwyllgor Rheoli Gweithredol
- ystod gynhwysfawr o isbwyllgorau'n adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol (wele dudalen 63 am strwythur llywodraethu HMPPS)

Penodwyd Prif Swyddog Gweithredol NOMS (Michael Spurr) gan Ysgrifennydd Parhaol y MoJ ym Mehefin 2010, o dan delerau Cod Rheoli'r Uwch Wasanaeth Sifil

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod HMPPS yn cael ei greu yn y Senedd ar 8 Chwefror 2017 a chadarnhau mai Michael Spurr fyddai ei Brif Swyddog Gweithredol.

Caiff cyflog y Prif Swyddog Gweithredol ei benderfynu o dan reolau a osodir allan ym mhennod 7.1 (Anecs A) Cod Rheoli'r Uwch Wasanaeth Sifil. Mae aelodau eraill o Fwrdd yr Asiantaeth a'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol yn cael eu penodi gan y Prif Swyddog Gweithredol gyda chytundeb Ysgrifennydd Parhaol y MoJ. Rhoddir manylion am gyflogau Cyfarwyddwyr Bwrdd yr Asiantaeth a'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol yn yr Adroddiad Taliadau a Staff ar dudalennau 79-95.

**Ar 31 Mawrth 2018, roedd strwythur Bwrdd yr Asiantaeth a Phwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS fel a ganlyn:**

***Bwrdd yr Asiantaeth:***

**Aelodau Craidd:**

Cyfarwyddwyr Anweithredol x 3 (gan gynnwys un fel Cadeirydd, gan nodi dau le gwag)
Prif Swyddog Gweithredol (CEO)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai
Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid Ystad
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc
Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched
Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig (EM) / Caffael y Rhaglen

**Aelodau Cyswllt (swyddogaethau cymorth): Nid yw'r aelodau cyswllt yn gallu pleidleisio fel aelodau o Fwrdd Asiantaeth HMPPS ac nid oes ganddynt awdurdod na chyfrifoldeb i reoli na chyfarwyddo prif weithgareddau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Gwahoddir hwynt i fynychu ar gyfer eitemau penodol sy'n berthnasol i'w maes arbenigol:**

Dirprwy Gyfarwyddwr y MoJ, Gwasanaethau Dadansoddi Carchardai a Phrawf
Cyfarwyddwr Masnachol y MoJ
Cyfarwyddwr Cyffredinol y MoJ, Grŵp Comisiynu a Diwygio Troseddwyr
Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth y MoJ

**Hefyd yn bresennol:**

Cynghorydd Cyfreithiol y MoJ
Pennaeth Swyddfa Rheoli Gweithredol y CEO
Ysgrifenyddiaeth y CEO

***Pwyllgor Rheoli Gweithredol***

**Aelodau Craidd:**

CEO – (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai
Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid yr Ystad
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc
Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched-Droseddwyr

Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen EM / Caffael y Rhaglen

**Aelodau Cyswllt: Nid yw'r aelodau cyswllt yn gallu pleidleisio fel aelodau o Bwyllgor Rheoli Gweithredol (EMC) HMPPS ac nid oes ganddynt awdurdod na chyfrifoldeb i reoli na chyfarwyddo prif weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Gwahoddir hwynt i fynychu ar gyfer eitemau penodol sy'n berthnasol i'w maes arbenigol:**
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (De)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (Gogledd)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Uwch-Ddiogelwch Hirdymor
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaethau Masnachol y MoJ

**Hefyd yn bresennol:**
Cynghorydd Cyfreithiol y MoJ
Cyfathrebu Mewnol
Pennaeth Swyddfa Rheoli Gweithredol y CEO
Ysgrifenyddiaeth y CEO

**Yn 2017-18, roedd aelodau Bwrdd Asiantaeth HMPPS a Phwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS fel a ganlyn:**

**Aelodau Craidd:**
Ysgrifennydd Parhaol y MoJ, Richard Heaton* (a fu'n cadeirio cyfarfodydd Bwrdd yr Asiantaeth dros dro o 19 Gorffennaf 2017 hyd nes y penodwyd tri chyfarwyddwr anweithredol newydd ar 1 Mai 2018)
Cyfarwyddwr Anweithredol – Paul Wilson* (tan 2 Chwefror 2018)
Cyfarwyddwr Anweithredol - Alan Hammill*
CEO – Michael Spurr
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai - Phil Copple
Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth - Claudia Sturt
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru (dros dro) a Thrawsnewid Ystad – Simon Boddis (tan 23 Gorffennaf 2017)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid Ystad – Simon Boddis (o 24 Gorffennaf 2017)
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru – Amy Rees (o 24 Gorffennaf 2017)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (dros dro) – Sara Robinson (rhwng 1 Ebrill 2017 a 8 Hydref 2017 ac o 12 Mawrth 2018 ymlaen)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Bontio Carcharu'r Ifanc – Mark Read (tan 8 Hydref 2017)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc a Phontio - Mark Read (rhwng 9 Hydref 2017 ac 8 Ebrill 2018)

Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched - Sonia Crozier

Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol (dros dro) – Jim Barton (tan 4 Hydref 2017)

Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol – Ian Porée (o 5 Hydref 2017)

Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol – Bryan Clark (tan 19 Mawrth 2018)

Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd - Digby Griffith

Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol - Martin Beecroft

Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid - Andrew Emmett

Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig / Caffael y Rhaglen – Adrian Scott

**Aelodau Cyswllt:**

Dirprwy Gyfarwyddwr y MoJ, Gwasanaethau Dadansoddi Carchardai a Phrawf (dros dro) - Natasha Trasi* (rhwng 1 Ebrill 2017 a 22 Mehefin 2017)

Dirprwy Gyfarwyddwr y MoJ, Gwasanaethau Dadansoddi Carchardai a Phrawf - Jonny Hughes*(o 27 Mehefin 2017)

Cyfarwyddwr Masnachol y MoJ – Kate Ellis (tan 26 Hydref 2017)

Cyfarwyddwr Masnachol y MoJ – Jim Rawlings (o 30 Hydref 2017)

Cyfarwyddwr Cyffredinol y MoJ, Grŵp Comisiynu a Diwygio Troseddwyr - Justin Russell*

Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth y MoJ - Tom Read*

Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (De) - Michelle Jarman-Howe*

Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (Gogledd) - Alan Scott**

Cyfarwyddwr Gweithredol, Uwch-Ddiogelwch Hirdymor - Richard Vince **

Swyddog Arweiniol Cenedlaethol Strategaeth Gyffuriau HMPPS, Ian Blakeman** (o 11 Rhagfyr 2017)

**Hefyd yn bresennol:**

Cynghorydd Cyfreithiol y MoJ - Nick Fussell

Cyfathrebu Mewnol – Lisa Appleyard**

Pennaeth Swyddfa Rheoli Gweithredol y CEO - Sarah McKnight

**Bwrdd yr Asiantaeth yn unig* ***Pwyllgor Rheoli Gweithredol yn unig*

Rhoddir manylion am swyddi cyfarwyddwr cwmni a buddiannau pwysig eraill sydd gan gyfarwyddwyr HMPPS yn Nodyn 21 i'r cyfrifon ar dudalen 146.

Mae'r siart ar y dudalen ganlynol yn dangos strwythur rheoli HMPPS ym mis Mai 2018.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

## Siart Sefydliadol




**Mae newidiadau i Fwrdd a Phwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS ers 1 Ebrill 2018 yn cynnwys:**

Penodwyd Gerard Lemos, Rob Butler a Lesley King-Lewis yn gyfarwyddwyr anweithredol ar Fwrdd yr Asiantaeth ar 1 Mai 2018. Bydd Gerard Lemos yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd.

Penodwyd Seyi Obakin yn gyfarwyddwr anweithredol ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ar 1 Mai 2018. Penodwyd Lesley King-Lewis hefyd yn aelod o'r ARAC ar y dyddiad hwnnw.

Cafodd Ian Blakeman hefyd ei benodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol, Gwella Carchardai, ar 8 Mai 2018.

Yn dilyn recriwtio'r cyfarwyddwyr anweithredol newydd, cafodd trefniadau ac aelodaeth Bwrdd yr Asiantaeth a'r EMC eu diwygio fel a ganlyn o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

### Aelodau Bwrdd yr Asiantaeth

Cyfarwyddwr Anweithredol - Gerard Lemos (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Anweithredol - Lesley King-Lewis
Cyfarwyddwr Anweithredol - Rob Butler
Cyfarwyddwr Anweithredol - Alan Hammill
CEO – Michael Spurr

Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai - Phil Copple
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru – Amy Rees
Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched-Droseddwyr - Sonia Crozier
Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol - Ian Porée
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid - Andrew Emmett
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (dros dro) - Sara Robinson
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid Ystad – Simon Boddis

**Hefyd yn bresennol:**
Cynghorydd Cyfreithiol y MoJ - Nick Fussell
Pennaeth Swyddfa Rheoli Gweithredol y CEO - Sarah McKnight
Ysgrifenyddiaeth y CEO

Bydd aelodau ychwanegol o'r EMC yn cael eu gwahodd i fynychu'r Bwrdd am drafodaethau penodol yn ymwneud â'u maes.

**Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Gweithredol:**

CEO – Michael Spurr (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai - Phil Copple
Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru – Amy Rees
Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched-Droseddwyr - Sonia Crozier
Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol - Ian Porée
Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid - Andrew Emmett
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (dros dro) - Sara Robinson
Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwella Carchardai – Ian Blakeman
Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth - Claudia Sturt
Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid Ystad – Simon Boddis
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd - Digby Griffith
Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol - Martin Beecroft
Cyfarwyddwr Gweithredol, Monitro Electronig – Adrian Scott

**Hefyd yn bresennol:**
Cynghorydd Cyfreithiol y MoJ - Nick Fussell
Cyfathrebu Mewnol – Lisa Appleyard
Pennaeth Swyddfa Rheoli Gweithredol y CEO - Sarah McKnight
Ysgrifenyddiaeth y CEO

# Datganiad Llywodraethu

**Rhagarweiniad**
Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, rwyf wedi cynnal trefniadau llywodraethu effeithiol yn 2017-18. Roedd polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i ddarparu system gadarn o reolaeth fewnol i gynorthwyo Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a chwrdd â nodau ac amcanion y gweinidogion ond hefyd i ddiogelu arian ac asedau cyhoeddus yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, o dan y cyfrifoldebau a ddyrannwyd i mi yn fy llythyr dirprwyo ac yn *Managing Public Money*. Drwy gydol y flwyddyn cefais fy nghefnogi gan fy nhîm rheoli gweithredol a Bwrdd yr Asiantaeth i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Rydym wedi parhau i graffu'n fanwl ar y busnes beunyddiol, risg, perfformiad a gwariant ariannol drwy ein trefniadau llywodraethu ffurfiol ac wedi cymryd camau i ymateb i unrhyw fater sy'n wynebu'r busnes a lliniaru risg fel bo angen yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi cymryd camau penodol i ymateb i faterion a risgiau sylweddol a byddwn yn trafod y rhain yn fwy manwl nes ymlaen.

Mae gweddill y datganiad hwn yn nodi'n fwy manwl y trefniadau a roddais yn eu lle i lywodraethu Asiantaeth HMPPS o 1 Ebrill 2017 ymlaen.

**Y Fframwaith Llywodraethu**
Fel y Prif Swyddog Gweithredol, fi sy'n bennaf gyfrifol am Asiantaeth HMPPS, gyda chefnogaeth gan Fwrdd yr Asiantaeth. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol yr Asiantaeth.

Rwyf hefyd yn aelod o Fwrdd Adrannol y MoJ, sy'n cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, ac yn aelod o Bwyllgor Gweithredol y MoJ wedi'i gadeirio gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Rwyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r gweinidog sy'n gyfrifol am garchardai a phrawf, a hefyd â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.


Bwrdd Asiantaeth HMPPS (HAB) oedd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol yr Asiantaeth; rheoli perfformiad gan gynnwys cyllid ynghyd ag asesu a rheoli risg, fel rhan o strategaeth gyffredinol y MoJ. Roedd y Bwrdd yn rhoi cyfeiriad i, a gyrru'r broses o gyflawni, amcanion gwaith yr Asiantaeth gan sicrhau rheolaeth gymwys a darbodus, cynllunio cadarn, gweithdrefnau priodol i sicrhau cyfrifyddu boddhaol a hefyd parthed systemau a chofnodion rheolaeth fewnol eraill ac am gydymffurfio â gofynion llywodraethu corfforaethol a deddfwriaethol.

Yn ogystal â chadw trosolwg ar berfformiad, risg a chyllid, yn 2017-18 bu Bwrdd yr Asiantaeth hefyd yn ystyried materion strategol pwysig fel sefydlogrwydd / capasiti mewn carchardai; strategaeth gyflogau / y gweithlu; Adolygiad Prawf / perfformiad y cwmnïau CRC ac Adolygiad Lammy, ynghyd ag amodau byw mewn carchardai.

Mae Pwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS wedi cefnogi Bwrdd yr Asiantaeth (HAB) i redeg busnes dydd i ddydd HMPPS. Mae'r Bwrdd Parodrwydd a Sicrwydd Gweithredol Diogelwch a Diwygio Carchardai (ORAB) hefyd wedi sicrhau bod aelodau ffocws-gweithredol o dîm rheoli gweithredol HMPPS wedi gallu rhoi mewnbwn a sicrwydd

ynghylch y systemau / gwasanaethau newydd sy’n deillio o raglenni Carcharu’r Ifanc; Diogelwch a Diwygio Carchardai ac Adolygu Prawf y MoJ.

***Strwythur Llywodraethu HMPPS***




***Bwrdd yr Asiantaeth***

Mae Bwrdd yr Asiantaeth yn cwrdd pob chwarter ac yn rhoi cymorth a chyngor i mi, fel Prif Weithredwr, ar gyfeiriad strategol yr Asiantaeth. Mae cyfrifoldebau’r Bwrdd yn cynnwys:

- cytuno ar weledigaeth a strategaeth yr Asiantaeth a chysoni gwerthoedd yr Asiantaeth â rhai cod y Gwasanaeth Sifil: gonestrwydd, cywirdeb, gweithredu’n wrthrychol a diduedd
- cytuno ar fesurau llywodraethu a rheolaeth fewnol priodol; gan gynnwys prosesu i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a gwerth da am arian
- cytuno ar brosesau i reoli risg ariannol a risg i berfformiad
- cefnogi’r tîm gweithredol i ddarparu’r ochr weithredol i’r busnes

***Pwyllgor Rheoli Gweithredol***

Fi sy’n cadeirio’r pwyllgor hwn ac mae’n cyfarfod deirgwaith y mis. Mae’n gyfrifol am redeg yr Asiantaeth o ddydd i ddydd gan gynnwys yr holl faterion corfforaethol a gweithredol a’r gwaith o reoli risg a pherfformiad y gwasanaethau carchardai a phrawf.

***Bwrdd Parodrwydd a Sicrwydd Gweithredol***

Fi sy’n cadeirio’r Bwrdd hwn sy’n cwrdd unwaith y mis. Er ei fod yn rhan o strwythur llywodraethu rhaglen Diogelwch a Diwygio Carchardai’r MoJ, ei bwrpas yw sicrhau bod aelodau ffocws-gweithredol o dîm gweithredol HMPPS yn cyfrannu mewnbwn i’r broses o ddylunio cynhyrchion perthnasol drwy sicrhau eu bod yn ystyried ffactorau darparu gweithredol ac yn rhoi sicrwydd bod y systemau / gwasanaethau newydd yn barod i fynd yn 'fyw'.

***Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg***

Corff cynghori yw’r pwyllgor hwn sy’n cael ei gadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol a’i aelodaeth i gyd yn anweithredol. Mae’r pwyllgor yn rhoi cyngor annibynnol ar lywodraethu, rheoli a rheolaeth o risg; ac ar y rhaglen waith archwilio mewnol. Mae’n craffu’r cyfrifon ac yn ystyried argymhellion allweddol gan yr archwilwyr mewnol a’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn, bu’r pwyllgor hefyd yn rhoi sylw manwl i: seiber-ddiogelwch a strategaethau TGCh carchardai a phrawf; pa mor effeithiol yw trefniadau chwythu chwiban HMPPS; effaith y portffolio newid ar waith y busnes ynghyd â fframwaith rheoli risg diwygiedig yr Asiantaeth, gan gynnwys cyflawni adolygiadau tra manwl o risgiau’n ymwneud â grymuso llywodraethwyr, trawsnewid yr ystad garchardai a sefydlu’r Asiantaeth newydd.

Rhoddir manylion llawn am aelodaeth Bwrdd yr Asiantaeth, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a’r Pwyllgor Rheoli Gweithredol, gan gynnwys y cofnodion presenoldeb, yn y Siartiau Presenoldeb ar dudalen 76-77.

Yn 2017-18 rydym wedi cwblhau’r gwaith o ad-drefnu strwythurau’r Asiantaeth a diwygio’r trefniadau llywodraethu. Penodwyd pedwar aelod anweithredol newydd i’r Bwrdd a’r Pwyllgor Archwilio (o fis Mai 2018 ymlaen). Yng ngoleuni’r newidiadau hyn, penderfynwyd gohirio'r adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd tan ail chwarter 2018-19. Rydym wedi parhau i roi gwersi a ddysgwyd o adolygiadau effeithiolrwydd blaenorol i’r gwaith o redeg y Bwrdd a’r Pwyllgor Rheoli Gweithredol.

Roedd Bwrdd yr Asiantaeth yn fodlon bod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle a bod HMPPS yn cydymffurfio â’r rhannau perthnasol o’r canllawiau. Yn 2017-18 cafodd cyfarfodydd y Bwrdd eu cadeirio dros dro gan Ysgrifennydd Parhaol y MoJ tan y cafodd aelodau anweithredol newydd eu penodi. Daeth y broses o benodi’r aelodau anweithredol i ben yn Ebrill 2018 ac, yn y dyfodol, bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cadeirio gan aelod arweiniol anweithredol yn unol â dogfen Fframwaith yr Asiantaeth. Nid oedd gan HMPPS bwyllgor taliadau penodol oherwydd y sgôp cyfyngedig i wneud penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion. Cafodd penderfyniadau ar gyflogau uwch-swyddogion, taliadau a bonysau eu cadarnhau gan Bwyllgor Taliadau'r MoJ.

Roedd y Bwrdd yn fodlon bod y data a dderbyniodd yn foddhaol, amserol a chynhwysfawr a bod trefniadau cadarn yn eu lle i adolygu a gwirio data. Yn ystod y flwyddyn bu’r Archwilwyr Mewnol yn adolygu’r prosesau lleol ar gyfer casglu data ar berfformiad gan roi'r farn bod y mesurau ar gyfer rheoli'r prosesau hyn yn ‘weddol dda’ a bod lle i wella’r prosesau sicrwydd lleol mewn rhai sefydliadau.

**Trefniadau Trosolwg a Sicrwydd**

Mae’r Bwrdd wedi craffu ar:

- Perfformiad
- Rheoli Risg
- Systemau
- Cyfrifon Ariannol

Mae’r Pwyllgor Rheoli Gweithredol wedi cadw trosolwg ar berfformiad HMPPS drwy:

- ddefnyddio’r fframwaith perfformiad, risg a chynllunio i wirio’r cynnydd gyda darparu blaenoriaethau allweddol HMPPS. Mae hyn wedi cynnwys monitro perfformiad yn defnyddio dangosfyrddau perfformiad. Gofynnwyd i’r Pwyllgor Rheoli Gweithredol wneud penderfyniadau pan oedd y perfformiad yn mynd ar gyfeiliorn, yn enwedig os oedd goblygiadau posib i’r ochr darparu gweithredol.
- derbyn adroddiadau’n diweddaru ar y sefyllfa ariannol canol blwyddyn a’r cynnydd diweddaraf gyda’r prif brosiectau a rhaglenni newid. Fe wnaeth benderfyniadau, ar sail trothwyon cytunedig, ar faterion yn codi. Bu’n trafod hefyd y pethau a aeth dros y trothwyon cytunedig (er enghraifft: gorwariant, risgiau sylweddol i ddarparu ayyb).
- cytuno ar drefniadau dirprwyo i gyfarwyddiaethau a'r strwythur llywodraethu i sicrhau bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud gan y bobl iawn yn y lle iawn a hefyd bod Bwrdd yr Asiantaeth yn derbyn y lefel briodol o sicrwydd

Bu’r Bwrdd hefyd yn ystyried gwybodaeth gan ystod o ffynonellau allanol gan gynnwys:

- Prif Arolygydd Prawf EM
- Prif Arolygydd Carchardai EM
- y Byrddau Monitro Annibynnol
- yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Yn ogystal, un o’r prif ffynonellau sicrwydd annibynnol yn HMPPS oedd y gwasanaeth Archwilio Mewnol a ddarperir gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, oedd yn cwrdd â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus. Roedd y rhaglen Archwilio Mewnol wedi’i chysylltu’n agos i’r prif risgiau i HMPPS ac mi fues yn trafod materion newydd yn codi â’r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rheolaidd. Ar sail barn yr Archwilwyr Mewnol traws-llywodraethol, mae’r Pennaeth Archwilio Mewnol, yn ei hadroddiad blynyddol am 2017-18, wedi rhoi barn archwilio flynyddol ‘weddol dda’ am ba mor foddhaol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg yr Asiantaeth. Mae hyn yn welliant ar y farn ‘gyfyngedig’ ar roddwyd yn 2016-17 ac yn adlewyrchu'r gwelliannau i’r mesurau rheoli a hefyd y camau a gymerwyd gennym i fynd i’r afael â’r argymhellion a wnaed gan yr Archwilwyr Mewnol yn 2016-17.

Yn ogystal â’r Archwilwyr Mewnol, mae’r ffynonellau sicrwydd mewnol a ddefnyddiaf yn cynnwys:

- datganiadau sicrwydd blynyddol gan bob un o’r cyfarwyddwyr ynghylch y systemau allweddol y maent yn gyfrifol amdanynt
- swyddogaeth sicrwydd ‘ail linell’, yn adolygu'r ochr weithredol
- cyfarfodydd dwyochrog gyda chyfarwyddwyr anweithredol i drafod unrhyw bryderon ganddynt

- adroddiadau rheolaidd gan reolwyr ar y mesurau y maent yn eu cymryd i reoli risg ym maes eu cyfrifoldeb, gan gynnwys adroddiadau ar gynnydd prosiectau
- trosolwg corfforaethol ar gontractau gwerth uchel a gwaith sicrwydd gweithredol i gadarnhau ansawdd gwasanaethau contractwyr
- adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg
- mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

## Materion o Bwys a Rheoli Risg

### *Cynnydd mewn trais a hunan-niwed*

Mae lefel y trais mewn carchardai'n parhau i fod yn destun pryder mawr, gyda thrais wedi cynyddu'n gyffredinol yn 2017-18. Mae lleihad sylweddol wedi bod yn nifer a chyfradd y marwolaethau hunan-fwriad yn 2017-18 ond mae lefel yr achosion o hunan-niwed ar gynnydd, sy'n parhau i fod yn bryder difrifol.

Cynyddodd nifer yr ymosodiadau ar staff yn y chwarter diwethaf (Hydref – Rhagfyr 2017) i'w lefel uchaf erioed sef 2,327, cynnydd o 5% ar y chwarter blaenorol; gan hefyd gyrraedd ei lefel uchaf erioed o 8,429 yn y 12 mis tan fis Rhagfyr 2017, i fyny 23% ar y flwyddyn cynt. Cafwyd 21,270 o ymosodiadau rhwng carcharorion yn y 12 mis tan fis Rhagfyr 2017 (246 am bob mil o garcharorion), i fyny 11% ar y flwyddyn cynt, y nifer uchaf erioed. Yn y chwarter diwethaf roedd 5,579 o ddigwyddiadau, 2% yn llai na'r cyfnod blaenorol. Cafwyd pum llofruddiaeth yn y 12 mis tan fis Mawrth 2017, cynnydd o ddau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae gennym raglen Ddiogelwch eang sy'n cydgysylltu ein gwaith o fynd i'r afael â thrais, hunan-niwed a marwolaethau hunan-fwriad. Mae'r rhaglen hefyd yn goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Rheoli Troseddwyr Dan Glo a'r gwaith i hyrwyddo diwylliant adsefydlu yn y carchar.

Mae ein ffocws cyntaf wedi bod ar geisio sefydlogi'r system a gwrthdroi'r duedd bresennol drwy nifer o fesurau fydd yn helpu i wneud ein carchardai'n fwy diogel. Mae'r rhain yn cynnwys hwb o £100m i'r rheng flaen drwy benodi 2,500 o swyddogion ychwanegol. Rhwng diwedd Hydref 2016 (y pwynt data agosaf pan wnaed yr ymrwymiad) a diwedd Mawrth 2018, cynyddodd nifer y swyddogion carchar bandiau 3-5 (FTE – cyfwerth ag amser llawn) o 17,955 i 21,041, cynnydd net o 3,086 o swyddogion FTE. Dyma'r nifer uchaf o swyddogion mewn swydd ers diwedd Mai 2013. Mae'r ymgyrch recriwtio'n parhau a bydd yn dal i fynd tan y cyrhaeddwn y lefelau gofynnol ar draws yr ystad garchardai.

Gwyddom fod perthynas dda rhwng staff a charcharorion yn allweddol i wella diogelwch. Dyna pam, fel rhan o gyflwyno'r model Rheoli Troseddwyr Dan Glo (OMiC), yr ydym yn defnyddio ein staff ychwanegol i symud at fodel newydd o weithwyr allweddol fel bod swyddogion yn gallu ymgysylltu, herio a chefnogi llwyth achosion bach o garcharorion. Bydd pob swyddog newydd yn derbyn hyfforddiant gweithiwr allweddol fel rhan o'r cwrs POELT a phob swyddog eisoes mewn swydd yn derbyn hyfforddiant cyn dechrau yn eu rôl gweithiwr allweddol. Rydym yn cyflwyno gweithwyr allweddol ar

draws yr ystad; ar hyn o bryd mae 30 carchar yn darparu sesiynau gweithwyr allweddol i garcharorion.

Mae ein Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd newydd (CSIP) yn fodel rheoli achosion i helpu carchardai i reoli unigolion treisgar neu rai sy’n cyflwyno lefel uwch o drais. I helpu llywodraethwyr a staff carchardai ar draws yr ystad, rydym wedi cynyddu faint o gymorth a roddir i garchardai drwy hybu’r timau diogelwch rhanbarthol i roi cyngor a lledaenu arferion da ar adnabod a chefnogi carcharorion sydd mewn perygl.

Rydym wedi parhau i gyflwyno’r hyfforddiant Ymyriad Pum Munud (FMI) sydd ar gael i bawb sy’n gweithio mewn sefydliad, ac wedi buddsoddi mewn 5,600 o Gamerâu Fideo Arwisg (BWVC) i helpu i amddiffyn ein staff gan weithio’n agos â’r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i erlyn carcharorion sy’n ymosod ar staff. Mae rhaglen sicrwydd sylweddol ar y gweill i asesu ansawdd y gwaith sy’n cael ei wneud i leihau trais a hunan-niwed, gydag archwiliadau mewn cant o sefydliadau i’w cwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2018.

Mae'r pethau sy’n achosi’r twf mewn trais yn gymhleth ond heb os mae camddefnyddio cyffuriau – yn enwedig y cynnydd syfrdanol yn y defnydd o gyffuriau seicoactif mewn carchardai ers 2013 – yn ffactor sylweddol. Gwyddom er enghraifft fod rhai carcharorion yn ceisio talu eu dyledion cyffuriau drwy ymosod ar staff. Mae hyn ar ben y trais sydd fel arfer yn gysylltiedig â delio’n anghyfreithlon mewn cyffuriau ac a gyflawnir gan rai defnyddwyr dan ddylanwad cyffuriau seicoactif. Mae dyled yn ffactor sylweddol mewn trais a hunan-niwed ac rydym wedi datblygu strategaeth i helpu carcharorion i wrthsefyll dyledion a gwella eu rheolaeth ariannol.

Ar ddechrau 2018 sefydlwyd Tasglu Cyffuriau newydd a bellach mae grŵp llywio traws-llywodraethol ar Gyffuriau mewn Carchardai yn ei le’n dod ag arbenigwyr ar ddiogelwch ac iechyd at ei gilydd gyda ffocws i ddechrau ar y 30 carchar sydd â’r problemau cyffuriau gwaethaf. Mae’r buddsoddi parhaus i ateb y bygythiadau hyn yn cynnwys: £3m i sefydlu unedau cudd-wybodaeth cenedlaethol a rhanbarthol newydd sy’n gweithio gyda charchardai a phrawf, a phartneriaid gorfodi’r gyfraith, i gasglu gwybodaeth am droseddwyr sy’n cyflwyno’r bygythiad mwyaf i ddiogelwch mewn carchardai, gan gynnwys troseddwyr cyfundrefnol sy’n cyflenwi cyffuriau; a £8m i chwilio mwy drwy garchardai gan dimau chwilio dynodedig rhanbarthol, gan wella’n sylweddol ar gapasiti sefydliadol HMPPS i darfu ar gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon.

Defnyddiwn ystod o fesurau diogelwch manwl yn erbyn yr economi anghyfreithlon, gan gynnwys gwyliadwraeth, sganwyr corfforol, chwiliadau ar sail cudd-wybodaeth a chŵn canfod, gyda mwy na 300 o gŵn wedi’u hyfforddi’n benodol i ganfod cyffuriau seicoactif. Rydym yn gweithio’n agos â’n partneriaid mewn llywodraeth i greu technoleg gwrth-drôn ac mae tîm arbenigol o ymchwilwyr o’r heddlu a’r gwasanaeth carchardai bellach yn gweithio gyda’i gilydd i rwystro drôns a chanfod y troseddwyr sy’n eu defnyddio. Hyd yma cafwyd o leiaf 28 o ddedfrydau'n ymwneud â defnyddio drôns, gyda’r rhai a gafwyd yn euog yn treulio cyfanswm o dros 80 mlynedd yn y carchar. Yn Rhagfyr 2017 llwyddodd y cydweithio hwn i chwalu gang troseddu cyfundrefnol eang a ddefnyddiai

drôns i smyglo cyffuriau, arfau a ffonau symudol gwerth tua £1.2m i mewn i garchardai ar draws y Deyrnas Unedig.

Er bod cryn dipyn yn llai o farwolaethau hunan-fwriad yn 2017-18, mae lefelau hunan-niwed yn parhau i fod yn destun pryder. Dengys yr ystadegau diweddaraf i gael eu cyhoeddi am y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2017 2% yn llai o achosion hunan-niwed o un chwarter i'r llall, i lawr i 11,790, ond 11% yn fwy yn y 12 mis tan fis Rhagfyr 2017 i 44,651, y nifer fwyaf erioed. Roedd y gyfradd hunan-niwed yn y 12 mis yn 521 am bob mil o garcharorion, sy’n amrywio’n sylweddol yn ôl y rhywiau – 445 am bob mil mewn carchardai i ddynion (i fyny 12% ar y flwyddyn flaenorol) o’i gymharu â 2,093 am bob mil mewn carchardai i ferched (i fyny 8% ar y flwyddyn flaenorol).

Bydd llawer o'r mesurau gwella diogelwch y soniwyd amdanynt eisoes hefyd yn helpu i leihau digwyddiadau hunan-niwed. Mae swyddogion carchar newydd hefyd yn cael eu hyfforddi yn y dulliau diwygiedig a gwell o atal hunanladdiad a hunan-niwed fel rhan o’u hyfforddiant cychwynnol a gyflwynir i staff mewn sefydliadau sy’n cael cyswllt uniongyrchol â charcharorion. Mae’r hyfforddiant yn cynnwys chwe modiwl yn cynnwys adnabod risg a sbardunau risg; ynghyd â hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl, i helpu i wella hyder a sgiliau staff yn helpu carcharorion mewn trallod. Rydym yn diwygio’r dogfennau ar Asesu, Gofal yn y Carchardai a Gwaith Tîm (ACCT) i’w gwneud yn haws i’w defnyddio ac i egluro a chadarnhau pa mor hyblyg yw’r broses ACCT gyda’i haddasu i anghenion gwahanol garcharorion.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â’n prif randdeiliaid, gan gynnwys NHS England, Public Health England, awdurdodau lleol a chyrff trydydd sector, yn cefnogi anghenion carcharorion agored i niwed. Er enghraifft, rydym wedi rhoi grant o £500,000 i’r Samariaid ym mhob un o’r ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi’r cynllun *Listeners* (carcharorion gwirfoddol a hyfforddir gan y Samariaid) ac mae cyllid am dair blynedd arall hefyd wedi’i gytuno. Rydym wedi rhoi £150,000 ychwanegol yn 2017-18 i ariannu nifer o brosiectau eraill gan gynnwys offeryn dysgu i staff a hyfforddiant gwydnwch emosiynol i garcharorion ar ddechrau eu hamser dan glo.

***Poblogaeth***

Yn 2017 aeth y boblogaeth i fyny o tua 1,300 rhwng Mai ac Awst. Ar ei huchaf, roedd y boblogaeth 1,600 yn fwy na’r hyn oedd wedi’i ragweld. Dros y cyfnod hwn roedd angen defnyddio lle wrth gefn ar draws yr ystad, gan gynnwys gohirio cau CEM Rochester a CEM Hindley i sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti. Cafodd yr effaith ei chynnwys ond gwaethygwyd y sefyllfa'n dilyn diffyg disgyblaeth ar ran carcharorion fel bod angen tynnu rhai llefydd allan o ddefnydd; roedd hefyd angen lleihau capasiti gweithredol mewn rhai carchardai i sicrhau sefydlogrwydd ynghyd â cholli capasiti er mwyn datrys problemau amodau byw, gan gynnwys gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ac uwchraddio systemau diogelwch tân.

Mae’r pwysau hyn wedi ysgafnu ar ddechrau 2018, yn bennaf oherwydd effaith y perfformiad gwell gyda phrosesu ceisiadau Cyrffyw Cadw yn y Cartref i gefnogi ailsefydlu ac adsefydlu effeithiol ar ôl dod allan. O’r herwydd, ni ddigwyddodd y cynnydd

disgwyliedig yn y boblogaeth yn rhan gyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd y pwysau ar lefydd yn parhau oherwydd bydd rhai celloedd efallai wedi cael eu tynnu allan o ddefnydd oherwydd y dirywiad pellach yn strwythur rhai rhannau o'r ystad ynghyd â mwy o drais wrth i garcharorion wneud difrod i'w celloedd. Mae gan hyn y potensial nid yn unig i effeithio ar y capasiti i ddal carcharorion, bydd hefyd angen buddsoddiad sylweddol.

Gwyddom fod yr ystad bresennol yn orlawn, bod rhannau ohoni wedi dyddio a rhai carcharorion yn cael eu dal mewn carchardai nad ydynt yn cwrdd orau â'u hanghenion. Drwy raglen Trawsnewid yr Ystad Garchardai rydym yn gweithio i gael y pethau sylfaenol yn iawn drwy adeiladu carchardai gweddus i wella adsefydlu a chreu amgylchedd diogel a di-risg i staff a throseddwyr fel ei gilydd. Roedd maniffesto'r llywodraeth yn ymrwymo i greu hyd at 10,000 o lefydd carchar newydd gan ddarparu'r amodau fel bod llywodraethwyr yn gallu sicrhau canlyniadau adsefydlu gwell. Ers hynny mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi cynlluniau, yn amodol ar ganiatadau cynllunio, gwerth am arian a fforddiadwyedd, i adeiladu chwe charchar modern. Yn ogystal ag adeiladu carchardai newydd, rydym yn ailwampio'r ystad bresennol fel bod carcharorion yn cael eu dal yn y lle iawn ar yr amser iawn ar eu siwrne ac er mwyn gallu rheoli'r boblogaeth garchardai'n fwy effeithiol.

***Amodau Byw***

Yn 2017-18 daeth amodau byw, a'r gwasanaethau rheoli cyfleusterau cysylltiedig, mewn carchardai'n destun pryder cynyddol. Roedd yr adroddiad HMIP thematig ar amodau byw a'r adroddiad HMIP dilynol ar CEM Lerpwl yn tynnu sylw at bryderon sylweddol ynghylch ansawdd peth o'r llety sy'n parhau i gael ei ddefnyddio. Roedd yr adroddiad thematig yn gwneud nifer o argymhellion ar orlenwi / maint celloedd, cynnal a chadw, glanweithdra ac amser allan o'r gell. Gwaethygwyd y feirniadaeth hon gan bryderon am y gwasanaethau rheoli cyfleusterau mewn carchardai, yn enwedig i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd, ac ymatebol, yn cael ei wneud yn brydlon ac i safon foddhaol, fel bod celloedd sy'n cael eu tynnu allan o ddefnydd naill ai oherwydd difrod, fandaliaeth neu i wneud gwaith trwsio rheolaidd, yn cael eu defnyddio mor fuan â phosib unwaith eto. Gwaethygwyd y pryder hwn ymhellach gan y lefelau cynyddol o fandaliaeth, a hefyd gan y twf yn y boblogaeth, gan olygu ein bod yn gynyddol yn gorfod gohirio gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd, ail-agor llety a gohirio cau llety mewn ymateb i bwysau ar y system.

Nid yw'n dderbyniol cadw carcharorion mewn celloedd nad ydynt i fyny i'r safon. Felly mewn ymateb i'r adroddiad ar CEM Lerpwl, penderfynwyd lleihau'r capasiti o 404 o lefydd, cyflwyno trefniadau archwilio celloedd newydd a sefydlu partïon ychwanegol o garcharorion glanhau i ateb y problemau hyn. Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, rhoesom waith yn ei le i ddatrys y pryderon am reoli cyfleusterau'n systematig. Ynghyd â chryfhau'r broses rheoli contractau, mae gan y gwaith hwn bedair elfen:

- **Cynnal Gwasanaethau** – parhau i gyflenwi gwasanaethau
- **Cydymffurfio** - sicrhau cydymffurfio ag ymrwymiadau arolygu a chynnal a chadw statudol a gorfodol

- **Gwella Safleoedd Blaenoriaeth** – ffocws ar safleoedd blaenoriaeth lle mae angen gwaith cynnal a chadw brys ar gelloedd ac ardaloedd cymunedol
- **Gweledigaeth y Dyfodol** – datblygu gweledigaeth i'r dyfodol ar ddarparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau

Rydym hefyd yn sicrhau bod ein system yn canolbwyntio ar gael y pethau sylfaenol yn iawn mewn carchardai gan sicrhau, drwy'r strwythurau rheoli newydd ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Garchardai, bod mwy o 'afael gweithredol', rheolaeth a throsolwg. Rydym bellach wedi gorffen recriwtio'r tri chyfarwyddwr gweithredol newydd ac mae strwythurau newydd y cyfarwyddwyr grŵp carchardai yn eu lle ar draws Cymru a Lloegr.

***Carillion***

Yn Ionawr 2018 cafodd Carillion plc ei ddiddymu'n orfodol. Roedd ei isgwmni, Carillion (AMBS) Ltd, yn darparu gwasanaethau rheoli cyfleusterau (FM) i 52 o garchardai yn ne Lloegr. I sicrhau parhad y gwasanaeth, trefnwyd bod Carillion (AMBS) Ltd, yn gweithredu drwy'r Derbynnydd Swyddogol, yn parhau i ddarparu gwasanaethau FM tra bod y MoJ yn rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith. Mae Gov Facility Services Limited (GFSL), un o gwmnïau'r llywodraeth a noddir gan y MoJ, wedi cymryd drosodd y cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaethau FM a ddarparwyd gan Carillion (AMBS) Limited. Llwyddwyd i drosglwyddo'r cyfrifoldebau'n effeithiol a tharfu cyn lleied â phosib ar wasanaethau. Mae tîm Rheoli Gwasanaethau Cenedlaethol HMPPS yn parhau i reoli ochr lefel gwasanaeth y cytundeb rhwng MoJ/HMPPS a GFSL, yn enwedig i wella perfformiad a sicrhau bod y gwasanaethau FM i garchardai'n cwrdd â'r safonau gofynnol.

***Recriwtio a Chadw Staff***

Rydym wedi parhau i ennill tir gyda recriwtio swyddogion carchar ond mae'n anodd o hyd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig Llundain a'r de-ddwyrain lle mae'r gystadleuaeth fwyaf yn y farchnad lafur. Rydym wedi gweithredu i ymateb i hyn drwy dargedu ymgyrchoedd recriwtio at garchardai unigol a grwpiau o garchardai yn yr ardal hon. Mae'r ymateb i'r recriwtio pwrpasol hwn wedi arwain at welliannau sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr yr ydym wedi eu denu. Mae llawer o'r ymgeiswyr hyn wedi llwyddo i gyflawni eu hyfforddiant ar draws nifer o'r safleoedd hyn gyda nifer gynyddol yna'n mynd ymlaen i gwblhau eu hyfforddiant ac ymuno â'r timau yn y carchardai.

Mae taliadau recriwtio a gytunwyd gan Gorff Adolygu Cyflogau'r Gwasanaeth Carchardai yn parhau i gael eu talu ar gyfer safleoedd 'anodd recriwtio iddynt'. Bydd yr ymdrechion recriwtio'n parhau hyd nes y byddwn wedi recriwtio digon o staff i ddarparu'r lefelau Rheoli Troseddwyr Dan Glo gofynnol ac wedi llenwi swyddi gwag ar draws yr ystad. O'r blaen, roedd nifer sylweddol wedi bod yn nifer y swyddogion oedd yn gadael y gwasanaeth. Effeithiodd hyn ar yr ymdrechion recriwtio yn 2016 a dim ond prin gallu ymateb i drosiant staff yr oeddem. I'r gwrthwyneb yn 2017-18, mae cadw staff wedi sefydlogi. O ganlyniad roeddem wedi ennill 3,086 o swyddogion bandiau 3-5 erbyn diwedd Mawrth 2018 ers diwedd Hydref 2016, gyda llawer mwy ar fin dechrau ar eu hyfforddiant yn y misoedd i ddod. Yn anochel mae hyn yn golygu y bydd angen newid y ffocws i sicrhau bod staff newydd wedi'u gwreiddio'n effeithiol mewn sefydliadau. Bydd

felly angen i sefydliadau ddarparu cymorth drwy reolaeth llinell a mentora’r staff newydd i’w helpu i ennill mwy o brofiad gweithredol. Mae cadw staff yn parhau i fod yn broblem mewn sawl lle fodd bynnag, am resymau sy'n gymhleth ac yn amrywio o un carchar i'r llall. Rydym yn gweithio i gefnogi’r carchardai hynny sydd â’r lefelau gadael uchaf ac wedi creu pecyn cymorth a thargedu adnoddau i gefnogi safleoedd lle mae heriau penodol.

Mae llwyth achos y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn trymhau o hyd, gan gynyddu o 21% ers Ionawr 2015, gan gynnwys cynnydd o 11% mewn troseddwyr ar drwydded. Mae hyn, ynghyd â’r newidiadau i’r model gweithredu, wedi creu bylchau mawr mewn adnoddau mewn rhannau o’r wlad. Mae’r bylchau hyn yn golygu bod gan staff lwythi achosion trymach ac yn gorddibynnu ar staff asiantaeth. Ac mae cynlluniau i gynyddu nifer y swyddogion gwasanaeth prawf a swyddogion prawf yn parhau i fod yn her. Y llynedd, cafodd 84 o swyddogion prawf eu penodi drwy’r rhaglen Cymhwyster Prawf Proffesiynol (cafodd yr ymgeiswyr hyn eu hyfforddi i ddod yn swyddogion prawf cymwysedig) a 75 o swyddogion prawf eu recriwtio. Rydym hefyd wedi rhedeg ymgyrchoedd cenedlaethol gan recriwtio 476 o swyddogion prawf a 437 o swyddogion gwasanaeth prawf dan hyfforddiant.

I adeiladu ar hyn, bydd ein hymdrechion recriwtio’n parhau yn y flwyddyn i ddod. Rydym wedi ehangu’r gofynion mynediad ar gyfer y Cymhwyster Prawf Proffesiynol i apelio at fwy o amrywiaeth o ymgeiswyr. Y nod yw recriwtio 650 o swyddogion prawf dan hyfforddiant eraill a 600 o swyddogion gwasanaeth prawf eraill yn y flwyddyn nesaf. I ateb yr her gyda recriwtio staff (swyddogion prawf dan hyfforddiant, swyddogion prawf ac uwch-swyddogion prawf) mewn rhai ardaloedd, yn enwedig yn y de-ddwyrain a Dyffryn Afon Tafwys yn Lloegr, rydym wedi parhau i gynnig taliadau recriwtio. Er y pwysau hyn, mae perfformiad y gwasanaethau craidd wedi bod yn gadarn yn y flwyddyn a aeth heibio.

***Y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol***

Mae nifer yr achosion sy’n cael eu dyrannu i gwmnïau CRC a maint y gwaith sy’n deillio o ddedfrydau a orfodir gan y llysoedd yn sylweddol is na’r disgwyl. Mae hyn wedi effeithio ar refeniw’r cwmnïau CRC gan danseilio eu gallu i fuddsoddi mewn arloesi gwasanaethau. Mae hyn yn erbyn cyd-destun lle mae llwyth gwaith cyffredinol y cwmnïau hyn wedi cynyddu ar ôl derbyn y gwaith o oruchwylio troseddwyr a ddedfrydwyd i lai na 12 mis dan glo ar ôl eu rhyddhau.

Yn dilyn canfyddiadau’r Adolygiad Systemau Prawf, ym Mai 2017 cyhoeddwyd ein bwriad i addasu’r contractau CRC yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Yn haf 2017, cafodd contractau’r cwmnïau eu diwygio fel bod y taliadau’n adlewyrchu eu costau’n fwy cywir, ac fel y gallent wella eu darpariaeth. Nodir manylion y newidiadau hyn mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig yng Ngorffennaf 2017.

Mae’r amrywiadau yn y contractau CRC wedi parhau i gael eu craffu’n allanol. Mae’r NAO wedi gwneud ymchwiliad i’r newidiadau i’r contractau CRC a ddisgrifir uchod. Mae adroddiad y NAO, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2017, yn cyflwyno’r ffeithiau’n glir o ran

pam a sut yr addaswyd y contractau ynghyd â goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill yr addasiadau. Yn Ionawr 2018 cefais i ac Ysgrifennydd Parhaol y MoJ ein galw gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i roi tystiolaeth yn ymwneud ag amrywiadau yn y contractau CRC.

Mae cyfran helaeth o amcan-incwm y cwmnïau CRC wedi'i gysylltu i berfformiad ar aildroseddu. Mae'r elfen Talu ar sail Canlyniadau yma'n cael ei thalu ar sail llwyddiant y darparwyr i leihau'r gyfran sy'n aildroseddu (mesur dwyran), ac o'r rhai sy'n aildroseddu, nifer y troseddau a gyflawnir ganddynt (mesur amledd). Mae'r cwmnïau CRC wedi llwyddo i leihau'r gyfran o droseddwyr sy'n aildroseddu o dros 2 pwynt canran. Ond mae cyfradd amledd yr aildroseddu i fyny gan 19 allan o'r 21 cwmni CRC (ar sail data Ionawr). Rydym yn parhau i weithio â'r darparwyr i ddeall y rhesymau am y gwahaniaeth hwn mewn perfformiad a pha gamau pellach i'w cymryd i wella'r perfformiad gweithredol.

Mae gennym dimau rheoli contractau penodol sy'n monitro cydymffurfio â chontractau'n drylwyr ar lefel leol i sicrhau bod darparwyr yn cyflawni eu hymrwymiadau cytundebol i ddarparu gwasanaethau sy'n lleihau aildroseddu, amddiffyn y cyhoedd a rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae perfformiad yn erbyn lefelau gwasanaeth wedi gwella yn ystod y flwyddyn, ond yn ôl y data a gyhoeddwyd nid yw rhai o'r cwmnïau CRC yn cwrdd â'r targedau eto. Lle mae darparwyr yn colli targed, cymerwn ystod o gamau fel bo angen; gan gynnwys cynlluniau gwella, credydau gwasanaeth ac olrhain gweithrediad y camau'n agos er mwyn gwella perfformiad. Er hynny rydym yn cydnabod nad yw targedau perfformiad contractau'n mesur ansawdd gwaith darparwr yn aml, a dyna pam fod gwahaniaeth rhwng metrigau perfformiad mewnol a chanfyddiadau'r Arolygiaeth Prawf mewn arolygiadau ardaloedd unigol a thematig. Rydym wedi cefnogi'r Arolygiaeth Prawf i gryfhau ei threfniadau trosolwg ar gyfer arolygu gwasanaethau prawf o fis Ebrill 2018 er mwyn cryfhau'r craffu a'r tryloywder.

***Cyd-wasanaethau***

Yn Ionawr 2017, symudodd HMPPS ei wasanaethau AD, cyllid, cyflogres a chaffael o lwyfan Phoenix i system TG newydd o'r enw'r Llwyfan Gweithredu Sengl (SOP). Mae'r system yn rhan o Strategaeth Cyd-wasanaethau cenhedlaeth nesaf Swyddfa'r Cabinet sy'n cyflwyno model newydd o rannu swyddogaethau AD, caffael, cyllid a chyflogres ac yn cyfuno ffyrdd o weithio ar draws llywodraeth. Ers ei gweithredu, cafwyd rhai problemau gyda deall cymhlethdod polisïau Adnoddau Dynol a chyflogres HMPPS. Roedd hyn yn cynnwys gwall wrth gyfrifo cyfraniadau pensiwn ar gyfer staff y NPS ond cafodd ei nodi a'i ddatrys yn ystod y flwyddyn. Ac ar ben hyn, mae gwasanaethau recriwtio, cyn-gyflogi a fetio wedi bod dan gryn straen oherwydd nifer y ceisiadau'n deillio o raglenni'r llywodraeth.

Mae HMPPS, y MoJ a chymuned AD ehangach y Gwasanaeth Sifil yn gweithio i ddatrys y problemau hyn ac wedi sefydlu rhaglen gwelliannau cyflogres. O ganlyniad, tuag at ddiwedd y flwyddyn roedd cywirdeb y gyflogres wedi gwella. Gwnaed gwelliannau effeithlonrwydd i'r system recriwtio gan gynnwys gwiriadau hanes cyflogaeth HMRC yn lle geirdaon ysgrifenedig. Mae lefel yr achosion 'ar ganol eu prosesu' wedi lleihau'n

sylweddol, er bod angen mwy o gyd-ymdrech i'w lleihau ymhellach a chyflymu'r amser cyn penodi. Rydym hefyd yn gweithio'n agos â gweinyddwyr cynllun Cronfa Bensiwn Manceinion Fwyaf i gywiro problemau gyda chyfrifo pensiynau a Datganiadau Buddion Blynyddol.

Mae HMPPS wedi ymrwymo i wneud gwelliannau pellach a gweithio i sicrhau canlyniadau gwell drwy gefnogi'r genhedlaeth nesaf o atebion yn unol ag egwyddorion strategaeth Cyd-wasanaethau Swyddfa'r Cabinet yn y dyfodol o wella profiad y defnyddiwr, symud at strwythurau a phrosesau data cyffredin ac ystyried technoleg Cwmwl y dyfodol.

***Sicrwydd Gwybodaeth (IA)***

Mae HMPPS wedi ymrwymo i ddiogelu a rheoli gwybodaeth yn effeithiol ac yn effro i'r risgiau'n ymwneud ag asedau gwybodaeth. Ni chafodd unrhyw ddigwyddiad ei hunan-adrodd gan dîm Diogelu a Rheoli Gwybodaeth HMPPS i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

Yn 2017-18, bu'r tîm yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn HMPPS, y NPS a'r MoJ a gyda darparwyr gwasanaethau contract i ddiweddaru polisïau IA HMPPS. Mae'r Polisi Rheoli a Chadw Gwybodaeth a Chofnodion newydd yn cyfuno tri pholisi rheoli cofnodion blaenorol ac yn sicrhau bod HMPPS a'i randdeiliaid yn trin a thrafod gwybodaeth yn briodol ac mewn ffordd gyson.

Cymrodd y tîm, ar ran yr Asiantaeth, y camau canlynol hefyd i wella'r trefniadau IA drwy:

- parhau i gefnogi llywodraethu gwybodaeth yn y pencadlys a'r NPS
- darparu arbenigedd i brosiectau sylweddol a phob cais TG, gan gynnwys hunan-asesu, holiaduron sicrwydd gwybodaeth, llinellau band-eang cymeradwy a cheisiadau am fynediad i'r Rhyngrwyd
- parhau i gryfhau mesurau rhannu gwybodaeth HMPPS gyda chytundebau priodol
- cefnogi IA yn Stiwdio Digidol HMPPS a Charchar(dai) Digidol HMPPS yn ogystal â darparu hyfforddiant IA ar draws y busnes. Mae angen i holl staff HMPPS a chyflenwyr trydydd parti, gan gynnwys staff a gyflogir yn anuniongyrchol, gyflawni hyfforddiant IA blynyddol
- cwblhau'r archwiliad Llywodraethu Diogelwch Blynyddol a chefnogi'r broses o gwblhau datganiadau cydymffurfio IA HMPPS

Yn y flwyddyn i ddod, bydd HMPPS yn parhau i wella IA drwy:

- cyhoeddi Polisi Diogelwch TG wedi'i ddiweddaru, i sicrhau cydymffurfio ar draws carchardai, y NPS a Phencadlys HMPPS
- parhau i weithio i sicrhau cydymffurfio â'r rheoliadau diogelu data newydd sydd ar fin eu cyhoeddi, gan gynnwys creu gweithgor traws-gyfarwyddiaeth

- sicrhau bod HMPPS yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith
- parhau i weithredu gwasanaeth rheoli digwyddiadau IA rhagweithiol ar draws HMPPS
- cynyddu ymwybyddiaeth o ddiogelwch IA ar draws y busnes drwy uwchsgilio rheolwyr cymorth 'wrth y ddesg' lleol i gyflawni archwiliadau cydymffurfio sy'n orfodol o dan y polisi, ac adrodd ar wendidau i'r canol

**Digwyddiadau data personol**
Cafodd dau ddigwyddiad data personol o bwys eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn 2017-18.

| Mis y digwyddiad | Natur y digwyddiad | Natur y data dan sylw | Nifer y bobl a allai fod wedi cael eu heffeithio | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|---|
| **Hydref 2017** | Oherwydd diffyg lle cyfarfod preifat mewn Neuadd y Dref, cynhaliwyd apwyntiadau â Defnyddwyr Gwasanaeth mewn mannau cyhoeddus yn y Neuadd ac o ganlyniad, roedd tystion a phobl efallai wedi digwydd clywed. Hysbyswyd yr AS lleol a'r cyfryngau cenedlaethol – papur newydd y Guardian. | Trafod amgylchiadau personol yn llafar rhwng y Rheolwr Troseddwyr a'r Defnyddiwr Gwasanaeth. | Nifer amhenodol o Ddefnyddwyr Gwasanaeth dros gyfnod o 6-9 mis. | Fe wnaeth y CRC hunan-adrodd i'r ICO fel mesur rhagofalus a rhagweithiol. Ni chymrodd yr ICO unrhyw gamau. Achosion wedi eu hail-ddyrannu i safle arall (swyddfa NPS/CRC bwrpasol). |
| **Hydref 2017** | Aelod o'r cyhoedd wedi darganfod llythyrau hysbysu Amddiffyn Plant (22 dalen), a storiwyd gan y NPS, yn y stryd ac wedi eu rhoi i asiantaeth newyddion leol. Yr achos tebygol oedd bod y wybodaeth wedi'i storio mewn dodrefnyn segur wrth adael adeilad swyddfa. | Enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn. Enwau a chyfeiriadau oedolion. Dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd Amddiffyn Plant. | Hyd at 22 o unedau teuluol yn cynnwys gwybodaeth a allai adnabod plant a rhieni. | Ymchwiliad trylwyr wedi'i gyflawni. Y papur newydd lleol wedi cyhoeddi erthygl ar y darganfyddiad. ICO wedi dod i wybod am yr erthygl ac wedi cysylltu â'r NPS ond heb ofyn yn ffurfiol am y manylion. |

***Trefniadau Chwythu'r Chwiban***

Mae gan HMPPS bolisi yn ei le ar gyfer adrodd camweithredu, gyda nifer o lwybrau y gall staff eu dilyn i godi pryderon yn briodol am gamweithredu neu gamymddwyn posib yn y gwaith. Bydd unrhyw aelod o staff sy'n codi pryder, yn gwbl ffyddiog, am gamweithredu y maent yn credu'n rhesymol ei fod yn wir, yn cael eu gwarchod rhag unrhyw fath o wahaniaethu neu fictimeiddio'n deillio o'r honiad. Mae'r polisi ar adrodd camweithredu'n gadael i staff ffonio'r llinell adrodd camweithredu neu gysylltu ag un o nifer o uwch-swyddogion enwebedig heb fod o fewn y llinell reoli arferol, mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw staff yn teimlo y medrant godi pryderon â'u rheolwr llinell (neu rywun uwch yn y llinell reoli) neu os nad yw'n briodol codi'r mater â'r rheolwyr llinell.

Mae'r polisi'n rhoi manylion i staff am ffynonellau cyngor a chefnogaeth fel yr undebau llafur, cymorth yn y gweithle neu rwydweithiau staff a Chomisiwn y Gwasanaeth Sifil. Ni dderbyniodd HMPPS unrhyw achos a atgyfeiriwyd at swyddogion enwebedig, oedd yn bodloni'r meini prawf, dros y cyfnod adrodd dan sylw. Mewn carchardai, gellir hefyd codi pryderon â rheolwyr atal llygredd lleol.

Mae canlyniadau'r Arolwg Pobl yn fesur o ba mor effeithiol yw'r polisi adrodd camweithredu. Gofynnir i staff ateb cwestiynau sy'n cynnwys eu hymwybyddiaeth o sut i godi pryder a'u hyder yn y broses ymchwilio. Mae cymharu'r data o arolwg 2017 a'r arolwg blaenorol yn 2016 yn awgrymu, at ei gilydd, bod mymryn o leihad wedi bod mewn ymwybyddiaeth ond yr un lefel o hyder. Bydd HMPPS yn parhau i fonitro'r atebion yn flynyddol.

## Siartiau Presenoldeb

| Enw | Rôl | Pwyllgor Rheoli Gweithredol | Bwrdd yr Asiantaeth |
|---|---|---|---|
| | Aelodau Craidd | | |
| **Richard Heaton** | Cadeirydd (Dros dro o 19 Gorff 2017) – Ysgrifennydd Parhaol y MoJ | Amh. | 3 o 4 |
| **Alan Hammill** | Cyfarwyddwr Anweithredol | Amh. | 4 o 5 |
| **Paul Wilson** | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 2 Chwe 2018) | Amh. | 4 o 5 |
| **Michael Spurr** | Prif Swyddog Gweithredol HMPPS | 27 o 29 | 5 o 5 |
| **Phil Copple** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai | 24 o 29 | 4 o 5 |
| **Andrew Emmett** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid | 22 o 29 | 4 o 5 |
| **Martin Beecroft** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol | 25 o 29 | 4 o 5 |
| **Claudia Sturt** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth | 21 o 29 | 4 o 5 |
| **Digby Griffith** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd | 27 o 29 | 4 o 5 |
| **Sonia Crozier** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched | 20 o 29 | 2 o 5 |
| **Jim Barton** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol (Dros Dro) (rhwng 1 Ebrill 2017 a 4 Hydref 2017) | 8 o 14 | 3 o 3 |
| **Ian Porée** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol (o 5 Hydref 2017) | 15 o 15 | 2 o 2 |
| **Bryan Clark** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol (tan 19 Mawrth 2018) | 22 o 29 | 5 o 5 |
| **Sara Robinson** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (Dros Dro) (rhwng 1 Ebrill 2017 a 8 Hydref 2017) ac (o 12 Mawrth 2018) | 11 o 16 | 2 o 3 |
| **Mark Read** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Bontio Carcharu'r Ifanc (rhwng 1 Ebrill 2017 a 8 Hydref 2017) | 9 o 15 | 2 o 2 |
| | Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (rhwng 9 Hydref 2017 a 8 Ebrill 2018) | 13 o 14 | 2 o 3 |
| **Simon Boddis** | Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru (Dros Dro) a PETP (rhwng 1 Ebrill 2017 a 23 Gorffennaf 2017) | 7 o 8 | 1 o 1 |
| | Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Trawsnewid yr Ystad Garchardai (o 24 Gorffennaf 2017) | 17 o 21 | 3 o 4 |
| **Amy Rees** | Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru (o 24 Gorffennaf 2017) | 18 o 21 | 2 o 3 |
| **Adrian Scott** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig / Caffael y Rhaglen | 6 o 29 | 0 o 5 |
| | **Aelodau Cyswllt*** | | |
| **Natasha Trasi** | Dirprwy Gyfarwyddwr Dros Dro'r MoJ ar gyfer Gwasanaethau Dadansoddi Carchardai a Phrawf (rhwng 1 Ebrill 2017 a 22 Mehefin 2017) | 1 o 5 | 1 o 1 |
| **Jonny Hughes** | Dirprwy Gyfarwyddwr y MoJ ar gyfer Gwasanaethau Dadansoddi Carchardai a Phrawf (o 26 Mehefin 2017) | 2 o 24 | 2 o 4 |
| **Kate Ellis** | Cyfarwyddwr Masnachol y MoJ (tan 26 Hydref) | 1 o 17 | 0 o 3 |
| **Jim Rawlings** | Cyfarwyddwr Masnachol y MoJ (o 30 Hydref) | 1 o 12 | 0 o 2 |
| **Justin Russell** | Cyfarwyddwr Cyffredinol y MoJ, Grŵp Comisiynu a Diwygio Troseddwyr | Amh. | 2 o 5 |
| **Tom Read** | Prif Swyddog Digidol a Gwybodaeth y MoJ | Amh. | 0 o 1 |

| Enw | Rôl | Pwyllgor Rheoli Gweithredol | Bwrdd yr Asiantaeth |
|---|---|---|---|
| **Michelle Jarman-Howe** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (De) | 0 o 29 | Amh. |
| **Alan Scott** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai Cyhoeddus (Gogledd) | 1 o 29 | Amh. |
| **Richard Vince** | Cyfarwyddwr Gweithredol, Uwch-Ddiogelwch Hirdymor | 0 o 29 | Amh. |
| **Ian Blakeman** | Swyddog Arweiniol Cenedlaethol Strategaeth Gyffuriau HMPPS (o 11 Rhagfyr 2017) | 1 o 7 | Amh. |
| | **Hefyd yn bresennol:** | | |
| **Lisa Appleyard** | Pennaeth Cyfathrebu HMPPS | 7 o 29 | Amh. |
| **Nick Fussell** | Cyfarwyddwr Cyfreithiol y MoJ | 16 o 29 | 5 o 5 |
| **Sarah McKnight** | Pennaeth y Swyddfa Rheoli Gweithredol | 10 o 29 | 2 o 5 |

* Nid yw'r aelodau cyswllt (swyddogaethau cymorth) yn gallu pleidleisio fel aelodau o Fwrdd Asiantaeth / Pwyllgor Rheoli Gweithredol HMPPS ac nid oes ganddynt awdurdod na chyfrifoldeb i reoli na chyfarwyddo prif weithgareddau'r Bwrdd / Pwyllgor Rheoli Gweithredol yn ystod y flwyddyn. Gwahoddir hwynt i fynychu ar gyfer eitemau penodol sy'n berthnasol i'w maes arbenigol.

## ARAC

| Enw | Rôl | |
|---|---|---|
| Alan Hammill | Cadeirydd / Cyfarwyddwr Anweithredol | 4 o 4 |
| Paul Wilson | Cyfarwyddwr Anweithredol (tan 2 Chwe 2018) | 2 o 3 |
| ***Hefyd yn bresennol*** | | |
| Michael Spurr | Prif Swyddog Gweithredol (CEO) | 4 o 4 |
| Andrew Emmett | Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid | 3 o 4 |
| Ted Kirby | Pennaeth Rheoli a Rheolaeth Ariannol (tan 30 Mehefin 2017) | 1 o 1 |
| Ann Owen | Pennaeth Rheoli a Rheolaeth Ariannol (o 17 Gorff. 2017) | 2 o 3 |
| Linda Costello | Prif Archwilydd Mewnol y GIAA, Grŵp MoJ | 2 o 4 |
| Liam Orme | Pennaeth Gweithgareddau Archwilio y GIAA, HMPPS | 4 o 4 |
| Steven Corbishley | Cyfarwyddwr, Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 3 o 4 |
| Oliver Lodge | Cyfarwyddwr, Swyddfa Archwilio Genedlaethol | 4 o 4 |

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) i baratoi datganiad cyfrifon am bob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi barn deg a gwir o gyflwr busnes HMPPS, ei incwm a'i wariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn enwedig:

- rhaid talu sylw i'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgan perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas gyda chysondeb
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn gan ddatgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes hyfyw
- cadarnhau bod yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy ac yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r dyfarniadau sydd angen eu gwneud i benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dynodi Prif Swyddog Gweithredol HMPPS yn Swyddog Cyfrifyddu.

Nodir y cyfrifoldebau sydd gan Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau HMPPS, yn *Managing Public Money* a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr HMPPS yn gwybod am y wybodaeth honno. Cyn belled ag y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr yr archwilwyr amdani.

# Adroddiad Taliadau a Staff

## Polisi Taliadau

Y Prif Weinidog sy’n penderfynu ar gyflogau uwch weision sifil ar ôl derbyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth wneud ei argymhellion, mae’r Corff Adolygu wedi ystyried y pethau canlynol:

- bod angen recriwtio, cadw ac ysgogi pobl addas o ran cymhwyster a gallu i ymarfer eu gwahanol gyfrifoldebau
- yr amrywiadau rhanbarthol / lleol mewn marchnadoedd llafur a’u heffaith ar recriwtio a chadw staff
- polisïau’r llywodraeth ar wella gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys bod angen i adrannau gwrdd â thargedau allbwn o ran darparu gwasanaethau adrannol
- yr arian sydd ar gael i adrannau yn unol ag uchafswm gwariant adrannol y Llywodraeth
- targed chwyddiant y Llywodraeth

Mae’r Corff Adolygu’n ystyried y dystiolaeth a roddir iddo yng nghyswllt yr ystyriaethau economaidd ehangach a pha mor fforddiadwy yw ei argymhellion.

Mae mwy o fanylion am waith y Corff Adolygu ar gael yn:
https://www.gov.uk/government/organisations/review-body-on-senior-salaries

## Contractau Gwasanaeth

O dan Ddeddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010, mae’n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae’r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir penodi fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion a drafodir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau pen-agored. Byddai terfynu’n fuan, ac eithrio ar gyfer camymddwyn, yn golygu y byddai’r unigolyn yn derbyn iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Am fwy o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil ewch i:
https://www.civilservicecommission.org.uk/

# Taliadau

Mae’r tablau yn yr adroddiad taliadau hwn wedi cael eu harchwilio a chyfeirir atynt yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ’r Cyffredin.

Mae’r adrannau canlynol yn rhoi manylion am fuddion pensiwn a thaliadau uwch-reolwyr (sef Aelodau Craidd y Bwrdd) HMPPS.

**Cyflog**
Mae ‘cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth, goramser, hawliau a gadwyd i dderbyn lwfansau Llundain neu bwysoliad Llundain, lwfansau recriwtio a chadw staff, ac unrhyw lwfansau eraill sy’n agored i’w trethu yn y DU. Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau wedi cronni a wnaed gan HMPPS ac a gofnodir yn y cyfrifon hyn.

**Buddion Trethadwy**
Mae buddion trethadwy’n cynnwys unrhyw fuddion mewn nwyddau, a buddion arian parod trethadwy. Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau'n cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan HMPPS ac sy’n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy. Mae buddion cydnabyddedig yn ymwneud â theithio a chynhaliaeth. Amcan yw'r buddion mewn nwyddau, oherwydd bydd eu gwerth terfynol yn cael ei gytuno rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a Chyllid a Thollau EM.

**Bonysau**
Pwyllgorau Cyflogau SCS y MoJ sy'n penderfynu ar fonysau i gyfarwyddwyr – wedi eu cadeirio gan Ysgrifennydd Parhaol y MoJ ar gyfer cyflogau SCS band 1 a band 2. Drwy weithio o fewn paramedrau penodol ar reoli cyflogau uwch-swyddogion, gellir ond rhoi bonws i rywun os ydynt wedi rhagori ar o leiaf un amcan ariannol ac effeithlonrwydd.

Mae bonysau’n seiliedig ar lefelau perfformiad ac yn cael eu talu fel rhan o’r broses arfarnu. Mae'r taliadau bonws a wnaed yn 2017-18 yn rhai am fonysau a ddyfarnwyd yn 2016-17. Mae'r taliadau bonws a wnaed yn 2016-17 am fonysau a ddyfarnwyd yn 2015-16.

**Buddion Pensiwn**
Caiff gwerth buddion pensiwn sy'n cronni yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

## Cyfanswm y Taliadau

| | 2017-18 | | | | | 2016-17 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[11] | Cyfanswm | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[12] | Cyfanswm |
| Swyddogion | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Michael Spurr** Prif Swyddog Gweithredol | 145-150 | - | - | **-** | 145-150 | 145-150 | - | 15-20 | 25 | **185-190** |
| **Phil Copple** Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai | 135-140 | - | 10-15 | **30** | 175-180 | 135-140 | 6.5 | 10-15 | 183 | **335-340** |
| **Claudia Sturt** Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth | 110-115 | - | - | **26** | 135-140 | 105-110 | 0.2 | 5-10 | 144 | **260-265** |
| **Sonia Crozier** Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched | 115-120 | - | - | **46** | 160-165 | 60-65 (115-120 - blynyddol) | - | - | 24 | **85-90** |
| **Simon Boddis** Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid yr Ystad Garchardai (o 1 Ebrill 2017) a Chyfarwyddwr Gweithredol HMPPS Cymru (Dros Dro) (rhwng 1 Ebrill 2017 a 23 Gorffennaf 2017) | 90-95 | - | - | **33** | 125-130 | 55-60 (90-95 - blynyddol) | 0.1 | - | 63 | **120-125** |
| **Amy Rees**[12] Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru (o 24 Gorffennaf 2017) | 80-85 (115-120 - blynyddol) | - | - | **27** | 105-110 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |

11 Mae gwerth buddion pensiwn a gronnir yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) a'r (cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (cyfraniadau'r unigolyn). Mae'r cynnydd gwirioneddol yn eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

12 Trosglwyddodd Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru, o Adran arall y Llywodraeth (OGD) ar 24 Gorffennaf 2017 a chafodd ei thalu gan y OGD tan 31 Gorffennaf 2017.

| | 2017-18 | | | | | 2016-17 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i’r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[11] | Cyfanswm | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i’r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[12] | Cyfanswm |
| Swyddogion | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| **Jim Barton** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Ymyriadau Cymunedol (rhwng 1 Ebrill a 4 Hydref 2017) | 40 - 45 (85 - 90 - blynyddol) | - | 5-10 | **59** | 110-115 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| **Ian Porée** Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol (o 5 Hydref 2017) | 65-70 (140-145 – blynyddol) | - | - | **21** | 85-90 | 30-35 (140-145 - blynyddol) | 0.1 | 10-15 | 17 | **60 -65** |
| **Sara Robinson** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (rhwng 1 Ebrill a 8 Hydref 2017 ac o 12 Mawrth 2018) | 50-55 (95-100 - blynyddol) | - | 5-10 | **21** | 85-90 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** |
| **Mark Read**[13] Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Pontio Carcharu'r Ifanc (tan 8 Hydref 2017). Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (o 9 Hydref 2017) | 100-105 | - | 10-15 | **22** | 130-135 | 95-100 | 0.1 | - | 35 | **135-140** |
| **Digby Griffith** Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd | 100-105 | - | - | **11** | 110-115 | 100-105 | - | - | 23 | **125-130** |
| **Adrian Scott** Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig / Caffael y Rhaglen | 95-100 | - | 10-15 | **24** | 135-140 | 95-100 | - | - | 89 | **185-190** |

13 Roedd gorgyffwrdd â rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc. Ymunodd Sara Robinson ar 12 Mawrth (Dros Dro) a gadawodd Mark Read ar 8 Ebrill 2018.

| | 2017-18 | | | | | 2016-17 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[11] | Cyfanswm | Cyfanswm cyflogau a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Taliadau bonws | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[12] | Cyfanswm |
| **Swyddogion** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Martin Beecroft** Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol | 110-115 | - | - | **44** | 155-160 | 110-115 | 0.1 | - | 44 | **155-160** |
| **Andrew Emmett**[14, 15] Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid | 125-130 (130-135 - blynyddol) | - | - | **50** | 175-180 | 130-135 | - | - | 52 | **180-185** |
| **Bryan Clark**[15, 16] Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol (tan 19 Mawrth 2018) | 155-160 (160-165 - blynyddol) | - | - | **60** | 215-220 | 160-165 | 0.1 | - | 63 | **225-230** |

14 Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Digidol yn rhan o grŵp Arweinyddiaeth Drwy Wneud y MoJ. Nid ydynt yn cael eu cynnwys y nodyn ar gostau staff na'r niferoedd staff yng nghyfrifon HMPPS ond yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y MoJ. Fel Aelodau o Fwrdd HMPPS maen nhw'n cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Taliadau uchod.

15 Prynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid absenoldeb ychwanegol yn ystod y flwyddyn gan leihau ei gyflog.

16 O'r 20 Mawrth 2018 ymlaen, daeth rôl y Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol, ar Fwrdd HMPPS, i ben. Yn unol â model Arweinyddiaeth Drwy Wneud y MoJ, caiff y gwasanaethau digidol ar gyfer HMPPS yn awr eu darparu drwy'r MoJ. Nid yw Prif Swyddog Gwybodaeth y MoJ yn Aelod Craidd o Fwrdd HMPPS. I sicrhau bod y gwasanaethau digidol yn cwrdd ag anghenion busnes HMPPS, bydd Adrian Scott (Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig / Caffael) yn arwain y rhaglen Carchardai Digidol ar ran HMPPS a bydd Ian Porée (Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol) yn arwain ar TG Prawf ar ran HMPPS.

# Iawndal am golli swydd

Ni dderbyniodd yr un cyfarwyddwr iawndal am golli swydd yn 2017-18 nac yn 2016-17.

# Lluosrifau Cyflog

Rhaid i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf a'r cyflog canolrifol yn y sefydliad. Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, unrhyw daliad perfformiad ar wahân a manteision o fath arall, ond nid cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, taliadau diswyddo a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

| | 2017-18 | 2016-17 |
|---|---|---|
| Band tâl y cyfarwyddwr sy'n cael ei dalu fwyaf (£'000) ar 31 Mawrth | 145-150 | 160-165 |
| Cyflog canolrifol (£) | 27,840 | 29,038 |
| Cymhareb | 5.3:1 | 5.6:1 |

Mae'r cyfanswm tâl canolrifol a'r gymhareb wedi lleihau yn 2017-18, sy'n adlewyrchu staff yn gadael yn naturiol a recriwtio mwy o swyddogion carchar a staff prawf yn ogystal â throsglwyddo staff pencadlys i'r MoJ o dan Arweinyddiaeth Drwy Wneud.

Yn 2017-18, ni dderbyniodd yr un gweithiwr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr oedd yn cael ei dalu fwyaf (2016-17: 1 gweithiwr).

Yn 2017-18 roedd y taliadau'n amrywio rhwng £10,000-15,000 a £145,000-£150,000).

Yn 2016-17 roedd y taliadau'n amrywio rhwng £10,000-15,000 a £235,000-£240,000).

# Taliadau i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol

| | | | 2017-18 | | | 2016-17 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ffioedd (ac eithrio bonysau) £'000 | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) £'000 | Taliadau bonws £'000 | Ffioedd (ac eithrio bonysau) £'000 | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) £'000 | Taliadau bonws £'000 |
| **Alan Hammill** Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg | 10-15 | 0.2 | - | 10-15 | 0.5 | - |
| **Paul Wilson** (tan 2 Chwefror 2018) | 10-15 (10-15 - blynyddol) | 0.6 | - | 5-10 (10-15 - blynyddol) | 0.2 | - |

Cadeiriwyd cyfarfodydd Bwrdd HMPPS yn 2017-18 gan Richard Heaton fel Ysgrifennydd Parhaol y MoJ. Ni dderbyniodd unrhyw daliad ychwanegol am hyn ac adroddir ei gyflog a'i daliadau yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y MoJ.

# Buddion Pensiwn

**Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod**
Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yn golygu gwerth cyfalaf, wedi'i asesu gan actiwari, y buddion yn y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg. Mae'r buddion a brisiwyd yn cyfateb i'r buddion a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn i bartner, sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun pensiwn yw CETV, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall, neu drefniant lle mae'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnodd yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid ei wasanaeth mewn capasiti uwch yn unig, lle mae datgelu'n berthnasol.

Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod ar ôl prynu buddion pensiwn ychwanegol ar gost iddynt eu hunain. Cyfrifir gwerthoedd CETV o dan Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol na phosib mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes a allai fod yn daladwy pan godir y buddion.

**Gwir gynnydd mewn CETV**
Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr, a heb gynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant a chyfraniadau'r gweithiwr. Caiff ei gyfrifo'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

| Swyddogion | Pensiwn a gronnwyd erbyn cyrraedd oed pensiwn ar 31/3/18 a chyfandaliad cysylltiedig<br>£'000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wedi cyrraedd oed pensiwn<br>£'000 | CETV ar 31/3/18<br>£'000 | CETV ar 31/3/17<br>£'000 | Gwir gynnydd mewn CETV<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Michael Spurr**<br>Prif Swyddog Gweithredol | 65 – 70 a chyfandaliad o 200 - 205 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 - 2.5 | 1,423 | 1,340 | (8) |
| **Phil Copple**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Carchardai | 50 – 55 a chyfandaliad o 125 - 130 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 824 | 766 | 5 |
| **Claudia Sturt**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol, Diogelwch, Trefn a Gwrth-derfysgaeth | 35 – 40 a chyfandaliad o 90 - 95 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 645 | 598 | 7 |
| **Sonia Crozier** Cyfarwyddwr Gweithredol, Prawf a Merched | 10 - 15 | 2.5 - 5 | 124 | 88 | 24 |

| Swyddogion | Pensiwn a gronnwyd erbyn cyrraedd oed pensiwn ar 31/3/18 a chyfandaliad cysylltiedig £'000 | Gwir gynnydd mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wedi cyrraedd oed pensiwn £'000 | CETV ar 31/3/18 £'000 | CETV ar 31/3/17 £'000 | Gwir gynnydd mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Simon Boddis** Cyfarwyddwr Gweithredol, Trawsnewid yr Ystad Garchardai (o 1 Ebrill 2017) a Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, HMPPS Cymru (rhwng 1 Ebrill a 23 Gorffennaf 2017) | 45 - 50 | 0 - 2.5 | 895 | 845 | 32 |
| **Amy Rees** Cyfarwyddwr Gweithredol, HMPPS Cymru (o 24 Gorffennaf 2017) | 30 – 35 a chyfandaliad o 0 - 5 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 361 | 344 | 6 |
| **Jim Barton** Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro, Ymyriadau Cymunedol (rhwng 1 Ebrill a 4 Hydref 2017) | 20 - 25 | 2.5 - 5 | 228 | 187 | 30 |
| **Ian Porée** Cyfarwyddwr Gweithredol, Ymyriadau Cymunedol (o 5 Hydref 2017) | 30 - 35 | 0 - 2.5 | 406 | 389[17] | 7 |
| **Sara Robinson** Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (Dros Dro) (rhwng 1 Ebrill a 8 Hydref '17 ac o 12 Mawrth '18) | 5 - 10 | 0 - 2.5 | 94 | 93 | 1 |
| **Mark Read** Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Bontio Carcharu'r Ifanc (tan 8 Hydref 2017); Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (o 9 Hydref 2017) | 35 – 40 a chyfandaliad o 95 - 100 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 662 | 616 | 5 |
| **Digby Griffith** Cyfarwyddwr Gweithredol, Adsefydlu a Sicrwydd | 60 - 65 | 0 - 2.5 | 1,169 | 1,083 | 8 |
| **Adrian Scott** Cyfarwyddwr Gweithredol, Rhaglen Monitro Electronig / Caffael y Rhaglen | 35 – 40 a chyfandaliad o 85 - 90 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 | 534 | 495 | 5 |
| **Martin Beecroft** Cyfarwyddwr Gweithredol, Adnoddau Dynol | 30 - 35 | 2.5 - 5 | 508 | 456 | 28 |
| **Andrew Emmett** Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid | 15 - 20 | 2.5 - 5 | 283 | 228 | 37 |
| **Bryan Clark** Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol (tan 19 Mawrth 2018) | 10 - 15 | 2.5 - 5 | 172 | 112 | 43 |

[17] Mae symiau blynyddoedd blaenorol wedi eu hail-ddatgan oherwydd derbyniwyd gwybodaeth ddiwygiedig gan ein darparwr pensiwn yn ystod y flwyddyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau gan y cyflogwr i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer cyfarwyddwyr HMPPS.

## Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn i staff HMPPS ac eithrio i aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill, neu **Alpha**, sy'n darparu buddion ar sail enillion gyrfa cyfartalog a’r oed pensiwn arferol yn cyfateb i Oed Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 lle mae'n uwch).

O hynny ymlaen, ymunodd pob gwas sifil newydd eu penodi, a’r rhan fwyaf oedd eisoes mewn gwasanaeth, ag **Alpha**. Cyn hynny roedd gweision sifil ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd â phedair rhan: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**Clasurol, Premiwm** neu **Glasurol a Mwy**) ac oed pensiwn arferol o 60; ac un (**Nuvos**) yn darparu buddion ar sail enillion gyrfa gyfan ac oed pensiwn arferol o 65.

Nid yw’r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu; mae cost y buddion yn cael ei chwrdd gan gyllid a bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy’n daladwy o dan **Clasurol, Premiwm, Clasurol a Mwy, Nuvos** ac **Alpha** yn cael eu cynyddu’n flynyddol yn unol â’r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau. Arhosodd staff oedd eisoes yn aelodau o’r PCSPS, ac o fewn 10 mlynedd i’w hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012, yn y rhan o'r PCSPS oedd yn berthnasol iddynt ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd rhai oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o’u hoed pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu cofrestru ag **Alpha** rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022.

Bydd buddion PCSPS rhai sy'n newid at **Alpha** yn cael eu 'bancio', a gwerth buddion cynharach rhai gyda buddion yn un o rannau cyflog terfynol y PCSPS yn seiliedig ar eu cyflog terfynol wrth adael **Alpha**. Gall aelodau sy’n ymuno o fis Hydref 2002 ymlaen naill ai ddewis y trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddalwyr ‘prynu arian’ gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau staff yn dibynnu ar gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer pawb sy'n aelodau o **Clasurol, Premiwm, Clasurol a Mwy, Nuvos** ac **Alpha.**

Mae buddion **Clasurol** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o’r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad cyfwerth â phensiwn tair blynedd pan fydd y person yn ymddeol.

Ar gyfer y cynllun **Premiwm**, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o’r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i’r un **Clasurol**, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig. Cynllun hybrid yw **Clasurol a Mwy**, gyda’r buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo’n fras fel gyda’r cynllun **Clasurol** a'r buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel gyda’r cynllun **Premiwm**.

Gyda’r cynllun **Nuvos,** mae aelod yn cronni ei bensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy dros gyfnod ei aelodaeth o’r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae cyfrif pensiwn yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno, a chyfradd y pensiwn a gronnwyd yn cael ei chodi’n unol â’r ddeddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau.

Mae buddion yn **Alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **Nuvos**, heblaw bod y gyfradd gronni’n 2.32%. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) eu pensiwn am gyfandaliad i fyny at yr uchafsymiau a bennir gan Ddeddf Gyllid 2004.

Cynllun pensiwn cyfranddalwyr yw’r cyfrif pensiwn **Partneriaeth**. Mae’r gweithiwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 a rhwng 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 ymlaen (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i bensiwn cyfranddalwyr a ddewisir gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes raid i’r gweithiwr gyfrannu ond lle mae gweithwyr yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol o hyd at 3% o’r cyflog pensiynadwy (a hynny ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o’r cyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o'r cyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 ymlaen i dalu am gost buddion risg ganolog (marw mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail iechyd).

Y pensiwn a gronnwyd a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn ar ôl cyrraedd oed ymddeol, neu’n syth ar ôl iddynt beidio â bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd neu os ydynt dros oed ymddeol. Yr oed pensiwn yw 60 ar gyfer **Clasurol, Premiwm** a **Clasurol a Mwy**, 65 ar gyfer **Nuvos** a 65 neu Oed Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer **Alpha**, pa un bynnag sydd uchaf. (Mae’r ffigurau pensiwn ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn wedi’i ennill yn y PCSPS neu Alpha – fel y bo’n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac yn Alpha, mae’r ffigur yn cyfateb i werth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond dylid nodi y bydd rhan o’r pensiwn hwnnw efallai’n daladwy o wahanol oed).

Rhoddir mwy o fanylion am drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

# Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gweinyddir y cynllun o dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) 2014. O dan Gynllun y LGPS yn 2014, mae'r pensiwn a ychwanegir am bob aelod bob blwyddyn yn seiliedig ar 1/49fed o'u henillion (1/98fed os gwnaethant ddewis bod yn aelod o elfen 50/50 y cynllun). Bydd y cyfrifon pensiwn unigol yna'n cael eu cynyddu bob blwyddyn gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr hyd at ymddeol. Bydd ailadrodd y cyfrifiad hwn am bob blwyddyn o aelodaeth yn rhoi'r hyn a elwir yn bensiwn Enillion Gyrfa Cyfartalog a Ailbrisiwyd (CARE).

Mae hyn yn newid i gynllun LPGS 2008, lle mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r cyflog pensiynadwy am wasanaeth o 1 Ebrill 2008 ymlaen a heb gyfandaliad awtomatig. Am wasanaeth pensiynadwy tan 31 Mawrth 2008, mae buddion wedi cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn

ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â 3/80fed o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy wrth ymddeol.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, talodd HMPPS gyfraniadau pensiwn cyflogwr o £212.3m i'r PCSPS a £79.5m i'r GMPF (LGPS). Rhoddir mwy o fanylion am y cynlluniau hyn a'r costau a'r rhwymedigaethau cysylltiedig yn Nodyn 18 i'r Cyfrifon.

# Costau, niferoedd a chyfansoddiad y staff

Mae'r adrannau isod wedi eu cynnwys er mwyn bodloni gofynion adrodd ac atebolrwydd seneddol ac yn cael eu harchwilio.

### Costau staff

| | 2017-18 | Ailddatganiad 2016-17 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau wythnosol a misol | 1,392,697 | 1,357,675 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 147,554 | 135,552 |
| Costau pensiwn | 342,431 | 288,377 |
| Costau staff asiantaeth | 60,903 | 50,773 |
| Taliadau gadael a diswyddo | 9,833 | 17,818 |
| Secondiadau o'r tu allan | 4,768 | 5,842 |
| **Is-gyfanswm** | **1,958,186** | **1,856,037** |
| | | |
| Refeniw wedi'i adennill yng nghyswllt secondiadau i'r tu allan | (6,600) | (5,936) |
| **Cyfanswm costau net** | **1,951,586** | **1,850,101** |

Mae taliadau gadael a diswyddo 2016-17 wedi eu hailddatgan o £6.2m. Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer costau ymddeol yn gynnar a gwirfoddoli i adael yn gynnar wedi'u hailddosbarthu o'r adran Traul Darpariaeth i'r adran Taliadau Gadael a Diswyddo. Mae Buddion Anafiadau wedi'i ailddosbarthu o Daliadau Gadael a Diswyddo a'i gynnwys o dan Gostau Iawndal yn Nodyn 4b. Gwnaed yr ailddosbarthiad hwn i adlewyrchu natur y costau hyn yn well.

Mae'r Lefi Brentisiaeth, a ddaeth i rym ar draws Lloegr ar 6 Ebrill 2017, yn dreth gyflogaeth newydd o 0.5% o'r bil cyflogau blynyddol; mae'r gost wedi'i chynnwys yn y costau nawdd cymdeithasol. Rhoddir mwy o fanylion am y Lefi Brentisiaeth yn: https://www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-levy-how-it-will-work

### Costau pensiwn

Rhoddir manylion am gostau a rhwymedigaethau pensiwn yn Nodyn 18 i'r Cyfrifon.

### Costau Cwmnïau Ymgynghori

Gwariwyd £5.9m ar gwmnïau ymgynghori yn 2017-18 (2016-17: £3.1m). Mae'r cynnydd wedi'i briodoli i gymorth ar gyfer y rhaglenni Monitro Electronig, Adolygiad Prawf a Diwygio Carchardai.

### Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS)

Dengys y tabl canlynol nifer y staff SCS a gyflogir gan HMPPS yn ôl bandiau cyflog. Mae'r ystodau cyflog yn cynrychioli cyfraddau cyfwerth ag amser llawn, heb gynnwys bonysau.

| | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| **Band cyflog** | **Nifer** | **Canran** | **Nifer** | **Canran** |
| £60,000-£69,999 | - | 0% | 2 | 3% |
| £70,000-£79,999 | 9 | 17% | 10 | 16% |
| £80,000-£89,999 | 17 | 31% | 14 | 23% |
| £90,000-£99,999 | 13 | 24% | 19 | 32% |
| £100,000-£109,999 | 8 | 15% | 7 | 11% |
| £110,000-£119,999 | 4 | 7% | 4 | 7% |
| £120,000-£129,999 | - | 0% | - | 0% |
| £130,000-£139,999 | 1 | 2% | 2 | 3% |
| £140,000-£149,999 | 2 | 4% | 2 | 3% |
| £150,000-£159,999 | - | 0% | - | 0% |
| £160,000-£169,999 | - | 0% | 1 | 2% |
| £170,001-£179,999 | - | 0% | - | 0% |
| **Cyfanswm** | **54** | **100%** | **61** | **100%** |

Trosglwyddodd 11 o staff SCS i'r MoJ ar 1 Ebrill 2017 o dan y model Arweinyddiaeth Drwy Wneud; cawsant eu heithrio o'r ffigurau uchod am 2017-18, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol, Digidol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol, Cyllid. Mae'r ddau gyfarwyddwr yn aelodau o Fwrdd HMPPS a datgelir eu cyflogau yn y tabl Cyfanswm y Taliadau ar dudalen 81. Mae'r tabl uchod yn cynnwys cyflogau holl gyfarwyddwyr gweithredol eraill HMPPS.

### Nifer y staff

Dyma'r nifer gyfartalog o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) oedd wedi eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn:

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm |
| Staff a gyflogir yn uniongyrchol | 44,407 | - | **44,407** | 43,224 | - | **43,224** |
| Staff a gyflogir ar brosiectau cyfalaf | - | 85 | **85** | - | 53 | **53** |
| Staff eraill | - | 1,610 | **1,610** | - | 1,203 | **1,203** |

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cyfanswm |
| Cyfanswm | **44,407** | **1,695** | **46,102** | **43,224** | **1,256** | **44,480** |

Ar 1 Ebrill 2017, trosglwyddodd 562 o staff FTE i'r MoJ o dan y model Arweinyddiaeth Drwy Wneud ac ni chawsant eu cynnwys yn niferoedd staff HMPPS am 2017-18. Dangosir y staff hyn yng nghyfrifon y MoJ.

**Adrodd ar gynllun iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau gadael**

Talwyd costau diswyddo gorfodol a chostau gadael eraill yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Lle nad yw HMPPS wedi cytuno y caiff staff ymddeol yn gynnar, mae'r costau ychwanegol yn cael eu cwrdd gan HMPPS ac nid gan Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail salwch yn cael eu cwrdd gan y cynllun pensiwn ac wedi eu heithrio o'r tabl isod.

| | 2017-18 | | | 2016-17 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer y swyddi eraill lle cytunwyd i adael | Cyfanswm y Pecynnau Gadael yn ôl band cost | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer y swyddi eraill lle cytunwyd i adael | Cyfanswm y Pecynnau Gadael yn ôl band cost |
| Band cost Pecynnau Gadael | | | | | | |
| <£10,000 | - | 20 | 20 | - | 35 | 35 |
| £10,001 - £25,000 | - | 307 | 307 | - | 228 | 228 |
| £25,001 - £50,000 | - | 96 | 96 | - | 146 | 146 |
| £50,001 - £100,000 | - | 41 | 41 | - | 98 | 98 |
| £100,001 - £150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,001 - £200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,001 - £250,000 | - | - | - | - | - | - |
| £250,001 - £300,000 | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y Pecynnau Gadael** | **-** | **464** | **464** | **-** | **507** | **507** |
| **Cyfanswm cost y Pecynnau Gadael (£'000)** | **-** | **12,880** | **12,880** | **-** | **16,604** | **16,604** |

Cyfrifir am gostau gadael yn llawn yn y costau Gadael a Diswyddo uchod yn y flwyddyn pryd y cadarnheir y Pecyn Gadael. Mae'r costau hyn yn adlewyrchu elfen o gostau pensiwn sy'n crisialu wrth gadarnhau gadael.

Mae'r pennawd 'Nifer y swyddi eraill lle cytunwyd i adael' am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 yn cynnwys 427 o becynnau gadael diswyddo am fod yn aneffeithlon, gwerth £12.1m, yn y bandiau cyflog £0 - £100,000. Yn 2016-17 roedd 459 o becynnau gadael am fod yn aneffeithlon, gwerth £14.3m, yn y bandiau cyflog £0-£100,000.

**Amrywiaeth y staff**

Mae HMPPS yn benderfynol o gyflawni ein cyfrifoldebau'n rhagweithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi ymrwymo i feithrin gweithlu cynhwysol ac amrywiol lle caiff pawb ei rymuso i ffynnu.

Mae HMPPS wedi gweithio'n agos ag Adolygiad Lammy o brofiadau unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig (BAME) yn y System Cyfiawnder Troseddol, a gyflwynodd ei adroddiad ym Medi 2017. Mae'r argymhellion ar gyfer HMPPS wedi eu derbyn; mae dau'n rhoi sylw uniongyrchol i amrywiaeth ein gweithlu; un yn ymwneud â recriwtio staff BAME i adlewyrchu'r boblogaeth weithio ac un arall yn ymwneud â phenodi mwy o uwch-arweinwyr BAME. Mae cyfres o fesurau ar y gweill i weithredu'r argymhellion hyn gan gynnwys gwneud mwy i adnabod talent ymhlith grwpiau wedi eu tangynrychioli. Drwy barhau i ddadansoddi data, gallwn fonitro a gyrru gwelliannau.

Bydd deg blaenoriaeth strategol a gytunwyd ar lefel uwch yn cyplysu ag argymhellion Lammy i yrru a rhoi ffocws i'n gwaith cydraddoldeb ac yn cael eu darparu drwy raglen Cydraddoldeb Asiantaeth drawsweithredol. Mae'r deg yn cynnwys pedair blaenoriaeth yn ymwneud â gwella canlyniadau cydraddoldeb i staff, pedair yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth a dwy flaenoriaeth ategol, un ohonynt i wella data'r Asiantaeth. Mae'r blaenoriaethau staff yn cynnwys ffocws ar gael mwy o ddatganiadau 'data amrywiaeth' gan staff. Gwnaed gwelliannau i'n llwyfan gweithredol staff, fydd yn ei gwneud yn haws i staff gwblhau eu data personol gan arwain at ddatgan mwy o ddata. Bydd HMPPS yna'n gallu dadansoddi'r wybodaeth yma ac ymateb i unrhyw ganlyniadau anghymesur ar gyfer grwpiau gwarchodedig.

Mae'r broses o weithredu argymhellion Lammy'n cael ei hadolygu'n fisol gan Fwrdd o uwch-arweinwyr. Pob chwarter mae Is-bwyllgor Cydraddoldeb yn monitro cynnydd y rhaglen Gydraddoldeb gyfan, y deg blaenoriaeth strategol ac argymhellion Lammy. Sefydlwyd panel cynghori a chraffu allanol i roi cyngor ac i herio gyda gweithredu argymhellion Lammy. Drwy ddarparu strwythur rhaglen ffurfiol, rydym yn benderfynol o wneud cynnydd systematig a chynaliadwy.

Gall staff HMPPS cymwys wneud cais am gyfle datblygu naw mis wedi'i anelu at staff Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, i hybu hyder a gwella rhagolygon gyrfaol drwy hyfforddiant un-i-un ar y cyd. Mae'r cyfleoedd hyn yn cael eu hyrwyddo yn y sefydliad.

Yn Hydref 2017, enillodd y MoJ achrediad fel Arweinydd Hyderus o ran Anabledd yn dilyn cais traws-MoJ. Fel un o Asiantaethau Gweithredol y MoJ, mae gan HMPPS bellach statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ei hun. Rydym yn parhau i gymryd rhan yn y Cynllun Gwarantu Cyfweliad. Ar gyfer staff y NPS, mae'r broses o gyflwyno'r dechnoleg newydd o dan y rhaglen Trawsnewid Technoleg wedi dechrau a bydd o gymorth i staff sydd angen technoleg gynorthwyol arnynt. Neidiodd y MoJ gan gynnwys HMPPS, 101 lle i'r 13eg safle ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithle Stonewall.

Rydym yn parhau i ymrwymo i gyflogi arweinwyr rhwydwaith ar gyflogau llawn amser i gynrychioli buddiannau staff BAME, staff LGBT+ a staff ag anableddau. Mae gan y rhwydweithiau rôl bwysig i'w chwarae mewn lleisio profiadau eu haelodau a chyfrannu

at newid sefydliadol. Yn ddiweddar, cafodd fideo ei roi at ei gilydd gan y rhwydwaith staff ag anableddau ar gyfer diwrnod Amser i Siarad (am iechyd meddwl), ac aelod o'r rhwydwaith yn ymddangos ynddo.

Mae gwaith wedi'i wneud i adolygu ac optimeiddio'r gwasanaeth Cymorth Staff ac Iechyd Galwedigaethol. Mae rhaglen genedlaethol i gefnogi iechyd a lles wedi'i chyflwyno ar draws HMPPS. Penodwyd hefyd bencampwyr lles lleol yn yr unedau busnes i gefnogi a chyfarwyddo staff i roi cymorth rhagweithiol. Mae lles yn cael ei hyrwyddo gan y pencampwyr hyn ar draws 5 Llwybr at Les y GIG: *Cysylltu, Bod yn Egnïol, Cymryd Sylw, Parhau i Ddysgu, Rhoi.*


Yn ddiweddar, fe adolygodd HMPPS ei Gynllun Iaith Gymraeg a chyhoeddi'r trydydd adroddiad monitro cynnydd blynyddol, a'r olaf. Bydd Cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi nes ymlaen eleni.


**Data ar absenoldeb salwch**
Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, ar gyfartaledd collodd staff HMPPS 9.2 diwrnod gwaith oherwydd salwch (2016-17: 10.1 diwrnod).

**Data ar rywedd**
Ar 31 Mawrth 2018, roedd y dadansoddiad o’r gweithwyr yn ôl rhywedd fel a ganlyn:

| | Dynion | Merched | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|
| Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol | 8 (67%) | 4 (33%) | 12 |
| Uwch Reolwyr (Uwch Weision Sifil) | 23 (55%) | 19 (45%) | 42 |
| Gweithwyr Eraill | 25,899 (53%) | 23,185 (47%) | 49,084 |
| Cyfanswm | 25,930 | 23,208 | 49,138 |

Mae Uwch Weision Sifil yn cynnwys y prif raddfeydd yn unig.






**Cyfathrebu a chynnwys staff**
Eleni symudodd swyddogaeth Gyfathrebu HMPPS at fodel arweinyddiaeth 'drwy wneud' er mwyn cyfuno arbenigeddau'n un tîm unedig ar draws y MoJ.

Dechreuodd y tîm cyfathrebu'r flwyddyn gyda ffocws ar ailfrandio NOMS yn HMPPS. Roedd y gwaith mawr hwn yn cynnwys proses ailfrandio lawn a nodi beth oedd pwrpas a rôl HMPPS. Erbyn diwedd Awst 2017, dywedodd 93% o'r staff a holwyd eu bod yn ymwybodol bod NOMS wedi newid yn HMPPS.

Roedd gwaith Cyfathrebu pwysig arall ar gyfer HMPPS yn 2017-18 yn cynnwys:

- gweithio gyda'r MoJ i gynyddu balchder, eiriolaeth a chyfranogiad staff yn yr ymgyrch i recriwtio swyddogion carchar
- cefnogi carchardai a phrawf i gyflwyno'r model Rheoli Troseddwyr Dan Glo newydd
- cefnogi'r broses o gyflwyno carchardai di-fwg ar draws yr ystad
- cefnogi diwylliant o adsefydlu drwy iaith a lluniau
- meithrin balchder ac ymgysylltu yn ein staff – roedd cyfradd yr ymateb i'r Arolwg Pobl i fyny 20 pwynt canran yn y NPS, a'r mynegai ymgysylltu ar draws HMPPS i fyny 2 pwynt canran yn gyffredinol

Bydd ein gwaith o wella ymgysylltiad ein staff a hyrwyddo diwylliant o adsefydlu'n parhau yn 2018-19 wrth i ni lansio'r Ymgyrch Newid Bywydau Gyda'n Gilydd. Bydd yr ymgyrch yn rhannu hanesion sy'n dangos yr effaith a gafodd ein staff drwy helpu pobl sydd yn ein gofal i newid eu bywydau er gwell.

**Rheoli talent**
Mae HMPPS wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddo drefniadau effeithiol i reoli talent a datblygu gyrfa ar draws ein carchardai a'r gwasanaeth prawf. Yn 2017 mae ffocws cryf wedi bod ar ddatblygu'r uwch-arweinyddiaeth yn y carchardai, gyda nifer o gynhyrchion

a mesurau newydd yn cael eu lansio i greu grŵp mwy amrywiol o uwch-arweinwyr a hefyd i ddatblygu ein rheolwyr ac arweinwyr presennol.

***Rhaglenni recriwtio Talent Newydd:***
Rydym wedi cyflwyno'r rhaglenni hyn gan recriwtio'r cohortau cyntaf yn ystod y flwyddyn adrodd a chynlluniau yn eu lle i recriwtio'r ail gohortau yn 2018/19:

- Swyddogion Carchar o *Unlocked Graduates*
- Cynllun Uwch-Arweinwyr Mynediad Uniongyrchol
- Cynllun Datblygu Carlam

Cyflwynwyd rhaglenni datblygu arweinyddiaeth newydd ar draws carchardai a phrawf:

- Uwch-Arweinwyr Gydag Awdurdod
- Rhaglen arweinyddiaeth i uwch-reolwyr y Pencadlys a'r NPS

Ac yn benodol ar gyfer rheolwyr carchardai, lansiwyd rhaglenni newydd ar ddatblygu arweinwyr a rheolwyr:

- Rhaglen Rheolwyr Profiadol
- Rhaglen Rheolwyr Llinell Gyntaf
- LEAP

Bydd y strwythurau cyfarwyddwyr grŵp carchardai newydd yn cynnig mentora, datblygu a hyfforddiant personol ychwanegol drwy'r llinell weithredol i lywodraethwyr a'u timau.

Mae'r ffocws i'r arweinyddiaeth yn y NPS ar sicrhau bod y system brawf yn gweithio'n effeithiol ar draws ffiniau sefydliadol fel bod y systemau rheoli troseddwyr a phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau'n gweithredu'n gydlynol ac effeithiol ar draws y NPS a'r cwmnïau CRC.

**Penodiadau oddi ar y gyflogres**
Ym mlwyddyn ariannol 2017-18, mae HMPPS wedi adolygu'r holl benodiadau oddi ar y gyflogres yn defnyddio canllawiau HMRC a dangosydd statws ar-lein. Lle aseswyd penodiadau fel rhai sydd o fewn sgôp y cwmnïau cyfryngol (deddfwriaeth IR35), mae'r asiantaeth dalu'n cael ei hysbysu o'r penderfyniad hwn fel bo'r dreth iawn yn cael ei thynnu allan o'r taliad a wneir am y penodiad. Rhoddir mwy o fanylion am benodiadau oddi ar gyflogres yn HMPPS yng nghyfrifon adnoddau adrannol y MoJ.

# Atebolrwydd Seneddol

## Rheoleidd-dra'r gwariant

Mae'r adrannau isod wedi eu cynnwys er mwyn bodloni gofynion adrodd ac atebolrwydd seneddol ac yn cael eu harchwilio.

**Colledion a Thaliadau Arbennig**
Mae'r colledion a'r taliadau arbennig canlynol wedi eu cynnwys yn y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr ar dudalen 105:

| | 2017-2018 | | 2016-2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Achosion | £'000 | Achosion | £'000 |
| Colledion arian parod | 598 | 454 | 1,105 | 1,171 |
| Colledion eitemau atebol | 11,696 | 1,914 | 9,808 | 2,079 |
| Colledion 'deongliadol' a thaliadau diffrwyth | 3 | 1,420 | 18 | 716 |
| Hawliadau wedi eu gadael neu ildio | 53 | 6,043 | 46 | 63 |
| Dileu dyledion gweinyddol | 2 | 17 | - | - |
| **Datganiad colledion** | **12,352** | **9,848** | **10,977** | **4,029** |
| | | | | |
| Taliadau arbennig i staff | 1,116 | 14,903 | 1,438 | 10,975 |
| Taliadau arbennig i droseddwyr | 4,957 | 10,286 | 4,936 | 8,713 |
| Taliadau arbennig i drydydd partïon | 443 | 1,343 | 527 | 1,378 |
| **Taliadau arbennig** | **6,516** | **26,532** | **6,901** | **21,066** |

Yn 2017-18 achosodd HMPPS dair colled o dros £300,000 (2016-17: un):

- colled 'ddeongliadol' o £1,414,922 am gostau ofer yn ymwneud â rhoi'r gorau i brosiect HMPS Rye Hill. Gwnaed y penderfyniad i ddod â'r prosiect i ben ar ôl i adolygiad ganfod nad oedd datblygu Rye Hill yn cyd-fynd mwyach â gofynion strategol rhaglen Trawsnewid yr Ystad Garchardai, yn enwedig o ran cynnig gwerth am arian. Mae'r golled yn cynnwys costau atal ac amhariad asedau ar ganol eu hadeiladu.
- adennill ffioedd o £5,983,000 gan gwmnïau CRC a gafodd eu dileu. Mae'r taliadau Ffi am Wasanaeth (FFS) misol i'r cwmnïau CRC yn seiliedig ar amcan-nifer y troseddwyr. Ar ddiwedd pob blwyddyn gontract, cyfrifir y nifer wirioneddol a chaiff ffioedd eu hadennill pan fydd y nifer yn is na'r amcan-nifer. O ganlyniad i dybiaethau newydd wrth gyfrifo taliadau FFS, mae HMPPS wedi ildio symiau nad oeddent eto wedi eu hadennill gan y cwmnïau.
- gordaliadau o £354,115 i 69 o staff. Cafodd gordaliadau wrth i staff adael eu dileu ar gyngor Swyddfa'r Cabinet a'u cadarnhau gan y Swyddog Cyfrifyddu. Yn 2017-18 collodd y llywodraeth Adolygiad Barnwrol yn erbyn y newidiadau a

wnaed wrth gyfrifo a chymhwyso tariffau uwch ar gyfer Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. O ganlyniad, y telerau iawndal cyfreithlon presennol yw'r rhai sydd wedi eu cynnwys yn nhelerau blaenorol 2010. I rai a adawodd o dan delerau 2016, cafodd eu taliadau gadael eu hailgyfrifo o dan delerau 2010.

Yn 2017-18 fe wnaeth HMPPS chwe thaliad arbennig o dros £300,000 (2016–17: dau):

- gwnaed chwe thaliad iawndal i aelodau gweithredol o staff HMPPS a anafwyd wrth gyflawni eu dyletswyddau: £2,792,574, £919,310, £490,147, £318,927, £405,000 a £750,000.

**Rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol**
Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir yn unol ag IAS 37 yn Nodyn 17 yn y Cyfrifon, fel sy'n ofynnol gan *Managing Public Money* mae HMPPS yn datgelu, i bwrpas atebolrwydd ac adrodd i'r Senedd, rhai rhwymedigaethau wrth gefn statudol ac anstatudol lle mae'n annhebygol y bydd budd economaidd yn trosglwyddo.

Mae gan HMPPS y rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol a ganlyn:

- mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wedi rhoi gwarant i'r GMPF ynghylch cyfranogiad y cwmnïau CRC yn y GMPF ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn a drosglwyddodd i'r cwmnïau

- mae'r cyfrifoldeb am gyllido rhwymedigaethau gwasanaeth blaenorol gan weithwyr gwreiddiol, sy'n aelodau gohiriedig neu'n bensiwn-aelodau o'r LGPS, wedi trosglwyddo i HMPPS o dan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder hefyd wedi rhoi'r sicrwydd canlynol i Heathrow Airport Holdings Limited a thrydydd partïon eraill (er enghraifft, cwmnïau awyrennau) a allai gael eu heffeithio gan ein gweithrediadau. Mae'r sicrwydd yn cynnwys y symiau canlynol:

- hyd at £50m am bob digwyddiad o ddifrod neu anaf a achosir i drydydd partïon yn ardal 'ochr yr awyr' oherwydd esgeulustod HMPPS
- hyd at £250m am bob digwyddiad o ddifrod neu anaf a achosir i drydydd partïon ar fwrdd awyren, oherwydd esgeulustod HMPPS
- damweiniau personol a / neu salwch staff HMPPS wrth gyflawni gwaith hebrwng

Ystyrir y byddai'n annhebygol i atebolrwydd godi o'r rhwymedigaethau wrth gefn hyn.

Byddai HMPPS yn atebol fel gwarantydd 'yn niffyg popeth arall' am golledion a achosir gan garchardai preifat.

**Michael Spurr**

Swyddog Cyfrifyddu’r Asiantaeth

20 Mehefin 2018

# Tystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

**Barn am y datganiadau ariannol**
Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Maent yn cynnwys y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a ddisgrifir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn deg a gwir o gyflwr busnes Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM ar 31 Mawrth 2018 ac o'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a
- Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Drysorlys EM.

**Barn am reoleidd-dra**
Yn fy marn i, ac ym mhob cyswllt o bwys, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Sail fy marn**
Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISA) (yn y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn ymhellach yn yr adran yn fy nhystysgrif ar gyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol. O dan y safonau hynny, rhaid i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Moesegol Diwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad a datganiadau ariannol yn y DU. Rwyf i a fy staff wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigon a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn.

**Cyfrifoldebau’r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol**
Fel yr eglurir yn fwy manwl yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg.

**Cyfrifoldebau’r Archwilydd i archwilio’r datganiadau ariannol**
Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae archwiliad yn cynnwys cael gafael ar dystiolaeth foddhaol ar y symiau a’r datgeliadau yn y datganiadau ariannol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gam-ddatganiad pwysig, p’un ai drwy dwyll neu wall. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw’n gwarantu’n llwyr fod archwiliad a wnaed yn unol â safonau ISA (yn y DU) yn gallu canfod cam-ddatganiad pwysig bob tro. Gall cam-ddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellir disgwyl yn rhesymol i’r cam-ddatganiadau, yn unigol neu'n gyfunol, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol â’r safonau ISA (yn y DU), rwyf yn ymarfer crebwyll a barn broffesiynol ac yn cadw lefel broffesiynol o amheuaeth drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd:

- yn adnabod ac asesu unrhyw risg o gam-ddatganiad pwysig yn y datganiadau ariannol, p’un ai drwy dwyll neu wall, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio i ymateb i’r risgiau hynny ac yn casglu tystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn. Mae’r risg o beidio â chanfod cam-ddatganiad pwysig drwy dwyll yn uwch nag un drwy wall, oherwydd gall twyll gynnwys cyd-gynllwynio, ffugio, hepgor yn fwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaeth fewnol.
- yn ennill dealltwriaeth o'r mesurau rheoli mewnol sy’n berthnasol i’r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio priodol i’r amgylchiadau, ond nid i'r pwrpas o fynegi barn am ba mor effeithiol yw rheolaeth fewnol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.
- yn gwerthuso pa mor briodol yw’r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd a pha mor rhesymol yw’r amcangyfrifon cyfrifyddu a’r datganiadau cysylltiedig a wnaed gan reolwyr.
- yn dod i gasgliad ynghylch pa mor briodol oedd defnydd y rheolwyr o’r sail busnes hyfyw ac, ar sail y dystiolaeth archwilio, ynghylch a oes unrhyw ansicrwydd o bwys yn codi gyda’r digwyddiadau neu’r amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM i barhau fel busnes hyfyw. Os casglaf fod ansicrwydd o bwys yn bodoli, mae’n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol, neu os yw’r datganiadau hynny’n anfoddhaol, mae’n ofynnol i mi addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau’n seiliedig ar y dystiolaeth a dderbyniais hyd at ddyddiad fy adroddiad. Fodd bynnag, gallai digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi bod y corff yn peidio â pharhau fel busnes hyfyw.

- yn gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn cyflwyno'r trafodion a'r digwyddiadau cysylltiedig mewn ffordd sy'n eu cyfleu'n deg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, ymhlith pethau eraill, sgôp ac amseriad yr archwiliad a'r canfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffyg sylweddol yn y rheolaeth fewnol yr wyf yn ei ganfod yn ystod fy archwiliad.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i mi gael gafael ar dystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a adroddir arnynt yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r pwrpasau y cawsant eu bwriadu ar eu cyfer gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Gwybodaeth Arall**

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw i fod wedi cael eu harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad i arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicrwydd arni. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, rwyf yn gyfrifol am ddarllen y wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, am ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu â'r wybodaeth a gefais drwy'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos i fod yn cam-ddatganiad pwysig fel arall. Os wyf yn casglu, ar sail fy ngwaith, bod y wybodaeth yma yn gam-ddatganiad pwysig, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol ac yn unol â chyfarwyddiadau gan Drysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a enillwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gam-ddatganiadau pwysig yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac wedi cael eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion yr adroddaf arnynt fel eithriad**
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y byddwn yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu digonol eu cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni blynyddol digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau na chawsant ymweliad gan fy staff; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni blynyddol; neu
- ni dderbyniais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**
Nid oes gennyf unrhyw sylw i'w wneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Syr Amyas C E Morse** **26 Mehefin 2018**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau Ariannol

# Datganiadau Ariannol

**Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

| | | | | | Ailddatganiad |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2017-18 | | 2016-17 |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 3a | (67,378) | | (62,360) | |
| Incwm gweithredol arall | 3b | (187,431) | | (235,390) | |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredol** | | | **(254,809)** | | **(297,750)** |
| Costau staff | 4a | 1,951,586 | | 1,850,101 | |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4b | 2,141,183 | | 2,219,828 | |
| Taliadau amhariad, dibrisio ac amorteiddio | 4c | 234,224 | | 386,975 | |
| Gwariant arall di-arian parod | 4d | 313,651 | | 94,345 | |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredol** | | | **4,640,644** | | **4,551,249** |
| **Gwariant Gweithredol Net** | | | **4,385,835** | | **4,253,499** |
| Traul gyllid | 4e | | 55,849 | | 64,764 |
| Colled / (enillion) net ar drosglwyddiadau drwy amsugno | 22 | | (56,779) | | - |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | | **4,384,905** | | **4,318,263** |

**Gwariant Cynhwysfawr Arall**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

| **Eitemau na fydd yn cael eu hailddosbarthu i'r gwariant gweithredol net:** | Nodiadau | | 2017-18<br>£'000 | | 2016-17<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Colled / (enillion) net ar ôl ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | | (555,481) | | (430,473) |
| Colled / (enillion) net ar ôl ailbrisio asedau anniriaethol | 6 | | (1,416) | | (5,390) |
| Colled / (enillion) net ar ôl ailbrisio asedau a gedwir i'w gwerthu | 7 | | - | | 399 |
| Ailfesur colled / (enillion) y rhwymedigaethau pensiwn net | 18 | | (171,492) | | 341,287 |
| **Cyfanswm Gwariant Cynhwysfawr** | | | **3,656,516** | | **4,224,086** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 109-148 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol
Ar 31 Mawrth 2018.

| | | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau Anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | 7,661,659 | | 7,153,248 | |
| Asedau anniriaethol | 6 | 96,207 | | 92,862 | |
| Buddsoddiadau | | 529 | | 467 | |
| **Cyfanswm Asedau Anghyfredol** | | | **7,758,395** | | **7,246,577** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Asedau a gedwir i'w gwerthu | 7 | 97,033 | | 10,600 | |
| Stoc-restri | 8 | 49,204 | | 42,471 | |
| Derbyniadau masnachol ac eraill | 9 | 162,836 | | 230,190 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 10 | 35,743 | | 26,225 | |
| **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | | **344,816** | | **309,486** |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **8,103,211** | | **7,556,063** |
| **Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 11a | (537,494) | | (716,281) | |
| Darpariaethau | 12 | (42,300) | | (43,393) | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol** | | | **(579,794)** | | **(759,674)** |
| **Asedau Anghyfredol llai Rhwymedigaethau Cyfredol Net** | | | **7,523,417** | | **6,796,389** |
| **Rhwymedigaethau Anghyfredol** | | | | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 11b | (218,936) | | (225,113) | |
| Darpariaethau | 12 | (214,034) | | (215,934) | |
| Rhwymedigaeth y diffyg pensiynau | 18b | (1,500,399) | | (1,578,376) | |
| **Cyfanswm Rhwymedigaethau Anghyfredol** | | | **(1,933,369)** | | **(2,019,423)** |
| **Asedau llai Rhwymedigaethau** | | | **5,590,048** | | **4,776,966** |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | | 2,862,084 | | 2,554,525 |
| Cronfa symiau ailbrisio | | | 2,727,964 | | 2,222,441 |
| **Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr** | | | **5,590,048** | | **4,776,966** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 109-148 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Michael Spurr**

Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth
20 Mehefin 2018

## Datganiad o'r Llif Arian Parod

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

| | | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Llif arian o weithgareddau gweithredol | | | | | |
| Gwariant Net | | (4,384,905) | | (4,318,263) | |
| Addasiadau am drafodion heb fod yn arian parod | | 499,425 | | 586,149 | |
| Addasiad am drafodion tybiannol gyda grŵp y MoJ | | 138,135 | | 28,806 | |
| Addasiad am gyfraniadau pensiwn a dalwyd, llai costau gwasanaeth | 18 | 51,838 | | 1,915 | |
| Lleihad / (cynnydd) yn y derbyniadau masnachol ac eraill | | | | | |
| Symudiad mewn derbyniadau masnachol ac eraill: | 9 | 67,354 | | (86,293) | |
| Llai: Amhariadau mewn derbyniadau masnachol ac eraill | 4 | (6,855) | | 862 | |
| Llai: Symudiad mewn derbyniadau elw'n dilyn gwaredu | | - | | (1,000) | |
| (Cynnydd) / lleihad mewn stoc-restri | 8 | (6,733) | | (3,701) | |
| Cynnydd / (lleihad) mewn taladwyon masnachol ac eraill: | | | | | |
| Symudiad mewn taladwyon masnachol ac eraill | 11a,11b | (184,964) | | 103,317 | |
| Llai: Symudiad yn elfennau cyfalaf y taliadau ar gyfer prydlesi cyllid a chontractau PFI ar y fantolen (SoFP) | 11a,11b | 6,023 | | 33,874 | |
| Llai: Symudiad mewn taladwyon eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | 1,735 | | (23,118) | |
| Llai: Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol i'r MoJ | | 9 | | 4 | |
| Defnydd o ddarpariaethau | 12 | (35,605) | | (37,273) | |
| **All-lif arian parod net (yn llifo allan) o weithgareddau gweithredol** | | | **(3,854,543)** | | **(3,714,721)** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | (179,465) | | (191,879) | |
| Prynu asedau anniriaethol | 6 | (30,172) | | (10,367) | |
| Elw o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar | | 8,894 | | 15,504 | |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | | **(200,743)** | | **(186,742)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | | | |
| Cyllid net a dderbyniwyd gan y MoJ | | 4,083,000 | | 3,953,517 | |
| Taliadau o symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol i'r MoJ | | (9) | | (4) | |
| Elfen gyfalaf y taliadau ar gyfer prydlesi cyllid a chontractau PFI ar y fantolen (SoFP) | 11a,11b | (18,187) | | (33,874) | |
| **Cyllido Net** | | | **4,064,804** | | **3,919,639** |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod dros y cyfnod** | | | **9,518** | | **18,176** |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 10 | 26,225 | | 8,049 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 10 | 35,743 | | 26,225 | |

| | | 2017-18 | | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | | **9,518** | | **18,176** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 109-148 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

| | Nodiadau | Ailddatganiad Y Gronfa Gyffredinol £'000 | Cronfa Symiau Ailbrisio £'000 | Ailddatganiad Cyfanswm y Cronfeydd £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2016** | | **3,000,318** | **1,916,149** | **4,916,467** |
| | | | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2016-17** | | | | |
| Gwariant net am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 | | (4,318,263) | - | **(4,318,263)** |
| **Enillion / (colled) net ar ôl ailbrisio:** | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | - | 430,473 | **430,473** |
| Asedau anniriaethol | 6 | - | 5,390 | **5,390** |
| Asedau a gedwir i'w gwerthu | 7 | - | (399) | **(399)** |
| Rhyddhau cronfeydd i'r Gronfa Gyffredinol | | 129,172 | (129,172) | **-** |
| Ailfesur y rhwymedigaethau pensiwn net | 18 | (341,287) | - | **(341,287)** |
| Cyllid gan y MoJ | | 3,953,517 | - | **3,953,517** |
| Setlo trafodion gyda'r MoJ | | 35,619 | - | **35,619** |
| **Eitemau tybiannol:** | | | | |
| Tâl yr Archwilydd | 4 | 273 | - | **273** |
| Elfen dybiannol ad-daliadau gorbenion y MoJ | 4 | 95,176 | - | **95,176** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2017** | | **2,554,525** | **2,222,441** | **4,776,966** |
| | | | | |
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr 2017-18** | | **-** | | |
| Gwariant net am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 | | (4,384,905) | - | **(4,384,905)** |
| **Enillion / (colled) net ar ôl ailbrisio:** | | | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | - | 555,481 | **555,481** |
| Asedau anniriaethol | 6 | - | 1,416 | **1,416** |
| Asedau a gedwir i'w gwerthu | 7 | - | - | **-** |
| Rhyddhau cronfeydd i'r Gronfa Gyffredinol | | 75,182 | (75,182) | **-** |
| Trosglwyddiadau gwariant net o'r YJB | | 19,940 | | **19,940** |
| Symiau Cronfa Ailbrisio wedi'u trosglwyddo o'r YJB | | (23,808) | 23,808 | **-** |
| Ailfesur y rhwymedigaethau pensiwn net | 18 | 171,492 | - | **171,492** |

| | Nodiadau | Ailddatganiad<br>Y Gronfa Gyffredinol<br>£'000 | Cronfa Symiau Ailbrisio<br>£'000 | Ailddatganiad<br>Cyfanswm y Cronfeydd<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid gan y MoJ | | 4,083,000 | - | **4,083,000** |
| Setlo trafodion gyda'r MoJ | | 138,135 | - | **138,135** |
| **Eitemau tybiannol:** | | | | |
| Tâl yr Archwilydd | 4 | 273 | - | **273** |
| Elfen dybiannol ad-daliadau gorbenion y MoJ | 4 | 228,250 | - | **228,250** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **2,862,084** | **2,727,964** | **5,590,048** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 109-148 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o’r Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Sail y paratoi

Paratowyd y Cyfrifon yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2017-18 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae’r polisïau cyfrifyddu yn yr FReM yn cymhwyso Safonau Rhyngwladol ar Adrodd Ariannol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu a'u dehongli ar gyfer y sector cyhoeddus.

Lle mae’r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd iddo fod yr un mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau arbennig Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS neu 'yr Asiantaeth') er mwyn gallu rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi eu mabwysiadu gan HMPPS isod. Maent wedi cael eu cymhwyso’n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyriwyd i fod yn bwysig i'r cyfrifon.

### 1.2 Y confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi’i addasu i ystyried ailbrisio asedau anghyfredol, asedau a gedwir i'w gwerthu, stoc-restri ac asedau ariannol, lle mae'r rheini'n berthnasol.

### 1.3 Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu a datgeliadau

#### a) Newidiadau i bolisïau cyfrifyddu

Nid oes unrhyw newid wedi bod i'r polisïau cyfrifyddu am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

#### b) Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig

Ni chafodd unrhyw safonau newydd na diwygiedig eu mabwysiadu am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

#### c) Safonau newydd, diwygiadau a dehongliadau a gyhoeddwyd, ond heb ddod i rym, am y flwyddyn ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2017, a heb eu mabwysiadu’n gynnar

Nid yw IFRS 9 Offerynnau Ariannol, IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid, ac IFRS 16 Prydlesi, eto mewn grym ar gyfer adroddiadau’r sector cyhoeddus.

Gallai IFRS 9 gael effaith ar y fethodoleg amhariadau a ddefnyddir gan HMPPS i brisio dyledion sy’n parhau i fod yn ddyledus, ond ni ddisgwylir i hyn gael effaith o bwys ar gyfrifon yn y dyfodol. Rhoddir manylion am falansau derbyniadau masnachol ac eraill yn Nodyn 9.

Nid oes disgwyl i IFRS 15 gael unrhyw effaith ar gyfrifon yn y dyfodol oherwydd nid yw contractau refeniw HMPPS yn croesi blynyddoedd ariannol. Rhoddir manylion am ffrydiau incwm HMPPS yn Nodyn 3.

Bydd IFRS 16 yn newid y ffordd y mae HMPPS yn cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu ei brydlesi. Mae'r safon yn darparu model cyfrifyddu prydlesai sengl yn gofyn bod prydleseion yn cydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai fod cyfnod y brydles yn 12 mis neu'n llai neu os yw'r ased dan sylw o werth isel. Ni wyddys beth fydd effaith lawn IFRS 16 ar HMPPS hyd nes y caiff ei mabwysiadu i'w defnyddio yn y sector cyhoeddus gan y FReM. Rhoddir manylion am ymrwymiadau prydles HMPPS yn Nodyn 14.

**d) Newidiadau mewn cyflwyno ac ailddosbarthiadau**

Mae dosbarthiadau o fewn costau staff (Nodyn 4a) a phrynu nwyddau a gwasanaethau (Note 4a) wedi eu diwygio i adlewyrchu natur y gwariant yn fwy cywir. Mae cymariaethau blynyddoedd blaenorol wedi'u hailddatgan i sicrhau y gellir cymharu ar draws blynyddoedd.

## 1.4 Busnes hyfyw

Un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yw HMPPS. Mae disgwyl i'r MoJ gyllido gweithgareddau HMPPS yn y dyfodol gydag arian y pleidleisir arno'n flynyddol o dan y Ddeddf Dyraniadau berthnasol.

## 1.5 Trosglwyddo drwy amsugno

Cyfrifir am swyddogaethau a drosglwyddir o fewn ffiniau adrannol y MoJ ar sail amsugno'n unol â'r FReM. Nid yw gwerth cario asedau a rhwymedigaethau'r swyddogaethau a drosglwyddir yn cael ei addasu i werth teg, ac nid yw ewyllys da'n cael ei gydnabod na chymariaethau'n cael eu hailddatgan yn y datganiadau ariannol. Mae gwerth cario asedau net y swyddogaethau a drosglwyddir yn cael ei gydnabod yn y trosglwyddai ar y dyddiad trosglwyddo. Cofnodir yr ased net neu'r rhwymedigaeth fel enillion neu golled anweithredol drwy wariant net, gyda'r trosglwyddwr yn cofnodi eitemau cwbl gymesur. Trosglwyddir symiau'r gronfa ailbrisio'n llawn, gyda'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

**Ailstrwythuro mewnol y MoJ**
Ar 1 Medi 2017, cafodd y cyfrifoldeb o reoli'r Ystad Pobl Ifanc o ddydd i ddydd ei drosglwyddo o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) i HMPPS. Dangosir effaith y trosglwyddo yn Nodyn 22.

## 1.6 Incwm gweithredol

Incwm gweithredol yw incwm yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu HMPPS ac sydd felly'n cael ei gydnabod fel refeniw yn y SoCN yn unol ag IAS 18. Rhoddir mwy o fanylion yn Nodyn 3.

Mae incwm gweithredol yn cael ei ddatgan net o TAW.

Mae cyllid gan y MoJ yn cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion FReM.

## 1.7 Costau tybiannol

Mae costau tybiannol yn cynnwys tâl yr archwilwyr allanol, sef costau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) am archwilio Cyfrifon HMPPS, a chostau tybiannol am ddefnydd HMPPS o wasanaethau corfforaethol y MoJ. Credydir y costau tybiannol hyn yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.8 Eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol

**Trothwy cyfalafu a chydnabod i ddechrau**
Caiff eiddo, peiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol, yn cynnwys gwariant yn dilyn ar asedau presennol, eu cydnabod i ddechrau ar sail cost. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau unigol yw £10,000 (yn cynnwys TAW na ellir ei adennill).

Mae asedau sylweddol a brynwyd sydd, ar wahân, o dan y trothwy cyfalafu ac mewn cysylltiad ag un prosiect, yn cael eu trin fel ased grŵp, gyda throthwy cyfalafu o £1m (yn cynnwys TAW na ellir ei adennill).

Mae asedau anniriaethol yn cael eu cydnabod os yw'n debygol y bydd gwasanaeth posib yn y dyfodol yn llifo i HMPPS a gellir mesur y gost yn ddibynadwy. Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd wedi'i ddatblygu gan drydydd partïon, gan gynnwys y MoJ, a thrwyddedau meddalwedd.

**Asedau ar ganol eu creu**
Mae asedau ar ganol eu creu'n cael eu prisio ar sail eu cost hanesyddol o dan eiddo, peiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol. Nid ydynt yn cael eu dibrisio hyd nes y cwblheir hwynt, pan fydd y gwerth cario'n cael ei drosglwyddo i'r categori asedau perthnasol. Mae gwariant yn cael ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddod ag ased i gyflwr gweithio, fel costau ymgynghorydd allanol, costau stafff perthnasol a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol.

**Prisio dilynol**
Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar, ac asedau anniriaethol, yn cael eu cario ar sail eu gwerth teg.

Mae tir ac adeiladau (gan gynnwys tai) yn cael eu cynnwys ar sail gwerth teg, fel y dehonglir hyn gan y FReM, ar sail prisiadau proffesiynol a gyflawnir am bob eiddo o leiaf unwaith bob pum mlynedd.

Cyflawnir prisiadau proffesiynol yn bennaf gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) drwy ddefnyddio Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), neu'r 'Llyfr Coch' fel y'i gelwir. Rhwng y prisiadau llawn, mae priswyr proffesiynol yn addasu'r gwerthoedd llyfr / cario drwy ddefnyddio mynegeion neu wneud prisiadau pen-desg.

Mae adeiladau carchar rhydd-ddaliadol a Chanolfannau Hyfforddi Diogel yn adeiladau arbenigol na ellir eu gwerthu ar y farchnad agored. Mae adeiladau arbenigol yn cael eu cario ar sail cost ail-godi adeilad modern cyfwerth, wedi dibrisio, yn unol â'r Llyfr Coch, wedi'i addasu i ystyried faint y mae’r eiddo wedi darfod o ran swyddogaeth.

Mae asedau a gadwyd am eu potensial gwasanaeth ond sydd nawr yn weddill i ofynion, yn cael eu prisio ar sail gwerth cyfredol eu defnydd presennol lle mae cyfyngiadau ar HMPPS neu'r ased a fyddai, ar y dyddiad adrodd, yn atal mynediad i'r farchnad. Fel arall, caiff ased sy'n weddill i ofynion ei phrisio ar sail ei gwerth teg yn unol ag IFRS 13.

Wrth benderfynu a yw ased anweithredol yn weddill i ofynion, mae HMPPS yn asesu a oes cynllun clir i ailddefnyddio'r ased eto fel ased weithredol. Lle mae cynllun clir, cedwir yr ased ar sail gwerth cyfredol ei defnydd presennol. Fel arall, asesir yr ased fel un sy'n weddill i ofynion a'i phrisio ar sail ei gwerth teg o dan IFRS 13.

Mae ffermydd a thir rhydd-ddaliadol sy'n weddill i ofynion, llety swyddogion carchar a rhai adeiladau anarbenigol eraill, yn cael eu cario ar sail prisiadau'r farchnad agored.

Cofnodir asedau di-eiddo ar sail cost eu prynu a'u hailddatgan ar bob dyddiad adrodd yn defnyddio'r Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Oherwydd nad oes marchnad weithredol i'r asedau anniriaethol sydd gan HMPPS, asesir eu gwerth teg ar sail swm yr ailbrisio llai unrhyw golledion amhariad ac amorteiddio sydd wedi cronni. Caiff asedau anniriaethol eu hailbrisio ar bob dyddiad adrodd yn defnyddio Mynegai Prisiau Cynhyrchwyr Gwasanaethau'r ONS.

**Hierarchaeth gwerth teg a mewnbynnau**
Y dechneg brisio a ddefnyddir gyda holl brisiau Gwerth Teg unrhyw eiddo anweithredol sy'n weddill i ofynion, yw'r dull marchnad sy'n unol ag IFRS 13; gan ddefnyddio prisiau a gwybodaeth berthnasol arall a gynhyrchir gan drafodion marchnad yn ymwneud ag asedau unfath neu gymharol (hynny yw, tebyg).

Mae'r mewnbynnau i'r dechneg hon yn cynnwys mewnbynnau lefel 2 bob tro. Mewnbynnau lefel 2 yw rhai y gellir sylwi arnynt, yn union neu'n anuniongyrchol, ar gyfer yr ased. Y mewnbynnau hyn yw tystiolaeth farchnad wedi'i dadansoddi a'i phwysoli, e.e. gwerthiannau, rhenti ac incwm o eiddo cymharol yn yr un lleoliadau, neu rai tebyg, ar neu o gwmpas y dyddiad prisio.

**Dibrisio ac amorteiddio**
Codir disbrisiad ac amorteiddio ar sail llinell syth ar gyfraddau sydd wedi'u cyfrifo i ddileu gwerth yr asedau, llai eu hamcan-werth gweddilliol, yn gyfartal dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig neu, gydag asedau prydles, dros fywyd y brydles neu'r cyfnod sydd ymhlyg yn yr amserlen ad-dalu. Adolygir bywydau defnyddiol yn flynyddol. Yn dilyn newid i fywyd ased neu gategori asedau, codir disbrisiad ar sail llinell syth dros weddill bywyd yr ased. Mae dibrisio'n dechrau yn y mis yn syth ar ôl prynu neu gaffael yr ased anghyfredol.

Os yw ased yn cynnwys dwy ran sylweddol neu fwy, gyda bywydau defnyddiol hollol wahanol, yna caiff pob rhan ei thrin ar wahân i bwrpas dibrisio a’i dibrisio dros ei bywyd defnyddiol unigol. Mae amcan-fywydau defnyddiol asedau yn disgyn i'r ystodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Tir rhydd-ddaliadol | Ddim yn cael ei ddibrisio |
| Adeiladau rhydd-ddaliadol, gan gynnwys tai | Y bywyd sydd ar ôl neu hyd at 60 mlynedd (hyd at 55 mlynedd ar gyfer tai), pa un bynnag sydd leiaf, gan ddibynnu ar yr adeilad |
| Adeiladau ar brydles, gan gynnwys tai | Y bywyd sydd ar ôl, faint o'r brydles sydd ar ôl neu hyd at 50 mlynedd (hyd at 55 mlynedd ar gyfer tai), p'un bynnag sydd leiaf |
| Technoleg gwybodaeth<br>Peiriannau a chyfarpar<br>Dodrefn, ffitiadau a gosodion | 3-15 mlynedd gan ddibynnu ar y math o ased unigol |
| Cerbydau | 5-15 mlynedd gan ddibynnu ar y math o ased unigol |
| Asedau anniriaethol - meddalwedd | 3-10 mlynedd |
| Asedau anniriaethol - trwyddedau | Hyd y drwydded |

### 1.8 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu

Caiff asedau anghyfredol eu dosbarthu fel rhai a gedwir i’w gwerthu pan fwriedir adennill eu gwerth llyfr / cario drwy werthu, ac mae’r gwerthiant hwnnw’n debygol iawn. Caiff asedau a gedwir i’w gwerthu eu datgan naill ai ar sail eu gwerth cario'n syth cyn eu dosbarthu fel rhai ‘a gedwir i’w gwerthu’, neu ar sail eu gwerth teg llai cost eu gwerthu, pa un bynnag sydd leiaf. Mae unrhyw amhariad ar ôl hynny, neu amhariad wedi’i wrthdroi , yn cael ei gydnabod yn y SoCNE. Nid yw asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu'n cael eu dibrisio.

### 1.9 Amhariad

Mae amhariad yn adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad i ddefnyddio’r manteision economaidd neu’r potensial gwasanaeth. Ar bob dyddiad adrodd, mae HMPPS yn asesu’r holl asedau am arwyddion o amhariad. Os oes arwydd o amhariad, mae’r asedau dan sylw’n cael eu profi am amhariad drwy gymharu gwerth llyfr / cario'r asedau â’r symiau y gellid eu hadennill ar eu cyfer. Lle mae swm adennill ased yn llai na’i gwerth cario, mae gwerth cario'r ased yn cael ei leihau i’r swm y gellid ei adennill ar ei chyfer.

Mae colledion amhariad yn cael eu cydnabod yn y SoCNE, heblaw lle mae'r ased wedi'i hailbrisio'n flaenorol a swm cronfa ailbrisio'n cael ei gadw ar ei chyfer. Yn yr achos hwn,

mae'r swm ailbrisio'n cael ei ryddhau'n gyntaf, yna'r amhariad sy'n weddill yn cael ei godi ar y SoCNE. Mae colledion amhariad o ganlyniad i ddefnydd clir o'r fantais economaidd yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol yn y SoCNE, ac unrhyw swm cronfa ailbrisio ar gyfer yr ased yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

## 1.10 Prydlesi

**Prydlesi cyllid**
Mae asedau prydles lle mae HMPPS yn cadw holl risgiau a manteision bod yn berchennog arnynt, yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae asedau a rhwymedigaethau prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar ddechrau’r brydles naill ai ar sail gwerth teg yr eiddo neu'r cyfarpar ar brydles neu werth presennol y taliadau prydles isaf, pa un bynnag sydd isaf.

Mae pob taliad prydles yn cael ei ddyrannu rhwng y taliadau rhwymedigaethau a chyllid. Mae’r ymrwymiadau rhent cyfatebol, net y taliadau cyllid, yn cael eu cynnwys o dan Daladwyon Masnachol. Mae HMPPS wedi ymrwymo drwy gontract i wneud taliadau rhent. Mae elfen llog cost y cyllid yn cael ei chodi ar y SoCNE dros gyfnod y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddilliol y rhwymedigaeth am bob cyfnod.

**Prydlesi gweithredol**
Mae prydlesi heblaw rhai cyllid yn cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredol. Mae taliadau a wneir o dan brydlesi gweithredol (net unrhyw gymhellion a dderbyniwyd gan y prydlesydd) yn cael eu codi ar y SoCNE ar sail llinell syth.

## 1.11 Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth gan gynnwys trefniadau Mentrau Cyllid Preifat

Trefniadau consesiwn gwasanaeth (SCA), gan gynnwys trefniadau Mentrau Cyllid Preifat (PFI), yw trefniadau lle mae gan weithredwyr sector preifat ymrwymiad drwy gontract i ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng nghyswllt asedau seilwaith penodol. Mae HMPPS yn diffinio’r trefniadau hyn fel rhai SCA os ydynt yn cwrdd ag amodau a ddiffinnir yn IFRIC 12 ‘Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth’, fel y cawsant eu haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus gan y FReM. Asesir ffrydiau talu yn y dyfodol i adnabod yr elfennau seilwaith, llog a gwasanaeth ar wahân.

Mae HMPPS yn cydnabod yr ased seilwaith ar sail ei gwerth teg (neu werth presennol y taliadau seilwaith isaf yn y dyfodol, lle mae’n is) fel ased anghyfredol yn y SoFP, gyda rhwymedigaeth gyfatebol i wneud taliadau yn y dyfodol o dan y cytundeb. Codir yr elfen wasanaeth ar y SoCNE wrth i wasanaethau gael eu darparu gan y gweithredwr.

Codir yr elfen llog ar y SoCNE dros gyfnod y contract i gynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar weddill y rhwymedigaeth.  Mae trefniadau PFI carchardai hŷn a SCA eraill yn defnyddio cyfraddau disgownt y Trysorlys. Bydd contract PFI CEM Thameside, a lle bo hynny'n bosib, unrhyw gontractau PFI yn y dyfodol, yn defnyddio'r gyfradd llog ymhlyg yn y contract.

Yn ogystal â chontractau Canolfannau Hyfforddi Diogel a Charchardai PFI, mae'r contract Hebrwng a Dal Carcharorion (PECS) yn cwrdd â'r amodau ar gyfer SCA. Mae'r ymrwymiadau'n cael eu cydnabod yn Nodyn 13.

### 1.12 Stoc-restri

Mae stoc-restri'n cynnwys deunyddiau crai, gwaith ar ei ganol, nwyddau gorffenedig ac eitemau traul. Caiff stoc-restri eu prisio naill ai ar sail cost adnewyddu neu werth net eu gwerthu, p'un bynnag sydd isaf. Ni ystyrir bod cost adnewyddu'n sylweddol wahanol i'r gost hanesyddol.

### 1.13 Buddion gweithwyr

**Pensiynau - PCSPS**
Mae’r rhan fwyaf o'r staff blaenorol a phresennol ym Mhencadlys a charchardai HMPPS yn dod o dan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Er bod hwn yn gynllun buddion diffiniedig heb ei ariannu, yn unol ag addasiad FReM o IAS 19, mae HMPPS yn cyfrif amdano fel cynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae HMPPS yn cydnabod cyfraniadau taladwy fel traul yn y flwyddyn yr achosir hwynt, gyda’r ymrwymiad cyfreithiol neu ddeongliadol (ar sail ymddygiad blaenorol) wedi’i gyfyngu i’r swm y mae’n cytuno i’w gyfrannu i’r gronfa.

**Pensiynau - Cynllun Buddion Diffiniedig LGPS y Gwasanaeth Prawf**
Daw staff prawf HMPPS a chyn-weithwyr yr Ymddiriedolaethau Prawf, gan gynnwys rhai a drosglwyddodd i gwmnïau CRC, o dan ddarpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), drwy gronfa bensiwn a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Manceinion Fwyaf (GMPF). Cynllun buddion diffiniedig wedi'i ariannu yw hwn. Mae buddion ymddeol yn cael eu penderfynu'n annibynnol i'r buddsoddiadau yn y cynllun, a rhaid i gyflogwyr wneud cyfraniadau ychwanegol lle nad yw'r asedau'n ddigon i gwrdd â'r buddion ymddeol presennol ac yn y dyfodol.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder wedi rhoi gwarant i'r GMPF ynghylch cyfranogiad y cwmnïau CRC yn y GMPF ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn a drosglwyddodd i'r cwmnïau.

Mae'r gronfa bensiwn yn cael ei phrisio gan actiwari annibynnol bob tair blynedd i benderfynu ar gyfradd gyfrannu pob gweithiwr. Y prisiad ffurfiol diwethaf gan actiwari oedd ar 31 Mawrth 2016; cafodd ei gyflawni yn 2016. Dangoswyd canlyniadau'r prisiad ar 31 Mawrth 2016 yn adroddiad yr actiwari ar 31 Mawrth 2017 a'u hadlewyrchu yng nghyfrifon 2016-17.

Mae HMPPS yn derbyn cyfrifiad proffesiynol o'r sefyllfa bensiynau ar y dyddiad adrodd, gan Hymans Robertson LLP, actiwari annibynnol ar gyfer y GMPF. Mae'r tybiaethau sy'n ategu cyfrifiadau'r actiwari'n cael eu hadolygu fel rhan o broses adrodd ac archwilio blynyddol HMPPS.

Rhwymedigaeth y cynllun yw gwerth presennol yr ymrwymiad buddion diffiniedig, llai gwerth teg asedau'r cynllun. Mae gwerth presennol yr ymrwymiad yn cael ei benderfynu

drwy ddisgowntio'r amcan-arian parod fydd yn llifo allan yn y dyfodol drwy ddefnyddio cyfraddau ar gyngor actiwari'r cynllun. Rhwng prisiadau actiwaraidd ffurfiol, mae'r ymrwymiad yn cael ei asesu drwy addasu'r prisiad llawn diweddaraf yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am yr aelodaeth.

Mae enillion a cholledion ar ôl ail-fesur yn cael eu cydnabod yn llawn yn y Gwariant Cynhwysfawr Arall am y cyfnod yr achosir hwynt. Mae costau gwasanaeth i'r SoCNE yn cael eu gwasgaru'n systematig dros fywydau gweithio'r staff. Mae'r llog a godir ar y SoCNE yn adlewyrchu ymddatod y disgownt ar rwymedigaethau net y cynllun.

**Cynllun Buddion Anafiadau'r Gwasanaeth Sifil**
Rhaid i HMPPS dalu buddion i staff sy'n aelodau o'r PCSPS o dan Gynllun Buddion Anafiadau'r Gwasanaeth Sifil. Mae Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) yn darparu cyfraddau blwydd-daliadau blynyddol bywyd cyfan (ar gyfer gwerth cyfan y rhwymedigaeth), 1 flwyddyn a rhwng 1-5 mlynedd (ar gyfer gwerthoedd llif arian parod). Mae'r tybiaethau hyn yn ystyried gwerth am arian amser.

## 1.14 Darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn

Darpariaeth yw rhwymedigaeth o amseriad neu swm ansicr. Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan yr LAA ymrwymiad cyfreithiol neu ddeongliadol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, a lle mae’n debyg y bydd angen i fudd economaidd lifo allan i setlo’r ymrwymiad a lle gellir amcangyfrif swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy. Os yw derbyn taliad yn llai na thebygol, ond yn fwy nag annhebygol, caiff rhwymedigaeth wrth gefn ei datgelu yn y cyfrifon.

Caiff darpariaethau a rhwymedigaethau wrth gefn eu prisio ar sail yr amcan-wariant gorau sydd ei angen i setlo’r ymrwymiad. Maen nhw'n cael eu disgowntio i'w gwerth presennol yn defnyddio cyfraddau Trysorlys EM, lle mae'r effaith yn un o bwys.

## 1.15 Treth ar Werth (TAW)

Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau HMPPS y tu allan i sgôp TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allbwn yn berthnasol ac ni ellir adennill treth mewnbwn. Mae TAW na ellir ei hadennill yn cael ei chodi ar y categori gwariant perthnasol neu ei chynnwys yng nghost prynu cyfalaf unrhyw asedau anghyfredol. Lle codir allbwn TAW neu lle gellir adennill mewnbwn TAW, cofnodir y symiau fel rhai net o TAW.

## 1.16 Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu beirniadol

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau’n cael eu gwerthuso’n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau i ddod y credir iddynt fod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae HMPPS yn gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch y dyfodol. Drwy ddiffiniad, pur anaml y bydd yr amcangyfrifon cyfrifyddu'n cyfateb i'r union ganlyniadau. Yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i werthoedd llyfr / cario asedau a rhwymedigaethau dros y flwyddyn ariannol nesaf yw:

***Prisiadau asedau anghyfredol***

Mae tir ac adeiladau'n golygu carchardai yn bennaf, a ddangosir ar sail eu gwerth teg, ar sail prisiadau proffesiynol. Mae eu gwerth yn amrywio yn ôl y newidiadau mewn costau adeiladau a gwerth y farchnad dir ac adeiladau.

***Costau pensiynau'r LGPS***

Mae gwerth presennol y rhwymedigaeth bensiwn net yn dibynnu ar dybiaethau actiwari ynghylch chwyddiant, tueddiadau cyflog a phensiwn, ffactorau disgownt a chyfraddau marwolaeth. Mae'r amcan-rwymedigaeth yn amrywio oherwydd bod y tybiaethau hyn yn newid dros amser ac oherwydd gwahaniaethau rhwng y tybiaethau a digwyddiadau go iawn.

***Darpariaethau***

Mae cydnabod a mesur darpariaethau'n dibynnu ar farn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill fydd yn dylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae balansau darpariaeth sy'n aml yn cynnwys trafodion rheolaidd homogenaidd yn deillio'n aml o fodelau ariannol cymhleth. Lle ystyrir bod y siawns o rwymedigaeth yn codi'n debygol a gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, mae darpariaeth yn cael ei chydnabod.

***Cyfrifyddu prydlesi***

Mae angen gwneud dyfarniad wrth ddosbarthu prydles newydd naill ai fel prydles weithredol neu brydles gyllid. Lle cymerir prydles ar dir ac adeiladau gyda’i gilydd, gellir cyfalafu’r elfennau tir ac adeiladau fel prydlesi cyllid ar wahân os ydynt yn cwrdd â’r meini prawf. Os nad yw taliadau cytundebol y brydles wedi eu rhannu rhwng y tir a’r adeiladau yng nghontract y brydles, mae’r rhannu’n cael ei wneud ar sail gwerthoedd marchnad y tir a’r adeiladau ar ddechrau’r brydles.

***Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth***

Er mwyn dosbarthu trefniadau fel rhai SCA, rhaid i HMPPS benderfynu, drwy werthuso telerau ac amodau'r trefniadau, a yw'n rheoli'r seilwaith. Lle bernir bod HMPPS yn rheoli'r seilwaith, mae asedau'r contract yn cael eu hadlewyrchu yn y SoFP.

## 2. Datganiad o Gostau Gweithredu yn ôl Segment Gweithredu

Mae'r datganiad o gostau gweithredu yn ôl segmentau gweithredu'n cyflwyno'r wybodaeth gostau gweithredu net ar sail y strwythur a adroddir i Fwrdd HMPPS. Mae'r segmentau'n adlewyrchu strwythur cyfarwyddiaethau HMPPS er mwyn rhoi darlun clir i'r Bwrdd o gostau gweithredu'r gwasanaethau rheng flaen. Nid yw'r costau net ar gyfer cyfarwyddiaethau lle mae'r gyllideb yn nwylo'r MoJ yn cael eu hadrodd i Fwrdd HMPPS. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol ac Ystadau'r MoJ a'r Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol.

Mae strwythur cyfarwyddiaethau HMPPS fel a ganlyn:

**Carchardai Sector Cyhoeddus**
Mae'r gyfarwyddiaeth Carchardai Cyhoeddus yn gyfrifol am ddarparu rheolaeth llinell ac arweinyddiaeth i garchardai cyhoeddus yn Lloegr. Mae'n gyfrifol am drawsnewid carchardai cyhoeddus i'w gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon a pharhau i drin troseddwyr gyda gwedduster. Mae'r gyfarwyddiaeth hefyd yn cynnwys Carcharu Mwy Diogel ac Amddiffyn y Cyhoedd.

**Contractau Carcharu**
Mae'r gyfarwyddiaeth Contractau Carcharu'n gyfrifol am ystod o gontractau traws-system a chyrff trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau troseddwyr, gan gynnwys contractau gyda'r carchardai preifat, gwasanaethau hebrwng a dal carcharorion a rheoli cyfleusterau carchar. Drwy'r contractau hyn, mae'r gyfarwyddiaeth yn ceisio sicrhau bod y system gyfan yn gweithio'n dda, gan hyrwyddo a chefnogi integreiddio gwasanaethau ar lefel leol.

**Gwasanaeth Carcharu’r Ifanc**
Mae Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc (YCS) yn gangen benodol o HMPPS ac yn gyfrifol am holl agweddau'r gwaith a wneir â phobl ifanc (10-17 oed) mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI) a Chanolfannau Hyfforddi Diogel (STC) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r YCS hefyd yn gyfrifol am Feltham B Side (18-24 oed) ac am gadw trosolwg ar blant mewn wyth Cartref Plant Diogel dan gontract rhwng HMPPS ac awdurdodau lleol.

**Prawf a Merched**
Mae'r gyfarwyddiaeth Prawf a Merched yn gyfrifol am reolaeth llinell ac arweinyddiaeth yng nghyswllt gwasanaethau prawf yn Lloegr. Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn wasanaeth cyfiawnder troseddol statudol sy'n goruchwylio troseddwyr risg uchel a ryddheir i'r gymuned, gan weithio'n agos â phartneriaethau darparu lleol yn cynnwys carchardai, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a darparwyr eraill. Mae'r gyfarwyddiaeth hefyd yn cyflwyno adroddiadau cyn-dedfrydu i'r llysoedd yn cynghori ar y ddedfryd briodol i bawb a gafwyd yn euog o drosedd. Mae'r Ystad Ferched wedi parhau i gadw ffocws clir ar anghenion penodol a neilltuol merched-droseddwyr yn y carchar a'r gymuned, ac wedi gwella’r trefniadau fel bod merched yn y carchar yn gallu aros mewn cysylltiad yn well â’u plant i gefnogi adsefydlu a gofal teuluol hirdymor mwy effeithiol.

**HMPPS Cymru**
Mae cyfarwyddiaeth HMPPS Cymru'n gyfrifol am garchardai cyhoeddus yng Nghymru, am reolaeth llinell o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru ac am reoli contract y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r carchar preifat, CEM Parc Pen-y-bont ar Ogwr. Un o bwyntiau ffocws pwysig y gyfarwyddiaeth yw cynrychioli HMPPS gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol.

**Ymyriadau Cymunedol**
Mae'r gyfarwyddiaeth Ymyriadau Cymunedol yn rheoli nifer o gyrff trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau troseddwyr: contract y Gwasanaethau Cymorth a Llety Mechnïaeth (BASS) a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

**Monitro Electronig**
Offeryn rheoli troseddwyr lefel isel effeithiol iawn yw monitro electronig, sy'n gallu rhoi cyfle i droseddwyr, a rhai dan amheuaeth, gadw mewn cysylltiad â'r gymuned ond amddiffyn y cyhoedd ar yr un pryd. Mae'r gyfarwyddiaeth Monitro Electronig yn gyfrifol am ddatblygu gwasanaeth cenedlaethol newydd fel bod HMPPS yn gallu monitro troseddwyr hyd yn oed yn fwy effeithiol ac arloesol i gefnogi'r broses o ddiwygio'r system gyfiawnder.

**Cymorth Gweithredol**
Mae hyn yn cynnwys y cyfarwyddiaethau Adnoddau Dynol; Trawsnewid yr Ystad; Diogelwch, Trefn a Gwrth-Derfysgaeth; Adsefydlu a Sicrwydd (R&A) a'r Prif Swyddog Gweithredol (CEO). Mae R&A yn cynnwys Sicrwydd Gweithredol ac mae'r CEO yn gyfrifol am Swyddfa Rheoli Gweithredol HMPPS. Mae hefyd yn cynnwys cyflogau a chostau staff eraill am Ymyriadau Cymunedol.

Mae Tabl 2a yn cyflwyno'r gwariant ar adnoddau, sy'n cael ei adrodd i'r Bwrdd yn ôl segment. Mae Tabl 2b yn cysoni'r cyfanswm hwn i'r SoCNE, sydd hefyd yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) a gwariant SoCNE sy'n cyfrif tuag at gyfalaf i bwrpas cyllidebu. Mae'r fformat adrodd wedi'i ddiwygio ar gyfer 2017-18 i adlewyrchu strwythur HMPPS. Mae all-dro 2016-17 wedi'i ailddatgan yn y fformat newydd, er mwyn gallu cymharu.

## 2a Cyfanswm y gwariant adnoddau net a adroddwyd i'r Bwrdd yn 2017-18

| | | | 2017-18 |
|---|---|---|---|
| | Gwariant gros £'000 | Incwm £'000 | Net £'000 |
| Carchardai Sector Cyhoeddus | 1,736,472 | (145,403) | **1,591,069** |
| Contractau Carcharu | 849,358 | (30,842) | **818,516** |
| Gwasanaeth Carcharu'r Ifanc | 132,864 | (29,550) | **103,314** |
| Prawf a Merched | 428,289 | (12,943) | **415,346** |
| HMPPS Cymru | 192,577 | (9,323) | **183,254** |
| Monitro Electronig | 70,484 | (1,662) | **68,822** |
| Ymyriadau Cymunedol | 368,961 | 186 | **369,147** |
| Cymorth Gweithredol | 186,847 | (6,045) | **180,802** |

| | Gwariant gros £’000 | Incwm £’000 | 2017-18 Net £’000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **3,965,852** | **(235,582)** | **3,730,270** |

## 2b Cysoni rhwng y segmentau gweithredu a'r SoCNE yn 2017-18

| | Gwariant gros £’000 | Incwm £’000 | 2017-18 Net £’000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gwariant net yn ôl segment gweithredu a adroddwyd i'r Bwrdd** | 3,965,852 | (235,582) | **3,730,270** |
| Cyfrifo ar gyfer carchardai PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth | (3,534) | - | **(3,534)** |
| Costau HMPPS lle mae'r gyllideb yn nwylo'r MoJ | 401,147 | (19,582) | **381,565** |
| Ad-daliadau gorbenion y MoJ | 314,088 | - | **314,088** |
| Incwm a gwariant cyfalaf | 8,897 | - | **8,897** |
| Enillion net ar drosglwyddiadau drwy amsugno | (56,779) | - | **(56,779)** |
| Gwariant arall, gan gynnwys cyfrifo ar gyfer darpariaethau | 10,043 | 355 | **10,398** |
| **Cyfanswm y gwariant net am bob SoCNE** | **4,639,714** | **(254,809)** | **4,384,905** |

## 2a Cyfanswm y gwariant adnoddau net a adroddwyd i'r Bwrdd yn 2016-17

| | Gwariant gros £’000 | Incwm £’000 | 2016-17 Net £’000 |
|---|---|---|---|
| Carchardai Sector Cyhoeddus | 1,656,255 | (148,677) | **1,507,578** |
| Contractau Carcharu | 812,735 | (32,800) | **779,935** |
| Gwasanaeth Carcharu’r Ifanc | 61,628 | (40,383) | **21,245** |
| Prawf a Merched | 430,805 | (17,196) | **413,609** |
| HMPPS Cymru | 167,471 | (10,987) | **156,484** |
| Monitro Electronig | 76,383 | (2,268) | **74,115** |
| Ymyriadau Cymunedol | 384,197 | (61) | **384,136** |
| Cymorth Gweithredol | 144,955 | (8,971) | **135,984** |
| **Cyfanswm** | **3,734,429** | **(261,343)** | **3,473,086** |

## 2b Cysoni rhwng y segmentau gweithredu a'r SoCNE yn 2016-17

| | Gross expenditure £’000 | Income £’000 | 2016-17 Net £’000 |
|---|---|---|---|

| | Gross expenditure £'000 | Income £'000 | 2016-17 Net £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm gwariant net yn ôl segment gweithredu a adroddwyd i'r Bwrdd** | **3,734,429** | **(261,343)** | **3,473,086** |
| Cyfrifo ar gyfer carchardai PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth | (2,405) | - | **(2,405)** |
| Cyllidebau yn nwylo'r MoJ | 711,925 | (9,428) | **702,497** |
| Ad-daliadau gorbenion y MoJ | 95,172 | - | **95,172** |
| Gwariant arall, gan gynnwys cyfrifo ar gyfer darpariaethau | 49,913 | - | **49,913** |
| **Cyfanswm y gwariant net am bob SoCNE** | **4,589,034** | **(270,771)** | **4,318,263** |

## 3. Incwm

| | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|
| **(a) Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau** | | |
| Gwerthiannau allanol o ddiwydiannau carchar | 12,431 | 9,884 |
| Incwm o siopau carchar | 53,092 | 50,594 |
| Incwm o deledu yn-y-gell | 1,855 | 1,882 |
| **Cyfanswm yr incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau** | **67,378** | **62,360** |
| | | |
| **(b) Incwm gweithredol arall** | | |
| Cyllido troseddwyr ifanc (YJB a'r MoJ) | 34,422 | 63,536 |
| Y GIG a darparwyr gofal iechyd eraill | 56,386 | 56,268 |
| Cyllid o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac arian Ewropeaidd arall | 22,777 | 20,194 |
| Llywodraeth Cymru | 3,724 | 3,199 |
| Y Swyddfa Gartref | 47,816 | 52,912 |
| Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol | 11,616 | 27,541 |
| Incwm Arall | 10,690 | 11,740 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredol arall** | **187,431** | **235,390** |
| | | |
| **Cyfanswm yr Incwm Gweithredol** | **254,809** | **297,750** |

Mae incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau'n cynnwys gwerthu nwyddau a gynhyrchir gan ddiwydiannau carchar, a gwerthu i garcharorion drwy siopau carchar a'r cynllun cymhellion ac ennill breintiau.

Mae incwm gweithredol arall yn cynnwys incwm gan: Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) a'r MoJ am ddarparu llefydd carcharu'r ifanc; gan y Swyddfa Gartref am ddarparu

gwasanaethau carcharu i garcharorion sy'n wladolion tramor, am redeg canolfannau cadw mewnfudwyr (drwy Fisâu a Mewnfudo'r DU) a gwaith gwrth-derfysgaeth; gan yr Undeb Ewropeaidd am wasanaethau ailsefydlu; gan y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol am ddarparu ystadau a TG; a chan NHS England, darparwyr sector preifat a Llywodraeth Cymru am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

Mae incwm am wasanaethau a ddarperir yn cael ei adennill yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth (SLA) perthnasol ar sail costau llawn.

## 4. Gwariant

### 4a Nifer y staff a chostau cysylltiedig

Mae nifer y staff a manylion pellach am gostau cysylltiedig, gan gynnwys pecynnau gadael, yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiad Taliadau a Staff ar dudalennau 79-95.

| | | Ailddatganiad |
|---|---|---|
| | **2017-18** | **2016-17** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau wythnosol a misol | 1,392,697 | 1,357,675 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 147,554 | 135,552 |
| Costau pensiwn | 342,431 | 288,377 |
| Costau staff asiantaeth | 60,903 | 50,773 |
| Taliadau gadael a diswyddo | 9,833 | 17,818 |
| Secondiadau o'r tu allan | 4,768 | 5,842 |
| **Is-gyfanswm** | **1,958,186** | **1,856,037** |
| | | |
| Refeniw wedi'i adennill drwy secondiadau i'r tu allan | (6,600) | (5,936) |
| **Cyfanswm y costau net** | **1,951,586** | **1,850,101** |

Mae taliadau gadael a diswyddo 2016-17 wedi eu hailddatgan o £6.2m. Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer costau ymddeol yn gynnar a gwirfoddoli i adael yn gynnar wedi'u hailddosbarthu o Draul Darpariaeth i'r adran Taliadau Gadael a Diswyddo. Mae Buddion Anafiadau wedi'i ailddosbarthu o Daliadau Gadael a Diswyddo a'i gynnwys o dan Gostau Iawndal. Gwnaed yr ailddosbarthiad hwn i adlewyrchu natur y costau hyn yn well.

Mae'r Lefi Brentisiaeth, a ddaeth i rym ar draws Lloegr ar 6 Ebrill 2017, yn dreth gyflogaeth newydd o 0.5% o'r bil cyflogau blynyddol; mae'r gost wedi'i chynnwys yn y costau nawdd cymdeithasol. Rhoddir mwy o fanylion am y Lefi Brentisiaeth ar wefan gov.uk yn: https://www.gov.uk/government/publications/apprenticeship-levy-how-it-will-work.

## 4b Prynu nwyddau a gwasanaethau

| | Nodiadau | 2017-18<br>£'000 | Ailddatganiad<br>2016-17<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Taliadau am wasanaethau carchardai PFI ac am garchardai a reolir | | 429,554 | 414,388 |
| Taliadau SCA am Wasanaethau Hebrwng a Dal Carcharorion | | 121,976 | 119,109 |
| Monitro Electronig | | 59,899 | 66,115 |
| Gwasanaethau prawf dan gontract (CRC) | | 388,623 | 410,125 |
| Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau | | 410,781 | 403,194 |
| Costau'n ymwneud â throseddwyr | | 323,428 | 303,011 |
| Addysg troseddwyr | | 158,274 | 146,682 |
| Cartrefi Diogel i Blant | | 14,723 | - |
| Canolfannau Hyfforddi Diogel | | 17,933 | - |
| Gwasanaethau TG a thelathrebu | | 6,380 | 184,194 |
| Costau hyfforddi a chostau staff cysylltiedig | | 45,495 | 28,171 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | 46,426 | 33,954 |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 35,931 | 24,915 |
| Cyfathrebu, gwasanaethau a nwyddau swyddfa | | 13,284 | 13,205 |
| Costau iawndal | | 34,218 | 35,395 |
| Costau eraill | | 34,258 | 37,370 |
| **Cyfanswm prynu nwyddau a gwasanaethau** | | **2,141,183** | **2,219,828** |

Mae prynu nwyddau a gwasanaethau 2016-17 wedi eu hailddatgan drwy ailddosbarthu taliadau SCA ar gyfer Gwasanaethau Hebrwng a Dal Carcharorion ar wahân i Fonitro Electronig.

Mae costau llety, cynnal a chadw a chyfleustodau 2016-17 wedi eu hailddatgan o £19.3m drwy ailddosbarthu symudiadau yn y darpariaethau ar gyfer dadfeilio eiddo prydles o'r adran Traul Darpariaeth. Mae costau troseddwyr, hyfforddiant a chostau staff cysylltiedig eraill, a chostau eraill, i gyd wedi eu hailddatgan drwy ddosbarthu costau iawndal ar wahân. Mae costau iawndal yn cynnwys iawndal a dalwyd i staff, carcharorion a thrydydd partïon, a hefyd yn cynnwys symudiadau yn y darpariaethau am gostau ymgyfreitha. Gwneir yr ailddosbarthiadau hyn i adlewyrchu natur y costau hyn yn well.

Mae prynu nwyddau a gwasanaethau 2017-18 yn cynnwys gwariant ar Gartrefi Plant Diogel a Chanolfannau Hyfforddi Diogel. Mae hyn yn dilyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am redeg yr ystad pobl ifanc o ddydd i ddydd o'r YJB i HMPPS ar 1 Medi 2017.

Mae costau troseddwyr yn cynnwys bwyd a dillad y troseddwyr, cyfarpar glanhau, enillion carcharorion a chostau siopau carchar.

## 4c Taliadau amhariad, dibrisio ac amorteiddio

| | Nodiadau | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Dibrisio – Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | 259,181 | 255,029 |
| Amorteiddio – Asedau anniriaethol | 6 | 33,742 | 31,211 |
| Tâl amhariad / (wedi'i wrthdroi) – Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | (68,966) | 102,485 |
| Tâl amhariad / (wedi'i wrthdroi) – Asedau anniriaethol | 6 | 3,284 | (1,024) |
| Tâl amhariad /(wedi'i wrthdroi) Asedau a gedwir i'w gwerthu | 7 | 128 | 136 |
| Tâl amhariad / (wedi'i wrthdroi) – Derbyniadau masnachol ac eraill | | 6,855 | (862) |
| **Cyfanswm y taliadau amhariad, dibrisio ac amorteiddio** | | **234,224** | **386,975** |

## 4d Gwariant arall di-arian parod

| | Nodiadau | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ad-daliadau gorbenion y MoJ | | 314,088 | 95,176 |
| (Elw) / colled net o waredu asedau | | (710) | (1,104) |
| Tâl yr archwilwyr allanol | | 273 | 273 |
| **Cyfanswm y gwariant arall di-arian parod** | | **313,651** | **94,345** |

**Ad-daliadau gorbenion y MoJ**
Mae ad-daliadau gorbenion y MoJ yn cynnwys costau gwasanaethau a rennir â'r MoJ, gan gynnwys ystadau, TGCh, cyllid, cyd-wasanaethau AD a masnachol. Mae'n cynnwys £85.8m am wasanaethau cyllid, cyfathrebu, digidol a dadansoddi a drosglwyddodd i'r MoJ o dan y model Arweinyddiaeth 'Drwy Wneud'.

**Tâl yr archwilwyr allanol**
Mae cost archwiliad y NAO ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn cael ei chydnabod fel tâl di-arian parod. Yn ystod y flwyddyn ni phrynodd HMPPS unrhyw wasanaethau di-archwilio. Mae'r gost yn cynnwys £273,000 (2016–17: £273,000) am archwilio Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol HMPPS.

## 4e Traul gyllid

| | Nodiadau | 2017-18 £'000 | 2016-17 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llog ar bensiynau'r LGPS | 18 | 41,678 | 41,770 |
| Ymddatod y disgownt ar ddarpariaethau | 12 | (2,519) | 4,393 |
| **Cyfanswm y draul gyllid di-arian parod** | | **39,159** | **46,163** |
| | | | |
| Tâl cyllid a godir ar asedau PFI ac ar brydles | | 16,690 | 18,601 |
| **Cyfanswm y draul gyllid arian parod** | | **16,690** | **18,601** |
| | | | |
| **Cyfanswm y draul gyllid** | | **55,849** | **64,764** |

## 5. Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| 2017-18 | Tir £'000 | Adeiladau £'000 | Tai annedd £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Peiriannau a chyfarpar £'000 | Dodrefn, ffitiadau a gosodion £'000 | Taliadau ar gyfrif ac Asedau ar ganol eu creu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **925,874** | **5,906,954** | **37,955** | **199,653** | **266,546** | **12,542** | **181,047** | **7,530,571** |
| Ychwanegiadau | - | 11,806 | - | 5,556 | 20,148 | 355 | 139,865 | **177,730** |
| Gwarediadau | - | - | - | (14) | (7,450) | - | - | **(7,464)** |
| Trosglwyddiadau | 9,581 | 56,339 | - | - | 26 | - | 3,615 | **69,561** |
| Ailddosbarthiadau | (93,094) | 143,276 | (815) | 1,136 | (1,378) | 20 | (153,327) | **(104,182)** |
| Amhariadau | 1,656 | 68,843 | (143) | - | (45) | (3) | (2,784) | **67,524** |
| Ailbrisiadau | 26,918 | 525,761 | 1,922 | 3,981 | 3,818 | 70 | - | **562,470** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **870,935** | **6,712,979** | **38,919** | **210,312** | **281,665** | **12,984** | **168,416** | **8,296,210** |
| | | | | | | | | |
| **Dibrisio** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | **-** | **(1,133)** | **(1)** | **(180,861)** | **(182,973)** | **(12,355)** | **-** | **(377,323)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | - | (228,043) | (1,066) | (10,159) | (19,862) | (51) | - | **(259,181)** |
| Gwarediadau | - | - | - | 14 | 6,952 | - | - | **6,966** |
| Trosglwyddiadau | - | (613) | - | - | (5) | - | - | **(618)** |
| Ailddosbarthiadau | - | 1,143 | 9 | - | - | - | - | **1,152** |
| Amhariadau | - | 1,423 | 2 | 5 | 12 | - | - | **1,442** |
| Ailbrisiadau | - | - | - | (3,824) | (3,094) | (71) | - | **(6,989)** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **-** | **(227,223)** | **(1,056)** | **(194,825)** | **(198,970)** | **(12,477)** | **-** | **(634,551)** |
| | | | | | | | | |
| **Gwerth cario / llyfr** | | | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **870,935** | **6,485,756** | **37,863** | **15,487** | **82,695** | **507** | **168,416** | **7,661,659** |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **925,874** | **5,905,821** | **37,954** | **18,792** | **83,573** | **187** | **181,047** | **7,153,248** |
| | | | | | | | | |
| **Cyllido asedau:** | | | | | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 868,904 | 5,684,925 | 37,063 | 14,936 | 76,104 | 507 | 168,416 | **6,850,854** |
| Ar brydles gyllid | 2,031 | 17,862 | 800 | 551 | 6,591 | | | **27,836** |
| Contractau PFI ar y fantolen (SoFP) | | 782,969 | | | | | | **782,969** |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **870,935** | **6,485,756** | **37,863** | **15,487** | **82,695** | **507** | **168,416** | **7,661,659** |

**Asedau anweithredol**
Wedi eu cynnwys yn y gwerthoedd cario uchod y mae 15 safle anweithredol gwerth £13m gyda'i gilydd (2016:17: 17 safle anweithredol gwerth cyfanswm o £99.9m). Mae'r safleoedd hyn yn wag ond nid ydynt eto'n cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu.

**Ailddosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu**
Cafodd eiddo gyda gwerth cario o £94.2m ei ailddosbarthu fel asedau a gedwir i'w gwerthu yn 2017-18.

## 5. Eiddo, peiriannau a chyfarpar (parhad)

| 2016-17 | Tir £'000 | Adeiladau £'000 | Tai annedd £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Peiriannau a chyfarpar £'000 | Dodrefn, ffitiadau a gosodion £'000 | Taliadau ar gyfrif ac Asedau ar ganol eu creu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | **798,804** | **6,136,644** | **40,926** | **180,012** | **256,764** | **12,541** | **129,280** | **7,554,971** |
| Ychwanegiadau | - | 8,679 | - | 6,628 | 13,087 | 67 | 186,535 | **214,996** |
| Gwarediadau | - | - | - | (19) | (4,233) | (67) | - | **(4,319)** |
| Trosglwyddiadau | - | 25 | - | 1,844 | - | - | - | **1,869** |
| Ailddosbarthiadau | (7,256) | 125,856 | (1,198) | 493 | (2,008) | - | (134,678) | **(18,791)** |
| Amhariadau | (2,731) | (103,088) | 18 | - | (104) | - | (90) | **(105,995)** |
| Ailbrisiadau | 137,057 | (261,162) | (1,791) | 10,695 | 3,040 | 1 | - | **(112,160)** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **925,874** | **5,906,954** | **37,955** | **199,653** | **266,546** | **12,542** | **181,047** | **7,530,571** |
| | | | | | | | | |
| **Dibrisio** | | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2016 | **-** | **(338,553)** | **(3,171)** | **(155,327)** | **(164,319)** | **(12,324)** | **-** | **(673,694)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | - | (216,941) | (1,030) | (16,401) | (20,559) | (98) | **-** | **(255,029)** |
| Gwarediadau | - | - | - | 15 | 3,977 | 67 | **-** | **4,059** |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** |
| Ailddosbarthiadau | - | 1,095 | 103 | - | - | - | **-** | **1,198** |
| Amhariadau | - | 3,488 | - | 7 | 15 | - | **-** | **3,510** |
| Ailbrisiadau | - | 549,778 | 4,097 | (9,155) | (2,087) | - | **-** | **542,633** |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **-** | **(1,133)** | **(1)** | **(180,861)** | **(182,973)** | **(12,355)** | **-** | **(377,323)** |
| | | | | | | | | |
| **Gwerth cario / llyfr** | | | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **925,874** | **5,905,821** | **37,954** | **18,792** | **83,573** | **187** | **181,047** | **7,153,248** |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **798,804** | **5,798,091** | **37,755** | **24,685** | **92,445** | **217** | **129,280** | **6,881,277** |
| | | | | | | | | |
| **Cyllido asedau:** | | | | | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 923,589 | 5,192,099 | 37,206 | 16,142 | 71,488 | 187 | 181,047 | **6,421,759** |
| Ar brydles gyllid | 2,285 | 13,629 | 748 | 2,650 | 12,085 | - | - | **31,397** |
| Contractau PFI ar y fantolen (SoFP) | - | 700,093 | - | - | - | - | - | **700,093** |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2017** | **925,874** | **5,905,821** | **37,954** | **18,792** | **83,573** | **187** | **181,047** | **7,153,248** |

## 6. Asedau anniriaethol

| 2017-18<br>Cost neu brisiad | Meddalwedd<br>£'000 | Trwyddedau<br>£'000 | Taliadau ar gyfrif ac Asedau ar ganol eu creu<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **278,722** | **13,848** | **4,895** | **297,465** |
| Ychwanegiadau | 212 | 800 | 29,160 | 30,172 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | 13,681 | - | (4,898) | 8,783 |
| Ailbrisiadau | 5,887 | 294 | - | 6,181 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (3,321) | (3,321) |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **298,502** | **14,942** | **25,836** | **339,280** |
| | | | | |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **(191,552)** | **(13,051)** | **-** | **(204,603)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (33,389) | (353) | - | (33,742) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (4,496) | (269) | - | (4,765) |
| Amhariadau | 38 | (1) | - | 37 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **(229,399)** | **(13,674)** | **-** | **(243,073)** |
| | | | | |
| **Gwerth cario / llyfr** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **69,103** | **1,268** | **25,836** | **96,207** |
| **Ar 1 Ebrill 2017** | **87,170** | **797** | **4,895** | **92,862** |
| | | | | |
| **Cyllido asedau** | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 69,103 | 1,268 | 25,836 | **96,207** |
| Ar brydles gyllid | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2018** | **69,103** | **1,268** | **25,836** | **96,207** |

Ar 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2017, nid oedd unrhyw asedau anniriaethol unigol o bwys.

## 6. Asedau anniriaethol (parhad)

| 2016-17<br>Cost neu brisiad | Meddalwedd<br>£'000 | Trwyddedau<br>£'000 | Taliadau ar gyfrif ac Asedau ar ganol eu creu<br>£'000 | Cyfanswm<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **251,988** | **13,082** | **1,562** | **266,632** |
| Ychwanegiadau | 323 | - | 10,044 | 10,367 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | 11,011 | - | (11,011) | - |
| Ailbrisiadau | 15,400 | 766 | - | 16,166 |
| Trosglwyddiadau | - | - | 4,948 | 4,948 |
| Amhariadau | - | - | (648) | (648) |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **278,722** | **13,848** | **4,895** | **297,465** |
| | | | | |
| **Amorteiddio** | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **(152,086)** | **(12,202)** | **-** | **(164,288)** |
| A godwyd yn y flwyddyn | (30,998) | (213) | - | (31,211) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | - |
| Ailbrisiadau | (10,110) | (666) | - | (10,776) |
| Amhariadau | 1,642 | 30 | - | 1,672 |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **(191,552)** | **(13,051)** | **-** | **(204,603)** |
| | | | | |
| **Gwerth cario / llyfr** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2017** | **87,170** | **797** | **4,895** | **92,862** |
| **Ar 1 Ebrill 2016** | **99,902** | **880** | **1,562** | **102,344** |
| | | | | |
| **Cyllido asedau:** | | | | |
| Wedi eu perchenogi | 87,170 | 797 | 4,895 | 92,862 |
| Ar brydles gyllid | - | - | - | - |
| **Gwerth llyfr ar 31 Mawrth 2017** | **87,170** | **797** | **4,895** | **92,862** |

## 7. Asedau a gedwir i'w gwerthu

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| **Ar 1 Ebrill** | 10,600 | 6,682 |
| Ailddosbarthiadau | 94,247 | 17,593 |
| Trosglwyddiadau | - | - |
| Gwarediadau | (7,686) | (13,140) |
| Amhariadau | (128) | (136) |
| Ailbrisiadau | - | (399) |
| **Ar 31 Mawrth** | **97,033** | **10,600** |

Mae HMPPS wedi ymrwymo i gynllun i werthu amrywiol eiddo sy'n weddill, sydd i'w gwerthu i bwrpas masnachol ac fel tai annedd. Mae'r eiddo hyn ar gael i'w gwerthu yn eu cyflwr presennol ac mae gwerthu'n debygol iawn o ddigwydd o fewn blwyddyn i ddyddiad eu dosbarthu'n asedau a gedwir i'w gwerthu.

## 8. Stoc-restri

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Diwydiannau a ffermydd** | | |
| Deunyddiau crai | 15,121 | 13,356 |
| Gwaith ar ei ganol | 2,879 | 2,214 |
| Nwyddau gorffenedig | 4,934 | 2,710 |
| | **22,934** | **18,280** |
| | | |
| Eitemau traul | 26,270 | 24,191 |
| **Cyfanswm y stoc-restri** | **49,204** | **42,471** |

## 9. Derbyniadau masnachol ac eraill

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Derbyniadau masnachol | 17,055 | 38,028 |
| Derbyniadau eraill | 31,944 | 35,558 |
| Derbyniadau TAW | 49,185 | 49,021 |
| Derbyniadau rhyng-adrannol | 10,150 | 52,346 |
| Rhagdaliadau | 31,376 | 26,723 |
| Incwm wedi cronni | 23,126 | 28,514 |
| | | |
| **Cyfanswm y derbyniadau masnachol ac eraill** | **162,836** | **230,190** |

## 9. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 26,225 | 8,049 |
| Newid net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 9,518 | 18,176 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **35,743** | **26,225** |
| | | |
| **Roedd y balansau canlynol ar gadw ar 31 Mawrth gyda:** | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 34,611 | 25,111 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 1,132 | 1,114 |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | **35,743** | **26,225** |

**Cwcis trydydd partïon**

Ar 31 Mawrth 2018, roedd HMPPS yn cadw arian parod o £13.9m (31 Mawrth 2017: £13.6m) ar ran troseddwyr. Oherwydd mai trydydd partïon sydd piau'r arian hwn, nid yw'r balans wedi'i gynnwys yn SoFP y cyfrifon hyn.

## 11. Taladwyon masnachol ac eraill

### 11a. Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Taladwyon masnachol | 49,350 | 63,904 |
| Treth a nawdd cymdeithasol | 37,712 | 35,441 |
| Taladwyon eraill | 26,590 | 28,771 |
| Taladwyon rhyng-adrannol | 13,902 | 166,118 |
| Croniadau | 370,615 | 376,809 |
| Incwm gohiriedig | 19,492 | 15,315 |
| Rhan gyfredol y prydlesi cyllid | 57 | 822 |
| Elfen prydlesi cyllid priodoledig y contractau PFI ar y fantolen (SoFP) | 19,767 | 29,097 |
| Derbyniadau ychwanegol o'r Gronfa Gyfunol (CFER) | 9 | 4 |
| | **537,494** | **716,281** |

### 11b. Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Elfen prydlesi cyllid priodoledig y contractau PFI ar y fantolen (SoFP) | 216,746 | 224,781 |
| Balansau benthyciadau awdurdod lleol | 1,915 | - |
| Prydlesi cyllid | 275 | 332 |
| | **218,936** | **225,113** |

Mae balansau'r benthyciadau awdurdod lleol yn cynnwys benthyciadau etifeddol i Ymddiriedolaethau Prawf a drosglwyddodd i HMPPS. Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y balans yn cael ei gynnwys mewn croniadau. Yn 2017-18, mae'r balans wedi'i ailddosbarthu i adlewyrchu ei natur yn well. Yn 2016-17, roedd balans y benthyciadau awdurdod lleol yn £2.5m.

## 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | 31 Mawrth 2018 | | | | | | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau ymddeol yn gynnar | Dadfeilio eiddo prydles | Costau gwirfoddol i i adael yn fuan | Cynllun buddion anafiadau | Ymgyfreitha a darpariaethau eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 3,135 | 48,233 | 625 | 130,491 | 76,843 | **259,327** | **233,540** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 2 | 297 | - | 7,820 | 53,432 | **61,551** | **99,225** |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen lle adferwyd eu gwerth | (26) | (1,443) | (17) | (2,859) | (22,075) | **(26,420)** | **(40,558)** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (1,937) | (853) | (608) | (5,129) | (27,078) | **(35,605)** | **(37,273)** |
| Ymddatod y disgownt | (11) | (4,758) | - | - | 2,250 | **(2,519)** | **4,393** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,163** | **41,476** | **-** | **130,323** | **83,372** | **256,334** | **259,327** |

### Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod a ddisgowntiwyd

| | 31 Mawrth 2018 | | | | | | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau ymddeol yn gynnar | Dadfeilio eiddo prydles | Costau gwirfoddol i i adael yn fuan | Cynllun buddion anafiadau | Ymgyfreitha a darpariaethau eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn: | 888 | 10,278 | - | 4,935 | 26,199 | **42,300** | **43,393** |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd: | 275 | 7,989 | - | 19,094 | 43,601 | **70,959** | **69,373** |
| Hwyrach na phum mlynedd: | - | 23,209 | - | 106,294 | 13,572 | **143,075** | **146,561** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,163** | **41,476** | **-** | **130,323** | **83,372** | **256,334** | **259,327** |

**Darpariaeth ymddeol yn gynnar (aelodau PCSPS)**
O dan gynllun a ddaeth i ben yn 2011, mae HMPPS yn cwrdd â chostau ychwanegol buddion sydd ar ben y buddion PCSPS arferol i staff sy'n ymddeol yn gynnar, drwy dalu'r symiau gofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad y byddai'r aelod wedi ymddeol fel arfer. Mae HMPPS yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan ddaw'r rhaglen ymddeol yn gynnar yn orfodol drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer yr amcan-daliadau.

**Dadfeilio eiddo prydles**

Mae costau dadfeilio'n amcan o'r gwariant sydd ei angen i adfer eiddo prydles wedi'i adael yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol. Mae'r symudiad yn y flwyddyn o ganlyniad i:

- gwybodaeth wedi'i diweddaru am eiddo wedi'i adael
- eiddo newydd wedi'i brydlesu yn y flwyddyn
- ychydig o leihad yng ngost metr sgwâr yr eiddo prydles oherwydd amodau'r farchnad, sydd wedi gostwng prisiau

**Ymgyfreitha a darpariaethau eraill**

Yn bennaf, hawliadau cyfreithiol yn erbyn HMPPS yw darpariaethau eraill. Mae'r ddarpariaeth hon yn adlewyrchu'r holl hawliadau lle mae'r cyngor cyfreithiol yn awgrymu ei bod yn fwy tebygol na pheidio y bydd yr hawliad yn llwyddo a lle gellir rhoi amcan dibynadwy o faint yr hawliad.

Caiff hawliadau cyfreithiol sy'n llai tebygol o lwyddo neu lle na ellir rhoi amcan dibynadwy o faint yr hawliad, eu datgelu fel rhwymedigaethau wrth gefn yn Nodyn 17.

Mae darpariaethau ar gyfer chwe achos yn arwain at flwydd-daliadau'n codi o ymgyfreitha'n cael eu disgowntio ar sail cyfraddau Trysorlys EM oherwydd bod y taliadau'n ddyledus dros nifer o flynyddoedd, dros 20 mewn rhai achosion. Nid yw darpariaethau ymgyfreitha cyffredinol eraill wedi eu disgowntio, oherwydd byddai'r rhan fwyaf o'r hawliadau fel arfer yn crisialu o fewn 12 mis a'r disgowntio posib ar rai na allai barhau'n hirach na hyn yn ansicr ac yn ansylweddol.

**Darpariaethau Cynllun Buddion Anafiadau'r Gwasanaeth Sifil**

O 1 Ebrill 1998 ymlaen, mae'n ofynnol i HMPPS dalu buddion o dan Gynllun Buddion Anafiadau'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r cynllun yn talu buddion i unrhyw aelod o'r PCSPS sy'n dioddef anaf neu glefyd y gellir ei briodoli'n llwyr neu'n rhannol i natur y dyletswyddau, neu sy'n dioddef ymosodiad neu weithred debyg y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'w swydd. Caiff y buddion eu talu dim ond am golli'r gallu i ennill gyda'r bwriad o chwyddo incwm y buddiolwr i leiafswm wedi'i warantu o 85%.

## 13. Ymrwymiadau o dan gontractau PFI a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill

### 13a. Contractau PFI ar y fantolen (SoFP) a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill

| Enw'r Prosiect | Dyddiad Llofnod y Contract | Parhad (blynyddoedd) | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| CEM Altcourse | Rhagfyr 1995 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 800 o lefydd yn CEM Altcourse |
| CEM Parc | Ionawr 1996 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 1,519 o lefydd ger Penybont-ar-Ogwr, De Cymru |
| CEM Lowdham Grange | Tachwedd 1996 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 760 o lefydd yn CEM Lowdham Grange, Nottingham |
| CEM Ashfield | Gorffennaf 1998 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 400 o lefydd i droseddwyr ifanc yn Pucklechurch ger Bryste; cafodd ei droi i ddal oedolion yn 2013 |
| CEM Forest Bank | Gorffennaf 1998 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 800 o lefydd yn CEM Forest Bank, ar safle hen bwerdy Agecroft |
| CEM Rye Hill | Gorffennaf 1999 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 600 o lefydd yn CEM Rye Hill yn Onley, ger Rugby |
| CEM Dovegate | Medi 1999 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 1,060 o lefydd a chanolfan gymunedol therapiwtig yn CEM Dovegate, Marchington |
| CEM Bronzefield | Rhagfyr 2002 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 500 o lefydd yn Ashford, Middlesex |
| CEM Peterborough | Chwefror 2003 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 840 o lefydd yn Peterborough, Sir Gaergrawnt |
| CEM Thameside | Mehefin 2010 | 25 | Dylunio, adeiladu, ariannu a rhedeg carchar categori B 900 o lefydd yn Woolwich, Llundain |
| Canolfan Hyfforddi Diogel Oakhill | Mai 2004 | 25 | Dylunio, adeiladu a rheoli canolfan hyfforddi diogel yn Oakhill, Milton Keynes |
| Gwasanaethau Hebrwng a Dal Carcharorion | Awst 2011 | 9 | Cyflenwi a rhedeg faniau carchar a gwasanaethau hebrwng |

## 13b. Ymrwymiadau o dan gontractau PFI a chontractau consesiwn gwasanaeth eraill

Rhoddir manylion y taliadau prydlesi cyllid priodoledig o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth wedi'u cydnabod yn y SoFP yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| Rhenti'n ddyledus dim hwyrach na blwyddyn | 34,941 | 45,316 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 123,639 | 123,549 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 197,117 | 216,110 |
| | **355,697** | **384,975** |
| | | |
| Llai yr elfen llog | (119,184) | (131,097) |
| **Gwerth presennol yr ymrwymiadau** | **236,513** | **253,878** |

Yn y tabl isod rhoddir gwerth presennol y rhwymedigaethau o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth wedi'u cydnabod yn y SoFP, am bob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| Rhenti'n ddyledus dim hwyrach na blwyddyn | 19,767 | 29,097 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 75,495 | 72,553 |
| Rhenti'n ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd | 141,251 | 152,228 |
| **Gwerth presennol yr ymrwymiadau** | **236,513** | **253,878** |

Yn y tabl isod rhoddir manylion yr isafswm tâl gwasanaeth o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth wedi'u cydnabod yn y SoFP, am bob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 485,635 | 556,369 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 1,604,436 | 1,588,775 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,203,143 | 1,559,718 |
| **Cyfanswm yr elfen wasanaeth** | **3,293,214** | **3,704,862** |

Amcan-ffigyrau yw ymrwymiadau yn y dyfodol, sy'n seiliedig ar dybiaethau a'r wybodaeth orau sydd ar gael.

### 13c. Tâl a godir ar y Datganiad o'r Gwariant Net Cynhwysfawr Cyfunol

Cyfanswm y tâl a godwyd ar y SoCNE am drafodion PFI ar y fantolen (SoFP) a threfniadau consesiwn gwasanaeth eraill am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 oedd £491.9m (2016-17: £592.0m). O'r cyfanswm hwn, roedd yr elfen wasanaeth yn £475.3m (2016-17: £573.7m) a'r llog a dalwyd yn £16.5m (2016-17: £18.2m).

## 14. Ymrwymiadau o dan brydlesi

### 14a. Prydlesi gweithredol

Mae HMPPS yn prydlesu amrywiol dir ac adeiladau o dan gytundebau prydlesi gweithredol na ellir eu canslo. Mae'r tir a'r adeiladau'n cynnwys yr ystad Prawf, ystadau Pencadlys ac un carchar (CEM Dartmoor) gyda chyfnodau prydles rhwng 9 mis a 54 o flynyddoedd. Nid oes gan y prydlesi gweithredol opsiwn i brynu.

Y gwariant ar brydlesi gweithredol tir ac adeiladau a godwyd ar y SoCNE yn ystod y flwyddyn oedd £19.1m (2016-17: £21.4m). Mae hyn wedi'i gynnwys o dan Llety, cynnal a chadw a chyfleustodau yn Nodyn 4b.

Mae isafswm y taliadau prydles o dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo, am bob un o'r cyfnodau canlynol, fel a ganlyn:

| | | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol:** | | | |
| **Tir ac adeiladau** | Dim hwyrach na blwyddyn | 13,181 | 12,142 |
| | Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 35,881 | 30,234 |
| | Hwyrach na phum mlynedd | 12,834 | 16,319 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol:** | | **61,896** | **58,695** |

### 14b. Prydlesi cyllid

Gwerth net presennol y taliadau prydles isafswm yn y dyfodol, o dan brydlesi cyllid, yw £0.3m (2016-17: £1.2m), sy'n bennaf yn cynnwys setiau radio carchar, sydd i'w talu mewn llai na phum mlynedd.

## 15. Ymrwymiadau ariannol eraill

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Dim hwyrach na blwyddyn | 778,502 | 620,031 |
| Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 1,516,324 | 1,787,072 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 391,605 | 472,048 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau ariannol eraill** | **2,686,431** | **2,879,151** |

Yn y tabl uchod mae ymrwymiad o £1,259.1m (2016-17: £1,566.7m) a £18.8m (2016-17: £18.8m) wedi'i gynnwys ar gyfer elfennau Ffi am Wasanaeth (FfS) a Ffi am Ddefnyddio (FfU) y contractau gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

Mae'r contractau CRC yn cynnwys elfen Talu ar sail Canlyniadau (PbR) gyda symiau ychwanegol yn daladwy i'r cwmnïau ar raddfa symudol os cyrhaeddir y targedau ar gyfer lleihau aildroseddu. Yr uchafswm y gellir ei dalu dros gyfnod y contractau, ar sail y nifer ddisgwyliedig o droseddwyr, yw £524.1 miliwn. Nid yw'r gwerth ychwanegol hwn wedi'i ddatgelu yn y tabl uchod, oherwydd y symiau ansicr ar y pwynt hwn yn y contractau. Hefyd, mae FfS a PbR yn seiliedig ar nifer ddisgwyliedig o droseddwyr a byddai unrhyw newid yn y nifer yn arwain at gynnydd neu leihad cyfatebol yn yr arian a fyddai'n daladwy i'r cwmnïau CRC.

## 16. Ymrwymiadau cyfalaf

Mae gwariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ar ddiwedd y cyfnod adrodd, ond heb ei gynnwys yn y datganiadau ariannol hyn, fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 |
|---|---:|---:|
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 84,786 | 102,331 |
| Asedau anniriaethol | - | 5,720 |
| **Cyfanswm yr ymrwymiadau cyfalaf** | **84,786** | **108,051** |

## 17. Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae HMPPS yn wynebu hawliadau gwerth £102.1m (2016-17: £59.8m) am anafiadau i staff, carcharorion a'r cyhoedd, ac am anghydfodau mewn contractau trydydd parti lle ystyrir bod y tebygolrwydd y bydd rhwymedigaeth yn codi'n bosib, ddim yn debygol neu ddim yn bosib ei mesur yn ddibynadwy. Mae'r cyfrifon wedi darparu ar gyfer hawliadau eraill lle mae'n fwy tebygol na pheidio y bydd rhwymedigaeth yn codi. Wele Nodyn 12.

Datgelir rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol a adroddir i'r Senedd yn yr Adroddiad Atebolrwydd ar dudalen 53.

## 18. Pensiynau

Mae costau staff yn Nodyn 4(a) yn cynnwys cost y cyfraniadau pensiwn gan yr Asiantaeth. Penderfynodd 76 o bobl (2016-17: 101) ymddeol yn gynnar ar sail salwch. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £0.3m (2016-17: £0.4m).

**Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil**
Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn "Alpha" – yn gynlluniau buddion diffiniedig, amlgyflogwr heb eu hariannu. Cafodd prisiad actiwaraidd llawn o'r PCSPS ei wneud ar 31 Mawrth 2012. Rhoddir y manylion yn www.civilservicepensionscheme.org.uk. Ni all HMPPS nodi faint yw ei siâr o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynlluniau hyn.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, talodd y cyflogwr gyfraniadau o £212.3m i'r PCSPS (2016-17: £204.1m) ar gyfraddau rhwng 20.0% a 24.5% (2016-17: 20.0%-24.5%) o’r cyflog pensiynadwy (27.9% ar gyfer graddau swyddogion carchar gyda hawliau a gedwir yn ôl) ar sail bandiau cyflog. Nid yw cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am 2018-19 wedi newid. Mae Actiwari’r Cynllun yn adolygu cyfraniadau’r cyflogwr pob pedair blynedd fel arfer ar ôl prisio’r cynllun yn llawn.  Pennir cyfraddau’r cyfraniadau i gwrdd â chost y buddion a gronnwyd yn 2017-18 i’w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd dros y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

**Cyfrifon Pensiwn Partneriaeth**
Gall staff ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddalwyr gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £1.1m i un neu fwy o’r panel o dri darparwr pensiwn cyfranddalwyr a benodwyd. Mae cyfraniadau’r cyflogwr yn oed-gysylltiedig ac yn amrywio rhwng 8% a 14.75% (2016-17: rhwng 8% a 14.75%) o’r cyflog pensiynadwy. Mae’r cyflogwr hefyd yn talu swm sy’n cyfateb i gyfraniadau’r staff hyd at 3% o’r cyflog pensiynadwy. Hefyd, talodd y cyflogwr gyfraniadau o £0.04m, 0.5% o’r cyflog pensiynadwy, i'r PCSPS i dalu am gyfandaliadau yn y dyfodol os bydd y staff hyn yn marw mewn gwasanaeth neu'n ymddeol oherwydd salwch. Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus na chyfraniadau wedi eu rhagdalu i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar 31 Mawrth 2018.

**Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**
Mae HMPPS yn cynnig buddion ymddeol o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) i staff prawf sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS). Mae staff blaenorol yr Ymddiriedolaethau Prawf, a staff a drosglwyddodd o'r ymddiriedolaethau i'r cwmnïau CRC ac i HMPPS, hefyd yn dod o dan ddarpariaethau'r LGPS drwy un gronfa bensiwn, sef gyda Chronfa Bensiwn Manceinion Fwyaf (GMPF). Cynllun buddion diffiniedig amlgyflogwr wedi'i ariannu yw'r LGPS. Mae HMPPS yn cydnabod rhwymedigaeth cynllun pensiwn y LGPS yn y cyfrifon hyn.

Trosglwyddodd rhwymedigaeth cynllun pensiwn y LGPS o'r ymddiriedolaethau prawf i HMPPS ar 1 Mehefin 2014. Mae rhwymedigaeth yn codi wrth i staff ennill eu hawl i daliadau yn y dyfodol ar ôl ymddeol. Mae'r gronfa bensiwn yn cael ei phrisio gan actiwari annibynnol bob tair blynedd i benderfynu ar gyfradd gyfrannu pob gweithiwr. Mae’r cyfraddau cyfrannu’n adlewyrchu’r buddion wrth iddynt gronni, ac yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynlluniau.

Mae'r LGPS yn darparu buddion ar sail 'cyflog terfynol', hyd at 31 Mawrth 2014, ar ôl cyrraedd oed ymddeol arferol o 65. Am wasanaeth pensiynadwy hyd at 31 Mawrth 2008, roedd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad cyfwerth â 3/80fed o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth yn daladwy wrth ymddeol. Roedd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o gyflog pensiynau am wasanaeth rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, heb ddim cyfandaliad awtomatig.

O 1 Ebrill 2014 ymlaen, mae'r cynllun yn darparu buddion ar sail enillion gyrfa cyfartalog a ailbrisiwyd (CARE). Mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/49fed o’r cyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth.

Mae'r cynllyn yn gadael i staff gymryd cyfandaliad wrth ymddeol yn gyfnewid am lai o bensiwn blynyddol yn y dyfodol. Mae aelodau'n talu cyfraniadau rhwng 5.5% a 12.5% o'u henillion pensiynadwy. O 1 Ebrill 2014 ymlaen newidiodd cyfraniadau'r aelodau ac mae buddion sy'n cronni o'r dyddiad hwn yn seiliedig ar CARE, gyda mesurau yn eu lle i ddiogelu rhai oedd yn aelodau o'r Cynllun cyn y newidiadau.

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, talodd HMPPS gyfraniadau cyflogwr o £75.9m i'r GMPF, ar gyfer staff prawf presennol, ar gyfradd o 29.6% (£73.9m yn 2016–17 ar gyfradd o 29.6%)). Nid yw cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr am 2018-19 wedi newid.

Mae'r sefyllfa bensiynau ar 31 Mawrth 2018 yn seiliedig ar adroddiad yr actiwari sef Hymans Robertson LLP, actiwari annibynnol y GMPF.

**Y prif dybiaethau a ddefnyddiodd actiwari'r LGPS oedd:**

| | 31 Mawrth 2018<br>% | 31 Mawrth 2017<br>% |
|---|---|---|
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 2.5 | 2.8 |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau mewn pensiynau gohiriedig a thaliadau | 2.4 | 2.4 |
| Cyfradd ddisgownt | 2.7 | 2.6 |

## Symudiadau yn ymrwymiad buddion diffiniedig y LGPS yn ystod y flwyddyn:

| | 31 Mawrth 2018 | | | 31 Mawrth 2017 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwerth presennol yr ymrwymiad | Gwerth teg asedau'r cynllun | Cyfanswm | Gwerth presennol yr ymrwymiad | Gwerth teg asedau'r cynllun | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau'r cynllun | - | 3,751,762 | 3,751,762 | - | 3,107,200 | 3,107,200 |
| Rhwymedigaethau wedi'u hariannu | (5,280,227) | - | (5,280,227) | (4,252,700) | - | (4,252,700) |
| Rhwymedigaethau heb eu hariannu | (49,911) | - | (49,911) | (47,900) | - | (47,900) |
| **Balans agoriadol ar 1 Ebrill** | **(5,330,138)** | **3,751,762** | **(1,578,376)** | **(4,300,600)** | **3,107,200** | **(1,193,400)** |
| Costau gwasanaeth cyfredol | (155,484) | - | (155,484) | (94,460) | - | (94,460) |
| Costau gwasanaeth blaenorol (gan gynnwys cwtogi) | (1,602) | - | (1,602) | (9,285) | - | (9,285) |
| Enillion a cholledion ar setliadau | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y costau gwasanaeth cyfredol a blaenorol** | **(157,086)** | **-** | **(157,086)** | **(103,745)** | **-** | **(103,745)** |
| | | | | | | |
| **Incwm (cost) llog net** | **(138,994)** | **97,316** | **(41,678)** | **(150,132)** | **108,362** | **(41,770)** |
| **Ailfesuriadau** | | | | | | |
| Elw ar asedau'r cynllun, ac eithrio symiau wedi eu cynnwys mewn (incwm) / traul llog | - | 16,455 | 16,455 | - | 554,337 | 554,337 |
| Enillion / (colled) o newid yn y tybiaethau ariannol | 154,423 | - | 154,423 | (834,747) | - | (834,747) |
| Enillion / (colledion) gwirioneddol | 614 | - | 614 | (49,719) | - | (49,719) |
| Enillion / (colled) o newid yn y tybiaethau demograffig | - | - | - | (11,158) | - | (11,158) |
| **Cyfanswm yr Ailfesuriadau** | **155,037** | **16,455** | **171,492** | **(895,624)** | **554,337** | **(341,287)** |
| **Cyfraniadau** | | | | | | |
| Cyflogwyr [18] | - | 101,870 | 101,870 | - | 98,307 | 98,307 |
| Cyfranogwyr yn y Cynllun | (25,043) | 25,043 | - | (26,541) | 26,541 | - |
| Buddion heb eu hariannu | - | 3,379 | 3,379 | - | 3,519 | 3,519 |
| **Taliadau o gynlluniau** | | | | | | |
| Taliadau buddion | 139,486 | (139,486) | - | 142,985 | (142,985) | - |
| Taliadau buddion heb eu hariannu | 3,379 | (3,379) | - | 3,519 | (3,519) | - |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth** | **(5,353,359)** | **3,852,960** | **(1,500,399)** | **(5,330,138)** | **3,751,762** | **(1,578,376)** |
| Asedau'r cynllun | - | 3,852,960 | 3,852,960 | - | 3,751,762 | 3,751,762 |
| Rhwymedigaethau wedi'u hariannu | (5,306,407) | - | (5,306,407) | (5,280,227) | - | (5,280,227) |
| Rhwymedigaethau heb eu hariannu | (46,952) | - | (46,952) | (49,911) | - | (49,911) |
| **Balans wrth gau ar 31 Mawrth** | **(5,353,359)** | **3,852,960** | **(1,500,399)** | **(5,330,138)** | **3,751,762** | **(1,578,376)** |

18 £101.9m yw cyfrifiad actiwaraidd (ar sail amcan-symiau a symiau gwirioneddol) ffigur cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y NPS a'r 21 cwmni CRC (2016-17: £98.3m).

**Roedd yr asedau yn y cynllun LGPS fel a ganlyn:**

| | Gwerth ar 31 Mawrth 2018 £'000 | Gwerth fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun ar 31 Mawrth 2018 % | Gwerth ar 31 Mawrth 2017 £'000 | Gwerth fel canran o gyfanswm asedau'r cynllun ar 31 Mawrth 2017 % |
|---|---|---|---|---|
| Ecwiti | 2,379,210 | 62 | 2,590,201 | 69 |
| Bondiau'r Llywodraeth | 33,386 | 1 | 49,362 | 1 |
| Bondiau eraill | 749,620 | 19 | 564,300 | 15 |
| Eiddo | 131,913 | 3 | 102,883 | 3 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 140,927 | 4 | 104,246 | 3 |
| Asedau eraill | 417,904 | 11 | 340,770 | 9 |
| **Cyfanswm Asedau'r Cynllun** | **3,852,960** | **100** | **3,751,762** | **100** |

**Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Sef asesiad yr actiwari o effaith unrhyw gynnydd a lleihad ym mhrif dybiaethau'r actiwari ar rwymedigaethau pensiwn y LGPS:

| | 31 Mawrth 2018 | | 31 Mawrth 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | Brasamcan o'r swm ariannol £000 | Brasamcan o'r cynnydd yn Rhwymedigaeth y Cyflogwr % | Brasamcan o'r swm ariannol £000 | Brasamcan o'r cynnydd yn Rhwymedigaeth y Cyflogwr % |
| Lleihad o 0.5% yn y gyfradd ddisgownt wirioneddol | 527,062 | 10% | 519,750 | 10% |
| Cynnydd o 0.5% yn y gyfradd cynnydd mewn cyflog | 86,971 | 2% | 89,634 | 2% |
| Cynnydd o 0.5% yn y gyfradd cynnydd mewn pensiwn | 433,376 | 8% | 421,964 | 8% |

## 19. Offerynnau ariannol

**Categorïau o offerynnau ariannol**
Rhoddir manylion am dderbyniadau, balansau arian parod a thaladwyon yn Nodiadau 9, 10 a 11.

Mae benthyciadau a derbyniadau'n cynnwys derbyniadau masnachol, derbyniadau eraill ac incwm wedi cronni sydd â thaliadau sefydlog neu benodedig na ddyfynnir hwynt mewn marchnad weithredol. Asesir derbyniadau ar bob dyddiad SoFP a chymhwysir amhariad iddynt lle mae amheuaeth ynghylch eu hadennill.

Mae gan HMPPS gyfranddaliadau o £0.5m wedi eu buddsoddi mewn cwmnïau llaeth oherwydd y ffermydd-garchardai cynhyrchu llaeth sy'n cael eu rhedeg gan HMPPS yn CEM Brynbuga a CEM Hewell. Mae HMPPS yn eu dal fel asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw a cholled. Mae gwerth teg yn cyfateb i werth marchnad ar y dyddiad adrodd, a'r symudiad yng ngwerth yr asedau'n cael ei gydnabod yn syth yn y SoCNE, fel incwm neu draul.

Mae gan HMPPS rwymedigaethau ariannol yn cynnwys rhwymedigaethau PFI a phrydlesi cyllid, taladwyon masnachol a thaladwyon eraill a chroniadau. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur i ddechrau ar sail eu gwerth teg. Lle mae’r effaith yn sylweddol, mae’r amcan-lif arian yn cael ei ddisgowntio.

**Risgiau credyd**
Mae'r risg gredyd i HMPPS yn fach oherwydd mae benthyciadau a derbyniadau'n cynnwys derbyniadau masnachol ac eraill. Y risg gredyd fwyaf yw'r risg sy'n codi pe bai dyledwr yn diffygdalu ac mae'n cyfateb i gyfanswm yr hyn sy'n ddyledus. Mae HMPPS yn rheoli ei risg gredyd drwy wneud archwiliadau cefndir a chredyd cyn creu perthynas gyda dyledwr. Nid oes gan HMPPS unrhyw sicrwydd cyfochrog i liniaru yn erbyn risg gredyd.

**Risg cyfraddau llog**
Nid yw HMPPS yn wynebu risg sylweddol o gyfraddau llog. Mae'r rhan fwyaf o'r balansau arian parod gyda chyfradd llog nil neu sefydlog.

**Risg hylifedd**
Mae rhwymedigaethau ariannol HMPPS yn cynnwys taladwyon masnachol, taladwyon eraill, croniadau a phrydlesi cyllid. Mae'n annhebygol y bydd HMPPS yn cael trafferth cwrdd ag ymrwymiadau'r rhwymedigaethau hyn, oherwydd mae'n cael ei ariannu gan y MoJ, corff y mae'r Senedd yn pleidleisio'n flynyddol ar ei adnoddau a'i gyfalaf.

**Risgiau arian tramor**
Ychydig iawn o drafodion arian tramor y mae HMPPS yn eu cyflawni ac nid yw'n agored i risg cyfradd gyfnewid fawr.

## 20. Cyfranddaliadau arbennig

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn dal un cyfranddaliad arbennig ym mhob un o'r 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol, a restrir isod. Yn unol â'r FReM, nid yw HMPPS yn cydnabod cyfranddaliadau arbennig ar ei SoFP.

- The Bedfordshire, Northamptonshire, Cambridgeshire and Hertfordshire Community Rehabilitation Company Limited
- The Bristol, Gloucestershire, Somerset and Wiltshire Community Rehabilitation Company Limited
- The Cheshire and Greater Manchester Community Rehabilitation Company Limited
- The Cumbria and Lancashire Community Rehabilitation Company Limited
- The Derbyshire, Leicestershire, Nottinghamshire and Rutland Community Rehabilitation Company Limited
- The Dorset, Devon and Cornwall Community Rehabilitation Company Limited
- The Durham Tees Valley Community Rehabilitation Company Limited The Essex Community Rehabilitation Company Limited
- The Hampshire and Isle of Wight Community Rehabilitation Company Limited
- The Humberside, Lincolnshire and North Yorkshire Community Rehabilitation Company Limited
- The Kent, Surrey and Sussex Community Rehabilitation Company Limited
- The London Community Rehabilitation Company Limited
- The Merseyside Community Rehabilitation Company Limited
- The Norfolk and Suffolk Community Rehabilitation Company Limited
- The Northumbria Community Rehabilitation Company Limited
- The South Yorkshire Community Rehabilitation Company Limited
- The Staffordshire and West Midlands Community Rehabilitation Company Limited
- The Thames Valley Community Rehabilitation Company Limited
- The Wales Community Rehabilitation Company Limited
- The Warwickshire and West Mercia Community Rehabilitation Company Limited
- The West Yorkshire Community Rehabilitation Company Limited

Mae angen caniatad cyfranddalwyr arbennig ar gyfer nifer o benderfyniadau, gan gynnwys:

- i drosglwyddo neu waredu:
- unrhyw fudd diogelwch yn y cytundeb gwasanaethau. Y cytundeb gwasanaethau gyda HMPPS yw darparu gwasanaethau adsefydlu gan y cwmnïau CRC
- rhan helaeth o'r busnes, ei asedau neu staff, a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar a allai'r cwmni gyflawni'r cytundeb gwasanaethau neu beidio
- budd cyfreithiol neu lesiannol yng nghyfranddaliadau cyffredin y cwmni
- dirwyn neu ddiddymu'r cwmni i ben yn wirfoddol, neu benodi gweinyddwyr
- creu, cyhoeddi, prynu, lleihau, prynu'n ôl neu gyfnewid cyfranddaliadau yn y cwmni, neu amrywio hawliau pleidleisio'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau

Yn unol â'r cytundeb gwasanaethau, gall y cyfranddalwr arbennig fynnu bod asedau o'r cwmni'n cael eu trosglwyddo i ddarparwr gwasanaeth arall.

Mae gan y cyfranddalwr arbennig hawl i fynnu bod cwmni CRC yn gwerthu unrhyw gyfranddaliadau gan 'bobl a waherddir', sef pobl gyda sancsiynau yn eu herbyn neu lle mae dal y cyfranddaliadau, ym marn y cyfranddalwr arbennig, efallai'n groes i fuddiannau diogelwch y gymuned yng nghyd-destun rheoli gwasanaethau troseddwyr yn y gymuned.

Mae gan y cyfranddalwr arbennig hawl i bleidleisio ar unrhyw ymgais i newid rôl y cyfranddalwr arbennig, hawliau'n ymwneud â dal cyfranddaliadau arbennig neu ddiffiniadau allweddol mewn erthyglau cymdeithasu cwmni CRC.

Gall y cyfranddalwr arbennig benodi cynrychiolydd a fyddai ganddynt hawl i arsylwi a chael gweld yr un wybodaeth â chyfarwyddwyr y cwmni.

Gall y cyfranddalwr gyfnewid ei gyfranddaliadau ar unrhyw adeg.

Nid oes gan y cyfranddalwr unrhyw hawl i gyfalaf nac elw o'r cwmni heblaw am gyfnewid gwerth nominal y cyfranddaliad sef £1.

## 21. Trafodion partïon perthynol

Mae HMPPS yn un o Asiantaethau Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), sy'n cael ei hystyried i fod yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn, mae HMPPS wedi cael trafodion o bwys â'r MoJ ac endidau eraill y mae’r MoJ yn rhiant-gorff arnynt. Mae HMPPS hefyd wedi cael trafodion o bwys â nifer o adrannau eraill y llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog. Yn unol â gofynion y FReM, nid yw’r trafodion hyn wedi cael eu hadrodd.

Cyflogir perthynas agos i Simon Boddis, Cyfarwyddwr Gweithredol ar Drawsnewid yr Ystad, gan HMPPS ar sail barhaol.

Cyflogir perthynas agos i Amy Rees, Cyfarwyddwr Gweithredol ar HMPPS Cymru, gan HMPPS ar sail barhaol.

Cyflogir perthynas agos i Amy Rees, Cyfarwyddwr Gweithredol ar HMPPS Cymru, gan PwC. Mae PwC yn darparu gwasanaethau proffesiynol i HMPPS.

Mae Syr Martin Narey, un o gyfarwyddwyr anweithredol y MoJ, hefyd yn aelod anweithredol o Fwrdd Unilink Software Ltd, un o gyflenwyr HMPPS. Fe wnaeth HMPPS daliadau gwerth £2.6m i Unilink yn 2017-18 (2016-17: £0.9m).

## 22. Ailstrwythuro mewnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Ar 1 Medi 2017, cafodd y cyfrifoldeb o reoli'r Ystad Pobl Ifanc o ddydd i ddydd ei drosglwyddo o Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (YJB) i HMPPS. Mae hyn yn cynnwys gweinyddu Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Canolfannau Hyfforddi Diogel a Chartrefi Plant Diogel.

Mae'r YJB yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol o fewn ffiniau adrannol y MoJ. Cyfrifir am swyddogaethau a drosglwyddir o fewn ffiniau adrannol y MoJ ar sail amsugno'n unol â'r FReM. Mae asedau net y swyddogaethau a drosglwyddodd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol HMPPS ar y dyddiad trosglwyddo heb wneud unrhyw addasiad i'r gwerth cario. Cofnodir gwerth cario'r asedau net fel elw anweithredol yn y SoCNE. Dengys y dadansoddiad isod yr asedau net a drosglwyddodd i HMPPS ar 1 Medi 2017. Ystyrir bod polisïau cyfrifyddu'r YJB yn gyson â rhai HMPPS.

| | Nodiadau | 01 Medi 2017<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | |
| Eiddo, peiriannau a chyfarpar | 5 | 68,943 |
| | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 11a | (757) |
| | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | |
| Taladwyon masnachol ac eraill | 11b | (11,407) |
| | | |
| **Enillion net ar drosglwyddiadau drwy amsugno** | | **56,779** |

## Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â'r gofynion yn IAS 10, mae digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn cael eu hystyried hyd at y dyddiad yr awdurdodir y cyfrifon i gael eu cyhoeddi. Dehonglir hyn fel yr un dyddiad â dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae HMPPS yn un o Asiantaethau Gweithredol y MoJ a dyrannwyd cyllideb flynyddol iddi am y flwyddyn ariannol 2018-19.

CCS0618901828
978-1-5286-0561-8